# Llyfr Y Cofnodion
# Plwyf Llanwddyn

Rhagfyr 1894

i Chwefror 1922

Argraphwyd a chyhoeddwyd gan T. Gee a'i Fab, Stryd y Capel, Dinbych

Gan ba rai y gellir cael yr holl Dafleni angenrheidiol mewn cyssylltiad a Deddf Llywodraeth Leol, 1894

# Deddf y Llywodraeth Leol 1894

## Yr Attodlen Gyntaf

Rheolau mewn perthynas i

Gyrddau Plwyfol, Cynghorau Plwyfol, a Phwyllgorau

## Y RHAN GYNTAF

### Rheolau mewn perthynas i Gyrddau Plwyfol

1. Y mae cynnulliad blynyddol y Cyrddau Plwyfol i'w gynnal ar y pummed ar hugain o Fawrth, neu o fewn saith niwrnod cyn neu wedi y diwrnod hwnw.
2. Rhaid rhoddi rhybudd cyhoeddus am bod Cwrdd Plwyfol llawn saith niwrnod cyn ei gynnal; a rhaid i'r rhybudd nodi amser a lle y cyfarfod, ynghyd â'r gwaith sydd i fod ynddo; a rhaid ei fod wedi ei lawnodi gan gadeirydd y Cynghor Plwyfol, neu pwy bynag arall fydd yn ei alw.
3. Os bydd a wnelo gwaith y cyfarfod â sefydliad neu ddadsefydliad Cynghor Plwyfol, neu gydio plwyf wrth blwyf arall, neu fabwysiad un neu rai o'r Deddfau Mabwysiadwy, bydd llawn pedwar diwrnod ar ddeg yn ofynol o rybudd.
4. Gall Cwrdd Plwyfol drafod materion plwyfol, a phasio penderfyniadau ynghlyn â hyny.
5. Rhaid i bob cwestiwn a ystyrir gan Gwrdd Plwyfol gael ei benderfynu, yn y lle cyntaf, gan fwyafrif o'r rhai fydd ynddo, ac yn pleidleisio; a rhaid i'r cadeirydd hysbysu ei ddyfarniad ar y bleidlais; a rhaid i'r dyfarniad hwnw fod yn derfynol, os na bydd pôl yn cael ei hawlio.
6. Gellir hawlio pôl ar unrhyw adeg cyn terfyn cyfarfod y Cwrdd Plwyfol.
7. Gall unrhyw etholydd plwyfol hawlio pôl ynghlyn a phenderfyniad ar unrhyw un o'r materion canlynol:
    a. Unrhyw gais, neu genadwri, neu achwyniad at y Cynghor Sirol neu Gynghor Dosbarth.

b. Pennodiad cadeirydd am y flwyddyn, neu gadeirydd pwyllgor, neu drosglwyddiad unrhyw awdurdod neu ddyledswyddau i bwyllgor, neu gymmeradwyaeth o actau pwyllor.

c. Pennodiad arolygwr, pennodiad neu ddiswyddiad arolygwr cynnorthwyol, neu swyddog plwyfol.

d. Pennodiad ymddiriedolwyr neu dderbynwyr elusen.

e. Mabwysiad un neu rai o'r Deddfau Mabwysiadwy.

f. Ffurfiad neu ddiddymiad Bwrdd Ysgol.

g. Cydsyniad, neu wrthodiad cydsyniad, ag unrhyw weithred, achos, neu beth nas gellir ei wneuthur yn gyfreithlawn heb y cyfryw gydsyniad.

h. Ymgymmeryd ag unrhyw draul neu gyfrifoldeb.

i. Amser a lle cynnulliad y Cwrdd Plwyfol.

j. (dim j)

k. Unrhyw achos rhagosodedig arall.

Ond, gyda'r eithriad o'r pethau a nodwyd, nis gellir mynu pôl os na bydd cadeirydd y cyfarfod yn cyd-synio, neu ynte ei fod yn cael ei hawlio gan ddim llai na phump, neu un ran o dair (pa un bynag o'r ddau nifer fydd y lleiaf) o'r etholwyr plwyfol fydd yn bresennol yn y cyfarfod.

8. Os bydd y pleidleisiau yn gyfartal ar y ddau du i unrhyw gwestiwn, bydd gan y cadeirydd ail bleidlais i benderfynu yr achos.

9. Pan y cynnelir Cwrdd Plwyfol er ethol Cynghorwyr Plwyfol, rhaid rhoddi cyfleusdra yn y cyfarfod i ofyn cwestiynau i'r ymgeiswyr fydd yn bresennol, ac i dderbyn eglurhâd ganddynt; a bydd gan bob ymgeisydd hawl i fyned i'r cyfarfod, a siarad ynddo. Ond os na bydd efe yn etholwr plwyfol, ni bydd ganddo hawl i bleidleisio.

10. Os bydd cadeirydd y Cwrdd Plwyfol yn absennol, neu yn anfoddlawn, neu yn analluogol i gymmeryd y gadair, mewn unrhyw gynnulliad o'r Cwrdd Plwyfol, gall y cyfarfod bennodi un i gymmeryd y gadair; a bydd gan yr un hwnw alluoedd ac awdurdod cadeirydd yn holl waith y cyfarfod hwnw.

11. Gellir rhoddi unrhyw rybudd y bydd yn angenrheidiol ei roddi i Gwrdd Plwyfol i gadeirydd y Cwrdd Plwyfol.

# YR AIL RAN

## Rheolau mewn perthynas i Gynghorau Plwyfol

1. Rhaid i bob cynghorwr plwyfol, yn y cyfarfod cyntaf wedi ei etholiad – neu ynte (gyda chaniatâd y cynghor yn y cyfarfod cyntaf) mewn cyfarfod diweddarach, law-nodi dadganiad yn ngwydd rhyw aelod o’r cynghor, ei fod yn ymgymmeryd â’r swydd. Ac os na wna efe hyny, bydd y swydd yn wâg.
2. Os digwydd fod lle gwâg yn aelodaeth y cynghor, rhaid i’r cynghor gael ei alw ynghyd yn ddioed i ddewis aelod i lanw y bwlch.
3. Gwaith cyntaf y cynnulliad blynyddol fydd ethol cadeirydd, a phennodi yr arolygwr.
4. Gall y cadeirydd, ar unrhyw amser, alw cyfarfod o’r Cynghor Plwyfol. Os gwrthoda y cadeirydd alw cyfarfod o’r cynghor, wedi i gais am hyny dan law dau aelod o’r cynghor gael ei gyflwyno iddo, gall unrhyw ddau aelod, yn ddioed ar ol ei wrthodiad ef, alw cyfarfod. Os bydd y cadeirydd (er heb ddadgan ei wrthodiad) yn oedi galw cyfarfod dros saith niwrnod wedi derbyn y cyfryw gais, gall unrhyw ddau aelod o’r cynghor, ar derfyn y saith niwrnod, alw cyfarfod.
5. Rhaid rhoddi rhybudd am bob cyfarfod o’r Cynghor Plwyfol o leiaf dri diwrnod llawn cyn y cyfarfod. Rhaid i’r rhybudd hysbysu amser a lle y cyfarfod, a’r gwaith fydd i’w gyflawni ynddo; a rhaid i’r rhybudd fod wedi ei law-nodi gan neu ar ran Cadeirydd y Cynghor Plwyfol, neu y personau fydd yn galw y cyfarfod; a rhaid anfon y rhybudd i bob aelod o’r cynghor. Am y cyfarfod blynyddol, rhaid rhoddi rhybudd cyffelyb, yn cynnwys manylion cyffelyb, i bob aelod o’r Cynghor Plwyfol, yn ddioed ar ol ei etholiad.
6. Unrhyw rybudd y mae’r gyfraith yn gofyn ei fod yn cael ei roddi i’r cadeirydd, neu i unrhyw aelod o’r Cynghor Plwyfol, gellir ei adael yn nghartref arferol y cyfryw gadeirydd, neu aelod; neu ynte ei anfon yno trwy’r llythyrdy.
7. Nis gellir trafod unrhyw waith yn un o gyfarfodydd y Cynghor Plwfol, os na bydd o leiaf un ran o dair o’r aelodau yn bresennol – ac nid gwiw i’r nifer fod dan unrhyw amgylchiad yn llai na thri.

8. Rhaid cofnodi enwau yr aelodau fydd yn bresennol yn nghyfarfod y Cynghor Plwyfol; ac hefyd, pa bryd bynag y cymmer ymraniad ar unrhyw gwestiwn, rhaid cofnodi yr enwau yn y fath fodd ag i ddangos pa un ai o blaid, neu yn erbyn, y bydd pob un wedi pleidleisio.

9. Rhaid penderfynu pob cwestiwn yn nghyfarfod y Cynghor Plwyfol trwy fwyafrif pleidleisiau yr aelodau fydd yn bresennol, ac yn pleidleisio ar y cwestiwn hwnw.

10. Os bydd y pleidleisiau yn gyfartal o blaid ac yn erbyn unrhyw gwestiwn, bydd gan gadeirydd y cyfarfod ail bleidlais, neu bleidlais derfynol.

11. Gall y Cynghor Plwyfol, os dewisant, bennodi un o'u haelodau i fod yn is-gadeirydd. A bydd gan yr is-gadeirydd holl awdurdod y cadeirydd yn ei absennoldeb, neu pan y bydd y cadeirydd yn analluog i fod yn bresennol.

12. Ni ddirymir gwaith y Cynghor Plwyfol o herwydd unrhyw fwlch sydd yn nifer yr aelodau, nac o herwydd unrhwy ddiffyg yn etholiad neu gymmhwysderau un o'r aelodau.

13. Bydd raid i'r Cynghor Plwyfol gynnal, o leia, bedwar o gyfarfodydd ym mhob blwyddyn; o ba rai y bydd un yn gyfarfod blynyddol. A bydd pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd, os na bydd y cynghor yn penderfynu yn wahanol.

14. Rhaid i bob cheque, neu orchymyn am daliad arian, gan y Cynghor Plwyfol fod wedi ei lawnodi gan ddau aelod o'r cynghor.

15. Gellir rhoddi unrhyw rybudd y bydd yn ofynol ei roddi i Gynghor Plwyfol trwy ei roddi i ysgrifenydd y Cynghor Plwyfol.

16. Gall y Cynghor Plwyfol ymddangos ger bron unrhyw lys, neu mewn unrhyw erlyniad cyfreithiol, trwy eu hysgrifenydd, neu trwy unrhyw swyddog neu aelod a awdurdodir yn gyffredinol, neu ynte ynghlyn ag unrhyw erlyniad arbenig, trwy benderfyniad o eiddo y cynghor; a bydd gan yr ysgrifenydd, neu unrhyw aelod neu swyddog a awdurdodir felly, hawl i gychwyn a dwyn yn mlaen unrhyw gynghaws y bydd gan y Cynghor Plwyfol awdurdod i'w gychwyn, a'i ddwyn yn mlaen.

# Y DRYDEDD RAN

## Cyffredinol

1. Rhaid cadw y cofnodion o weithrediadau pob Cynghor Plwyfol a Chwrdd Plwyfol mewn llyfr fydd wedi ei ddarparu i'r pwrpas hwn.
2. Bydd raid i unrhyw gofnod o weithrediadau cyfarfod o'r Cynghor Plwyfol, neu Bwyllgor Cynghor Plwyfol, neu Gynghor Dosbarth, neu Gwrdd Plwyfol, os bydd wedi ei lawnodi yn y cyfarfod hwnw, neu yn yr un dilynol, gan un yn disgrifio ei hun neu yn ymddangos fel cadeirydd y cyfarfod yn yr hwn y llawnodir y cofnodion, gael ei dderbyn fel tystiolaeth gyfreithiol, heb unrhyw brawf pellach.
3. Hyd oni phrofir y gwrthwyneb, bydd raid cymmeryd yn ganiataol fod unrhyw gyfarfod y cofnodwyd ei weithrediadau fel y nodwyd wedi el alw a'i gynnal yn briodol; a bod holl aelodau y cyfarfod yn meddu ar y cymmhwysderau angenrheidiol. A phan y bydd y gweithrediadau yn weithrediadau pwyllgor, rhai cymmeryd yn ganiataol fod y cyfryw bwyllgor wedi ei gyfansoddi yn briodol, ac wedi derbyn awdurdod i ystyried a phenderfynu yr achosion y cyfeirir atynt yn y cofnodion.
4. Bydd raid i unrhyw ysgrif gyfreithiol fydd yn proffesu bod wedi ei chwblau dan law, neu dan law a sêl y cadeirydd, a dau aelod arall o'r Cynghor Plwyfol, neu y Cwrdd Plwyol, gael ei hystyried, hyd oni phrofir i'r gwrthwyneb, fel wedi ei chwblhau yn briodol.
5. Gall Cynghorau Plwyfol, yn ddarostyngedig i ddarpariadau y ddeddf hon, wneuthur, amrywio, a diddymu rheolau sefydlog er rheoleiddiad eu gweithrediadau; ac hefyd, weithrediadau Cyrddau Plwyfol mewn plwyfydd gwledig fydd yn meddu Cynghor Plwyfol.
6. Lle na bydd Cynghor mewn Plwyf Gwledig, gall y Cwrdd Plwyfol, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau y ddeddf hon, reoleiddio eu gweithrediadau eu hunain.

# Y BEDWAREDD RAN

## Gweithrediadau Pwyllgorau Cynghorau Plwyfol

## neu Gynghorau Dosbarth

1. Bydd raid i gworum, gweithrediadau, a man cyfarfod pwyllgor, pa un bynag ai oddi fewn ai oddi allan i'r plwyf neu y dosbarth y bydd, a'r cylch (os bydd cylch) o fewn yr hwn y mae'r cyfryw bwyllgor i arfer ei awdurdod, fod yn gyfryw ag a benderfynir gan drefniadau y cynghor neu y cynghorau fydd yn pennodi y pwyllgor.
2. Yn ddarostyngedig i'r cyfryw drefniadau, bydd raid i'r cworum, y gweithrediadau, a'r man cyfarfod, pa un bynag ai oddi mewn ai oddi allan i'r plwyf neu y dosbarth, fod yn gyfryw ag a drefnir gan y pwyllgor; a bydd gan gadeirydd unrhyw gyfarfod o eiddo y pwyllgor ail bleidlais, neu bleidlais derfynol.

**DYMUNIR SYLW I HYN**:- Ar yr ochr chwith i'r llinellau cochion sydd ar y dalenau canlynol, dylid rhoddi mewn ychydig eiriau, gynnwys y paragraphau fydd o'r tu arall i'r llinellau, er rhwyddhau cyfeiriad atynt. Y mae y tudalenau cyntaf, ar ba rai y mae Llythyrenau y Wyddor, wedi eu bwriadu i gynnwys yr hyn fydd ar y llaw chwith i'r llinellau cochion, ac i ddangos y tudalenau ar ba rai y maent i'w cael.

A Archeb (Precept) ar y Overseers, III

Arolygwyr y Tlodion (Overseers), I

B Biliau, IV.1

Box i gadw y map plwyfol, 1

C Cadeirydd, Dewis II,1

Committee y Llwybrau, 1

Claddfa Caeaubychain, 1

Parish Registers, 2

D Datganiad yr aelodau 1894 I; 1896 10; 1897 20; 1898 28; 1899 34; 1901 50; 1904 78.

Darparu yr ystafell III

E Elusenau, 2

F Ffyrdd cyhoeddus gan y Cynghor Sir, IV

G Gwaddoliadau, III

Gwnstabliaid, IV

H

I

K

L Llyfrau at wasaneth y Cynghor, III
Llwybrau
Llwybrau Cowny, IV I
Llwybrau Caeaubychain, I

M Map o’r plwyf, III

N

O

P

Q

R Rheolau sefydlog, III

S Safe at wasanaeth plwyf, III

T Trysorydd, II

V

W

X

Y Ysgrifenydd, II

Ymddiriedolwyr y gwaddoliadau, II

Z

## Datganiad (Declaration)

Yr ydym ni y rhai y mae ein henwau isod, yn datgan ac yn llawnodi ym mhresenoldeb ein gilydd ein bod yn ymgymeryd a gwahanol ddyledswyddau perthynol i'r Cynghor Plwyfol i'w cyflawni yn gydwybodol, a ffyddlawn hyd eithaf ein gallu.

Arwyddwyd

Joseph Thompson Williams, Cadeirydd
David Davies
Jane Davies
John Jones
Watkin Owen

## Cynhaliwyd Cyfarfod Cyntaf Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Rhagfyr 13 1894

Yr oll aelodau yn bresenol.

1. Dewisiwyd Mr J.T. Williams Dafarn Newydd yn Gadeirydd y Cynghor.
2. Dewisiwyd Mr Watkin Owen Post Office yn Drysorydd.
3. Dewisiwyd Mr John Lloyd Cynorthwywr y Gwarcheidwaid, yn Ysgrifenydd (gan na wnai aelod o'r cynghor y gwaith).
4. Dewisiwyd Miss Davies a Mr Simon Jones yn ymddiriedolwyr yr elusennau.
5. Fod Cyfarfodydd y cynghor i'w cynal yn yr ysgoldy.
6. Enwyd Nos Wener y noswaith fwyaf cyfleus i'w cynnal, ond ni ddaethpwyd i benderfyniad.

Sylwyd mai dymunol fyddai cynal y cyfarfod nesaf mor fuan ag y gellid, ond gan fod amrwy o'r aelodau yn myned oddicartref yn ystod gwyliau y Nadolig mai doeth fyddai ei daflu i Ionawr.

JT Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plywfol Llanwddyn a gynhaliwyd

## Ionawr 22ain 1895

Yr holl aelodau yn bresenol.

1. Pasiwyd i gael Safe at wasanaeth y Cynghor.
2. Pasiwyd i wneud archeb i'r Gwarcheidwaid y swm of £10.0.0 tuag at dreuliau y Cynghor.
3. Pasiwyd fod 2/6 i gael ei dalu am Dân, Goleu a Glanhau yr ysgol, am bob cyfarfod.
4. Dewisiwyd i Mr J T Williams i edrych i mewn i waddoliadau ystât Llwydiarth ar ran plwyf Llanwddyn.
5. Pasiwyd i gael map o'r plwyf.
6. Dewisiwyd Mr R Snowdon a'r Ysgrifenydd i edrych am y map
7. Pasiwyd i gael rheolau sefydlog i'r cynghor. Meistri David Davies, Watkin Owen a John Jones i'w tynu allan.
8. Pasiwyd fod i'r Ysgrifenydd yrru am y llyfrau anghenrheidiol tuag at wasanaeth y cynghor
9. Rhoddodd Mr Watkin Owen rybudd y bydd yn galw sylw yn y cyfarfod nesaf at y claddfeydd preifat yn y plwyf.

Arwyddwyd JT Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Lun, Chwefror 25ain 1895

Yn bresenol: Meistri JT Williams Cadeirydd, D Davies, W Owen, J Jones, J Gittins, Jane Davies, R Snowdon

Dewiswyd y rhestr isod yn Gwnstabliaid

Mr John Price, Bryndu – gof

Mr David Rickett, Bethel – saer maen

Mr Thos Williams, Llidiart y Fotty – gweithiwr

Mr David Hughes, Wddyn House – gweithiwr

Mr Isaac Jones Morris, Nyth yr Eryr – gweithiwr

Mr Thos Jones, Tyn y Ddol – gweithiwr

Mr Evan Evans, Penybont – gweithiwr

Mr John Lloyd, Gwreiddie – ffarmwr

Mr Thos Jetson, Brynadda – ffarmwr

Mr Thos Gittins, Bryngwyn – ffarmwr

Mr John Evans, Havod – gweithiwr

Mr Alun Roberts – Grwnoer Shop

Yr oedd y cynghor yn awyddus am i'r cwnstabliaid gael ei talu yn ol 4/- y dydd.

Derbyniwyd bil o 10/- oddiwrth Mr WA Pughe am ei waith gydag etholiad y cynghor Sirol, ond trwy nad oes dim wedi ei wneyd penderfynwyd fod i Mr JT Williams edrych i mewn a ydyw yn iawn ei dalu.

Pasiwyd i yrru at gynghor y sir, os ydynt wedi cymeryd y ffordd newydd gan Gorphoraeth Tre Lerpwl i ddymuno ar iddynt roi sylw iddi.

Pasiwyd fod i Meistri Watkin Owen a John Jones i edrych ansawdd y llwybr troed sydd yn cychwyn oddiwrth y Post Office trosodd i Gowny a dyfod ac adroddiad i'r cynghor nesaf.

Arwyddwyd JT Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Iau, Ebrill 18fed 1895

Yn bresenol: Meistri JT Williams (Cadeirydd) D Davies, J Gittins, J Jones a W Owen.

1. Cynigwyd gan Mr J Gittins a chefnogwyd gan Mr D Davies a phasiwyd yn unfrydol fod Mr JT Williams i fod yn gadeirydd am y flwyddyn ddyfodol.
2. Dewisiwyd Meistri John Lloyd, Gwreiddie a John Williams, Glanrhyd i fod yn oruchwylwyr y tlodion am y flwyddyn.
3. Dewisiwyd Meistri John Gittins, John Jones a W Owen i edrych ar ol y ffyrdd a llwybrau traed yn y plwyf.

4. Pasio cyfrifon. Pasiwyd i dalu Bil o 10/- i Mr W A Pugh ar ol etholiad y cynghor sirol, i dalu am y map o'r plwyf, ac am y llyfr cofnodion.
5. Pasiwyd i Mr W Owen i edrych am focs i gadw y map
6. Cyflwynodd Mr JT Williams adroddiad o'r ymchwliad i waddoliadau ystat Llwydiarth ar ran plwyf Llanwddyn. Dywedodd ei fod yn mynd yn mlaen gyda'r gwaith ai fod wedi ysgrifennu a derbyn amrwy lythyrau ond ar hyn o bryd nad yw yn bosibl rhoi gwybodaeth derfynol, a oes peth o honynt i Lanwddyn ai nad oes.
7. Adroddiad Meistri J Jones a W Owen o'i hymweliad i'r llwybr troed sydd yn cychwyn oddiwrth y Post Office drosodd at Caeau-bychain. Yr oeddyn yn dweyd fod y sefyllfa yn wir ddrwg ac eisio ei adgyweirio. Dywedasant fod y llwybr sydd yn mynd drosodd i Gowny hefyd yr un mor ddrwg, fod y plant yn mynd a dod i'r ysgol ar hyd iddynt ai bod yn gwlychu eu traed. Pasiwyd i adgyweirio ychydig arnynt.
8. Claddfa Caeau-bychain gan Mr W Owen. Sylwodd Mr Owen fod y gladdfa yma yn wyllt ac yn agored i anifeiliaid. Gofynodd hefyd i'r Cynghor pa un ai apelio at y Meistr tir am ei chau allan a wneir, ai gwneyd ar gost y plwyf. Cynigiwyd gan Mr W Owen a chefnogwyd gan Mr J Gittins ein bod yn gofyn i Sir Thomas Storey trwy ei oruchwyliwr am ei chau allan.
9. Cofnodion y Plwyf. Cynigiwyd gan Mr J Gittins a chefnogwyd gan y Cadeirydd ei fod yn cael ei ohirio hyd y cyfarfod nesaf, a bod Meistri D Davies a W Owen i fyned i ymgynghori a Mr Williams (Vicar). Gwnaeth Mr D Davies ymholiad am yr elusennau sydd yn perthyn i'r plwyf, pa rai sydd yn 16/8   5/8 Eglwysig, ac 11/- yn eiddo plwyfol.

JT Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Fercher, Awst 28ain 1895

Yn bresenol: Meistri JT Williams (Cadeirydd) David Davies, John Gittins a John Jones.

1. Gohebiaethau. Darllenwyd llythyr oddiwrth Mr James James goruchwyliwr Sir Thomas Storey yn hysbysu fod claddfa Caeau-bychain wedi ei chau allan, ac wedi ei phlanu yn goed.

Hyspysodd y Cadeirydd ei fod yn myned yn mlaen gyda'r gwaith o chwilio i mewn i waddoliadau ystad Llwydiarth, ac y ceid gwybodaeth bellach eto.

2. Pasiodd y cynghor i gael copy o'r Ewyllysiau sydd yn eiddo plwyfol, i feddiant y cynghor.
3. Y llwybrau traed. Hyspysodd Mr John Jones y byddai iddynt mor fuan ac y gallant, adgyweirio ychydig ar y llwybrau traed, yn ol penderfyniad y cynghor yn y cyfarfod blaenorol.

Gwnaed ymchwiliad a oes hen lwybrau traed o fewn y plwyf wedi ei cau. Gan nad ddaeth dim cwyn neullduol, gohiriwyd hyd nes clywir unrhyw gwyn pellach.

4. Hyspysodd Mr David Davies fod Mr W Owen ac yntau wei bod yn ymweled a'r Parch John Williams (Vicar) yn dymuno arno i gyflwyno y llyfrau, pa rai sydd yn eiddo plwyfol, i feddiant y Cynghor, a bod Mr Williams yn barod i'w cyflwyno gyda phob parodrwydd (sef Llyfr yr Elusenau, a llyfr yn cofnodi y gwarcheidwaid)
5. Cafwyd ymdrafodaeth ynghlych y ffordd newydd pa un sydd mewn cyflwr drwg, ac eisio ei hadgyweirio. Pasiwyd i'r Cadeirydd anfon at Mr James Parry y prif swyddog dros Gorphoraeth tre Lerpwl, yn dymuno am iddi gael ei hadgyweirio.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Wener, Hydref 18fed 1895

Presenoldeb yr Aelodau. Yn bresenol: Mr J T Williams (Cadeirydd), Mr David Davies, Miss Jane Davies a Mr Watkin Owen.

1. Darllen a chadarnhau y cofnodion. Darllen a chadarnhau cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Y ffordd newydd. Y Cadeirydd a ddywedodd ei fod wedi bod yn siarad a Mr Parry ynghylch adgyweirio y ffordd newydd, a bod Mr Parry yn dweud fod y ffordd wedi ei throsglwyddo i gynghor y sir, felly mai y cynghor sirol sydd i'w hadgyweirio, ac nid y Corporation
3. Ysgol Llanfyllin. Pasiodd y cynghor bleidlais yn ffafr cael ysgol ganolraddol yn Llanfyllin.

4. Llythyr Mrs Jones Nantllachar. Darllenodd y Cadeirydd lythyr oddiwrth Mrs Jane Jones, Nantllachar yn cwyno fod y dwfr yn cael ei lygru, gan fod llawer o ddwfr o'r fynwent yn dod iddo, ac hefyd fod drains budron, a osodwyd gan y Corporation yn uwch i fynu yn arlloes ei budreddi iddo ac yn ei wneud yn anghymwys i'r anifeiliaid i'w yfed. Cynigiwyd gan Mr David Davies, a chefnogwyd gan y Cadeirydd fod i'r Wardeiniaid Eglwysig i edrych i mewn i gyflwr y fynwent gan mai ei gwaith hwy ydyw.
5. Cylchlythyr y Cynghor sirol. Cynigiwyd gan Mr David Davies, a chefnogwyd gan Miss Davies, a phasiwyd i'w ohirio hyd y cyfarfod nesaf.
6. Y safe. Pasiwyd i Miss Davies a'r Cadeirydd i fynd i weled y Fireproof safe sydd yn Rhiwargor cyn y cyfarfod nesaf.
7. Y ddau bost llidiart wrth Tanyfron. Daeth y Cadeirydd a chwyn yn erbyn y ddau bost llidiart sydd ar y brif ffordd, wrth Tanyfron, pa rai sydd yn hollol ddianghenrhaid a diwerth fel y maent, ac yn hynod o beryglys; dymunodd y cynghorwr Mr Williams ysgrifennu at y Surveyor am iddynt gael ei tynnu.
8. Llidiart i fynd i ffridd Penisarcwm. Daeth cwyn eisiau llidiart yn lle camfa i fynd o gaeau y Corporation i ffridd Penisarcwm, er mwyn cyfleustra i Gwm Cowny i ddod a cheffylau i'r efail. Cynigwyd gan Miss Davies, a chefnogwyd gan Mr Davies, a phasiwyd fod i bwyllgor y llwybrau roi y peth o flaen Mr Parry.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Iau, Tachwedd 21ain 1895

Presenoldeb yr Aelodau. Yn bresenol: Meistri J T Williams (Cadeirydd), Miss Jane Davies, J Gittins, J Jones a W Owen

1. Darllen a chadarnhau y cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf
2. Llwybr troed Cwm Cowny. Cafwyd adroddiad gan Meistri J Gittins a W Owen. Dywedasant ei bod wedi bod yn siarad a Mr Parry. Gofynasant iddo am lidiart i fynd i ffridd Penisarcwm. Addawodd yntau ar y cyntaf ei rhoi, ond wedi hynny, galwodd ei addewid yn ol, am y rheswm (meddai ef) nad yw y llwybr yn un cyhoeddus, ond mai private ground yn perthyn i'r Corporation ydyw. Y Cadeirydd a ofynodd pa le y byddai y llwybr yn

fwyaf cyfleus? Mr J Jones a atebodd mai ar mai ar hyd yn un sydd yn dod i lawr at y Post Office y mae y tramwy i gyd, ac mai hwnw yn ei farn ef yw yr un mwyaf cyfleus. Mr John Gittins a gynigodd fod i Meistri J Jones a W Owen fynd a Mr Parry i olwg y llwybr ac iddynt ystyried ym mha le y byddai y llwybr yn fwyaf cyfleus i Gwm Cowny i ddod i'r efail. Y mwyaf cyfleus yn ol sefyllfa y lle yn bresenol. Cefnogwyd gan Miss Davies a phasiwyd, a hefyd i gael sylw pellach yn y cyfarfod nesaf.

3. Ysgol Ganolraddol Llanfyllin. Pasiwyd mewn cyfarfod o'r blaen bleidlais yn ei ffafr. Cynigwyd y Cadeirydd y buasai yn well ganddo ef iddi fod mewn ffurf o Higher Class Department mewn cysylltiad ag un o'r ysgolion sydd yno yn bresenol, yn hytrach na mynd i'r draul i adeiladu ysgol ar wahan gan fod y boblogaeth mor deneu. Cefnogwyd gan Mr Gittins a phasiwyd fel cynigiad o Lanwddyn.
4. Lledu y ffordd wrth Penisarcwm. Mr John Jones gynigiodd, Mr W Owen yn cefnogi i anfon cais at y cynghor Dosparth am gael lledu y ffordd rhwng Penisarcwm a Bethania, gan ei bod yn peri anghyfleustra. Pasiwyd i wneud.
5. Mr W Owen a ddaeth a chwyn yn erbyn y llwybr troed sydd yn dod heibio shop Grwnoer. Dywedodd ei fod yn hynod o fudr a gwlyb, ac fod y plant wrth fynd i'r ysgol yn gwlychu ei traed. Cynigiodd fod i'r ysgrifenydd anfon at Mr James Goruchwyliwr Sir Thomas Storey i ofyn am ganiatad i roi dyn i adgyweirio ychydig arno. Cefnogwyd gan Miss Davies, a phasiwyd.
6. Llidiardau ar y prif ffyrdd. Galwodd y Cadeirydd sylw at y llidiardau sydd ar y prif ffyrdd o fewn y plwyf ai nid da fyddai tynnu rhai ohonynt sef y rhai y gellir bod hebddynt heb roi i'r amaethwyr sydd wedi ei rhoi i fynnu rydd lawer o anghyfleusdra.

J T Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Lun, Chwefror 25ain 1896

Yn bresenol: Meistri J T Williams (Cadeirydd), David Davies a John Jones.

1. Darllen y cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cyfnodion y cyfarfod diweddaf.

2. Gohebiaethau. Darllenodd yr ysgrifenydd lythyr oddiwrth Mr James James yn rhoi caniatad i adgyweirio llwybr wrth shop Grwnoer.
3. Darllenodd y Cadeirydd lythyr oddiwrth Mr J Roberts Grwnoer, yn gwrthwynebu i'r llwybr gael ei ddefnyddio fel un cyhoeddus, dim ond yn unig i'r plant fynd i'r ysgol.
4. Llwybr wrth shop Grwnoer. Penderfynwyd i'r ysgrifenydd anfon at Mr J Roberts yn dymuno arno ohebu ar goruchwyliwr ac y gwna y cynghor oedi ychydig cyn gwneud dim pellach
5. Dewis Cwnstabliaid. Dewisiwyd yn gwnstabliaid: Meistri:

   Evan Evans, Penybont

   John Price, Glanrafon

   David Rickett, Bethel House

   Thomas Gittins, Penisarcwm

   John Lloyd, Gwreiddie

   Ellis Ellis, Ty Ucha

Pasiwyd i gael Cynghor Nos Fawrth, Mawrth y 3ydd.

J T Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Fawrth, Mawrth 3ydd 1896

Yn bresenol: Meistri J T Williams Cadeirydd, David Davies, Miss Jane Davies, John Jones a Watkin Owen.

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Cydnabyddiaeth i'r ysgrifenydd. Cynigwyd gan Miss Jane Davies a chefnogwyd gan Mr David Davies fod £2.10.0 yn cael ei talu am y flwyddyn a chwarter sydd wedi mynd heibio, a £2.0.0 yn flynyddol ar ol hynny.
3. Pasio i gael box extra strong yn lle y fireproof safe. Cynigwyd gan Mr W Owen a chefnogwyd gan Miss Davies fod y penderfyniad o gael Fire Proof

Safe yn cael ei alw yn ol, gan ei bod yn ei gweled yn mynd yn rhy gostus ac y gellir cael un am arian llawer llai i wneyd y tro cystal.

4. Cynigiwyd gan Miss Davies a chefnogwyd gan Mr D Davies, ein bod yn cael Box Extra Strong yn ei lle, a phasiwyd.
5. Cynigiodd Mr John Jones, a chefnogwyd gan Mr W Owen, ein bod yn cael y box bellach yn ddioedi. Pasiwyd i'r ysgrifennydd anfon amdano.

J T Williams, Cadeirydd

## Datganiad (Declaration)

Yr ydym ni y rhai mae ei henwau isod yn ddatgan ac yn llawnodi ym mhresenoldeb ein gilydd yn ymgymeryd a gwahanol ddyledswyddau perthynol i'r cynghor plwyfol i'w cyflawni yn gydwybodol a ffyddlawn hyd eithaf ein gallu.

**1896**

Joseph Thompson Williams, Cadeirydd

David Davies

Jane Davies

John Gittins

John Jones

Lloyd Jones

Watkin Owen

## Cynhaliwyd Cwrdd Plwyfol Llanwddyn yn yr ysgoldy

## Nos Lun, Mawrth 9fed 1896

Darllen gwaith y cyfarfod. Darllenodd Mr J T Williams (Cadeirydd y cynghor plwyf) waith y cyfarfod, a rhoddodd anerchiad pwrpasol yn ystod y chwarter awr, cyn mynd at y gwaith o ethol cynghor plwyfol am y flwyddyn ddyfodol.

Wedi i'r papurau ddod i law yr oedd enw Mr Williams wedi ei gynnig, felly gwnaeth ei ymddiswyddiad o fod yn gadeirydd y cwrdd am y noswaith.

Ethol Cadeirydd. Cynigwyd gan Mr David Davies, a chefnogwyd gan Miss Jane Davies, fod i'r Parch John Williams (Vicar) i gymeryd y gadair. Pasiwyd yn unfrydol.

Ethol cynghor plwyfol. Daeth papurau nominations i'r Cadeirydd wedi hynny. Darfu i'r Cadeirydd ei darllen a chafwyd fod yr hen aelodau wedi ei hail ethol i gyd, a Mr Lloyd Jones Glanrhyd i'r sedd oedd yn wag.

Wedi hynny, rhoddodd y Cadeirydd gyfleusdra i'r cyfarfod, os oedd rhywun yn ewyllsio gofyn chwestiynau i'r cynghor a etholwyd, ond ni ddaeth neb yn mlaen, oddieithyr i'r Vicar wneyd ymholiad, pam yr oedd y llwybr troed sydd yn mynd drosodd i Gowny yn cael ei oddef mewn cyflwr mor ddrwg. Atebwyd gan Meistr John Jones a W Owen fod ychydig o welliant wedi ei wneyd, ai bod yn bwriadu gwneyd ychwaneg, ond fu ychydig o anghydweledjad pa lwybrau sydd yn gyhoeddus.

Terfynwyd y cyfarfod trwy i Mr J T Williams gynnig diolchgarwch i'r cadeirydd. Cefnogwyd gan Miss Davies a phasiwyd.

Arwyddwyd.

## Cynhaliwyd Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Wener, Ebrill 17eg 1896

Yn bresenol: Meistri J T Williams, David Davies, John Jones, Lloyd Jones a W Owen

1. Yr ymrwymiad. Arwyddwyd y Declaration
2. Dewis Cadeirydd. Dewis Cadeirydd am y flwyddyn ddyfodol. Cynigiodd Mr David Davies a chefnogwyd gan Mr W Owen i Mr J T Williams Dafarn Newydd fod yn gadeirydd am y flwyddyn hon eto, a phasiwyd yn unfrydol.
3. Darllen y cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf
4. Pasiwyd y cyfrifon hyd Mawrth yr 31ain
5. Penodi yr Arolygwyr. Cynigiwyd a phasiwyd fod Meistri Evan Williams Tan y Caeau, a Simon Jones Rhiwargor i aros yn ei swydd fel overseers

6. Cael y llyfrau i ofal y cynghor. Pasiwyd i Meistri David Davies a Watkin Owen fynd i ymweld a'r Vicar, er mwyn cael y llyfrau sydd yn eiddo y plwyf, i ofal y cynghor.
7. Pwyllgor llwybrau. Penodwyd David Davies, John Jones a Lloyd Jones i fod yn bwyllgor llwybrau.
8. Llwybr Grwnoer. Pasiwyd fod pwyllgor y llwybrau i fynd i ymweled a Mr John Roberts Grwnoer ynghylch llwybr troed Grwnoer.

Arwyddwyd J T Williams

Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Wener, Mehefin 12fed 1896

Yn bresenol: Meistri J T Williams (Cadeirydd), D Davies, J Gittins, J Jones, Lloyd Jones a W Owen

1. Darllen Cofnodion. Darllen a chadarnhau cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Gohebiaethau. Darllen gohebiaethau. Darllenodd y Cadeirydd lythyr oddiwrth y cynghor sirol, mewn perthynas i Dairy Bangor. Darllenodd lythyr arall oedd wedi ei gael o Lundain, mewn attebiad i ymholiad a wnaed ganddo i waddoliadau ystâd Llwydiarth yn hysbysu, os yw yn ystâd mewn mwy na phump o blwyfi, nas gellir gwneyd dim ond ei gadael fel y mae.
3. Y Revising Barrister Court. Ystyried y cais o symud y Revising Barrister Court o Llangynog i Penybontfawr. Cynigwyd gan Mr J Gittins a chefnogwyd gan Mr D Davies, y buasai yn llawer mwy cyfleus i'n dosparth ei gael yn Hirnant. Pasiwyd fel cynigiad o Lanwddyn.
4. Gwaddol Ellis Davies. Darllenwyd taflen oddiwrth y Vicar yn dangos pa fodd y rhanwyd gwaddol Ellis Davies yn 1896 pa rai sydd fel y canlyn:

| | |
|---|---|
| John Jones Ty Capel Cowny | 2s 0d |
| Mary Evans Factory Cowny | 1s 6d |
| Margaret Davies Tanyfron | 2s 6d |
| Catherine Hughes Llechwedd-du | 2s |
| Catherine Evans Hendre | 1s 6d |
| Jane (Felin) Evans Hendre | 1s 6d |
| Cyfanswm | 11s 0d |

5. Yr elor-gerbyd. Gwnaeth y Cadeirydd sylw ar elor-gerbyd y plwyf. Yr oedd yn dweud ei bod yn rhy drwm o lawer, ai bod yn hynod o henffasiwn. Cynigwyd gan Mr J Gittins a chefnogwyd gan Mr W Owen fod y Cynghor yn cymeryd mewn llaw i'w hadrefnu. Pasiwyd.
6. Llwybr Grwnoer. Llwybr troed Grwnoer. Dywedodd Mr John Jones ei fod wedi bod yn siarad a Mr John Roberts Grwnoer, ai fod yn dweyd na cheid gwneyd dim iddo, beth bynnag am flwyddyn. Ond trwy fod y llwybr yn un mor bwysig, cynigiodd Mr D Davies a chefnogodd Mr W Owen fod i'r ysgrifennyd i anfon at Sir Thomas Storry yn ei gylch, er ceisio sicrhau ei ddefnyddio er hwylusdod i'r cyhoedd. Pasiwyd.
7. Llwybr Cowny. Gwnaeth Mr W Owen ymholiad ynghlych llwybr Cownwy, gohiriwyd.
8. Standing Order i'r aelodau a forms i'r ysgrifenydd. Cynigiwyd gan Mr J T Williams, a phasiwyd i'r ysgrifenydd gael forms pwrpasol i alw y Cynghor ynghyd, ac hefyd standing orders un i bob un o'r cynghorwyr.
9. Tai yr Hendre. Pasiwyd i'r ysgrifenydd anfon at Gynghor plwyf Llangynog yn dymuno arnynt i edrych am chwarae teg i'r rhai sydd yn byw yn nhai yr Hendre tra y bydd y Corporation yn rhoi top newydd ar ei tai.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Wener, Hydref 2ail 1896

Yn bresenol: Meistri J T Williams (Cadeirydd), David Davies, Miss Jane Davies a J Jones.

1. Darllen cofnodion. Darllen a chadarnhau cofnodion y cyfarfod diweddaf.

2. Gohebiaethau. Y bont tan Grwnoer. Darllen gohebiaethau. Llythyr Sir T Storey yn yr hwn yr oedd yn pwyso ar y plwyf ac ar y Corporation i symud y bont sydd yn mynd dros yr afon o dan yr ysgoldy, i ochor Grwnoer, nid yw yn fodlon i'r bont i fod fel y mae gan ei bod yn achosi trespass. Barnodd y cynghor yn well i beidio gwneyd dim ar hyn o bryd gan mai rhwng y Corporation a Sir Thomas y mae i'w setlo.
3. Elor gerbyd y plwyf. Gan fod y gwaith o'i hadrefnu wedi ei oedi, dewisiwyd Miss Davies, Meistri John Jones a W Owen, yn bwyllgor i wneud y gwaith o'i hadrefnu.
4. Cydymdeimlad â'r Armeniaid. Pasiwyd i'r Cadeirydd i anfon llythyr i'r cyfarfod cyhoeddus sydd i'w gynnal yn y Trallwng i wrthwynebu y creulonderau yn Armenia.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Wener, Mawrth 5 1897

Yn bresenol: Meistri J T Williams (Cadeirydd), D Davies, J Jones a W Owen

1. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Darllen gohebiaethau. Ymddiswyddiad. Darllenodd y Cadeirydd lythyr oddiwrth Mrs Jane Davies sef rhybydd o ymddiswyddiad o'r gofal o lanhau, goleuo ar gyfer y cynghor. Gwaddol y tlodion. Darllenodd un arall oddiwrth y Vicar sef cyfrif pa fodd y rhanwyd gwaddol Ellis Davies eleni, fel y canlyn:

| | |
|---|---|
| Mary Evans Factory | 1s 6d |
| Margaret Davies Tanyfron | 2s 6d |
| Kitty Hughes Hospital | 2s 0d |
| Kitthy Evans Hendre | 2s 6d |
| Jane Felix Evans Hendre | 2s 6d |
| Cyfanswm 11s 0d | |

3. Gwnaed sylwadau ar ddyfodiad Jubilee y Frenhines.
4. Ty i David Morgan. Daeth cais at y cynghor am dy i David Morgan sydd yn gweithio ar y ffordd fawr, yr hwn sydd yn byw yn Mawddwy, ac yn gweithio ar y ffordd yn mlaen plwy Llanwddyn, felly yn llawer rhy bell oddiwrth ei waith, yr oedd y cynghor yn ffafriol iddo gael ty yn rhywle yn

mhen ucha’r llyn. Cynigiwyd gan Mr D Davies a chefnogwyd gan Mr W Owen fod i’r ysgrifenydd i anfon cais i’r Cynghor Dosparth, am iddo gael ty yn rhywle yn mlaen Llanwddyn.

5. Rails top wal y llyn, gwnaed penderfyniad i anfon cais at y Corporation am gael rails ar wal y llyn a hefyd am rhywbeth yn ffenestri y tyret rhag i’r plant ymwythio iddyn a syrthio arwyddynt.

6. Enwi Cwnstabliaid:

   John Williams, Glanrhyd

   Thomas Jones, Tynddol

   Thomas Williams, Llidiart-y-fotty

   Thomas Davies

   William Davies

   Ellis Ellis, Ty Ucha

7. Dewis arolygwyr:

   John Roberts, Grwnoer

   Robert Owen, Nanteinion

8. Dewisiwyd Nos Iau y 18fed o’r mis hwn i gynal y cyfarfod plwyfol.

J T Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Fawrth, Mawrth 16eg 1897

Yn bresenol: Meistri J T Williams, Cadeirydd, W Owen, D Davies, John Gittins, Lloyd Jones a John Jones.

1. Darllen a cadarnhau cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Darllen gohebiaethau. Darllenwyd llythyr oddiwrth Mr A Pugh o’r Lpool Corporation.
3. Dewis un i ofalu. Dewis person i lanhau a goleuo ystafell y cynghor. Dewiswyd Mrs Griffiths am y tal o 2/- y tro.
4. Trefnu ar gyfer y cyfarfod blynyddol.

J T Williams, Cadeirydd

## Cwrdd Plwyfol Llanwddyn

## Nos Iau, Mawrth 18fed 1897

Wedi i'r amser ddod i fyny, cynigwyd gan Mr W Owen a chefnogwyd gan Mr Ll Jones fod i Mr Williams Vicar i gymeryd y gadair, pasiwyd yn unfryd.

1. Galwodd y Cadeirydd am bapurau y nominations i fynu. Pa rai oedd fel y canlyn:

| | Cynigwyd | Cefnogwyd |
|---|---|---|
| D Davies | J Gittins | D Ricket |
| Jane Davies | John Williams | Watkin Owen |
| John Gittins | John Jones | David Davies |
| John Jones | John Davies | David [cyfenw aneglur] |
| Lloyd Jones | Watkin Owen | Jane Davies |
| Watkin Owen | Jane Davies | John Williams |
| J T Williams | David Davies | John Jones |

Y Cadeirydd fod y cyfarfod cyntaf (sef y cyfarfod ethol) drosodd. Cwrdd plwyfol ar ol.

1. Rhoddodd Mr David Davies awgrym i'r plwyfolion i symud yn mlaen os oedd rhywbeth yn eisiau yn welliant yn y plwyf, ag sydd yn gallu y cynghor, am gael awgrymiadau
2. Siaradodd Mr J Gittins i'r un pwrpas
3. Cynigodd Mr David Davies fod rhywbeth yn cael ei wneyd er Jubilee treigeinfed flwyddyn o deyrnasiad y Frenhines.

## Y Datganiad (Declaration) yr aelodau

## Ebrill 15fed 1897

Yr ydym ni y rhai y mae ein henwau isod, yn datgan, ac yn llawnodi, yn mhresenoldeb ein gilydd, ein bod yn ymgymeryd a gwahanol ddyledswyddau,

perthynol i’r Cynghor plwyfol, i’w cyflawni yn gydwybodol, a ffyddlon, hyd eithaf ein gallu.

David Davies
Jane Davies
John Gittins
John Jones
Lloyd Jones
Watkin Owen
J Thompson Williams

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Iau, Ebrill 15fed 1897

Yn bresenol: Meistri J T Williams, David Davies, Miss Jane Davies, Meistri John Jones, Lloyd Jones a Watkin Owen.

1. Ethol Cadeirydd. Cynigiwyd gan Miss Davies, cefnogwyd gan Mr John Jones fod Mr J T Williams i fod yn gadeirydd am y flwyddyn.
2. Cadarnhau’r Cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.
3. Ffenestr y Tyret. Darllenodd y cadeirydd llythyr oddiwrth Mr Parry Liverpool, mewn atebiad i’n cais a wnaed ato am rails ar dop wal y llyn, a rhywbeth yn ffenestr y Tyret, yr oedd Mr Parry yn addo edrych i mewn, ac yn dweyd ei fod yn dod i fynu yn fuan.
4. Dewis Arolygwyr. Dewis arolygwyr y tlodion. Dewisiwyd Mstri John Roberts Grwnoer, a Robert Owen Nanteinion.
5. Waterproofs i weithwyr y ffordd fawr. Cynigwyd gan Mr Lloyd Jones ein bod yn anfon cais at y cynghor dosparth, am i’r dynion sydd yn gweithio ar y ffordd fawr, dan y cynghor dosparth, gael dillad waterproof fel y dynion sydd dan y cynghor sirol. Pasiwyd.
6. Jubilee. Cynigiwyd gan Mr David Davies fod cyfarfod cyhoeddus yn cael ei alw yn fuan, i ystyried pa symudiad i wneyd gyda golwg ar ddyfodiad Jubilee y Frenhines. Pasiwyd i fod Nos Wener y 23ain cyfisol.
7. Pasiwyd i ddechreu cyfarfodydd y cynghor am 7 o’r gloch, hyd Hydref.
8. Anogwyd i Gommittee yr elorgerbyd i geisio symud.

9. Cynigiwyd gan Mr David Davies, cefnogwyd gan Mr John Jones, fod Mr Watkin Owen i barhau yn ei swydd fel trysorydd yn hytrach na'r Bane, gan ei fod gymaint yn fwy cyfleus yn Llanwddyn.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Wener, Hydref 29ain 1897

Yn bresenol: Meistri J T Williams (Cadeirydd), John Gittins, John Jones a Watkin Owen.

1. Llenwi y sedd wag.
2. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Gohebiaethau – dim.
4. Deddf y Clafe. Deddf y Clafe ar y defaid. Pasiwyd i anfon cais at y cynghor sirol, iddynt ail-ystyried y Ddeddf uchod, gan ei bod yn peri cymaint o anhwylusdod i drafnidiaeth a masnach defaid. A phasiwyd i anfon at y cynghorau plwyfi cylchynol, i ofyn iddyn gydweithredu.
5. Llwybr Cwm Cowny. Cynigiwyd gan Mr J Gittins, ac eiliwyd gan Mr D Davies i'r cadeirydd anfon llythyr at Mr Addie (goruchwyliwr Arglwydd Powys) i ofyn am y llwybr sydd yn mynd drosodd i Gowny yn gyhoeddus, a rhyddid i'w adgyweirio.
6. Rails top y wal. Pasiwyd i anfon llythyr at Mr Parry Liverpool i adgoffa am railis top y wal, a ffenestri y tyret.
7. Llwybr Grwnoer. Cynigwyd gan Mr W Owen, cefnogwyd gan Mr D Davies, ein bod i anfon llythyr at Syr Thomas Story i ofyn a wneud ef adgyweirio y llwybr wrth shop Grwnoer, neu roi cenad i'r cynghor i wneyd.
8. Pasiwyd i ofyn i Mr Alun Roberts shop goed roi camfa ar y llwybr dan y ty.
9. Y bont newydd. Pasiwyd i anfon at y cynghor dosparth i ofyn am iddynt roi byrddau ar ochrau y bont newydd.
10. Yr elorgerbyd. Pasiwyd i bwyllgor yr elorgerbyd i geisio symud a dod ag adroddiad.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Lun, Rhagfyr 13eg 1897

Yn bresenol: Mri J T Williams (Cadeirydd), David Davies, John Jones, Lloyd Jones, John Gittins a Watkin Owen.

1. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Darllen gohebiaethau
3. Deddf y Clafe, Gohiriwyd hyd ar ol cyfarfod y cynghor sirol, ond penderfynwyd i'w gadw yn mlaen.
4. Llwybr Grwnoer. Cafwyd cenad (trwy Mr Williams y Cadeirydd) i adgyweirio llwybr Grwnoer.
5. Committee y llwybrau. Etholwyd Mr W Owen at Mri John Jones, John Gittins a Lloyd Jones yn gommittee llwybrau.
6. Y bont newydd. Cafwyd atebiad i'n cais am welliant ar y bont-newydd. Darllenodd y Cadeirydd lythyr oddiwrth y Road Surveyor yn yr hwn yr oedd yn angen ei gwella.
7. Llwybr i Gowny. Cafwyd trafnidiaeth faith ynghylch y llwybr i Gowny a llythyr Mr Addie. Penderfynwyd i Mri Gittins a Jones Cowny fynd i siarad a Mr Addie Goruchwyliwr Arglwydd Powys.
8. Yr elorgerbyd. Cynigiodd Mr W Owen fod yr elorgerbyd yn cael gwneyd rhywbeth iddi bellach, ac mae ei farn ef yw nas gellir gwneyd dim yn well na symud ychydig arni, gan ei bod yn rhy bendrwn o lawer, a hefyd ei phaentio, ai barnishio. Pasiwyd, a bod rhywyn i gael ei dalu am lanhau a chadw yr harness.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Wener, Mawrth 4ydd 1898

Yn bresenol: Mri David Davies, John Jones a Lloyd Jones.

Yn absenoldeb Mr J T Williams oherwydd afiechyd, etholwyd Mr David Davies yn Gadeirydd.

1. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Dewis Cwnstabliaid. Enwi Cwnstabliaid am y flwyddyn:

   Thomas Humphreys Tynewydd, amaethwr

   Benjamin Jones Bryndu, wagoner

   Simeon Carpenter Nyth yr Eryr, garddwr

   Thomas Gittins, Penisarcwm, ffarmwr

   Thomas Davies, Garris, ffarmwr

   Isaac Jones Morris Frongoch, gweithiwr
3. Archeb am arian. Pasiwyd i wneud archeb ar yr arolygwyr am £6.0.0

Arwyddwyd David Davies y Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Fawrth, Mawrth 12fed 1898

Yn bresenol: Mri J T Williams (Cadeirydd) Dd Davies, J Gittins, John Jones a W Owen.

1. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf
2. Pasiwyd y cyfrifon am y flwyddyn.
3. Darllen llythyr oddiwrth Mr Parry ynghlych y wal.
4. Penderfynwyd i'r cyfarfod nesaf (sef cyfarfod cyntaf y cynghor newydd) fod nos Lun Ebrill 18fed.
5. Pasiwyd fod yr hen arferiad o dalu 2/6 am yr Hearse bob tro y bydd yn myned allan, yn cael ei adnewyddu.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

## Cwrdd Plwyfol Llanwddyn

## Nos Lun, Mawrth 14eg 1898

Y Parch John Williams (vicar) yn y gadair.

Ethol y cynghor newydd:

| Aelodau | Cynigwr | Cefnogwr |
|---|---|---|
| David Davies, Bethel House | J T Williams | David Rickett |
| Jane Davies, Lake Vyrnwy Hotel | W Owen | Rev John Williams |
| John Gittins, Eunant | J T Williams | David Davies |
| John Gittins, Penisarcwm | John Jones | David Rickett |
| Lloyd Jones, Glanrhyd | Rev John Williams | W Owen |
| Watkin Owen, Post Office | Rev John Williams | Jane Davies |
| Joseph Thompson Williams, Dafarn Newydd | David Davies | Benjamin Jones |

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r cyfarfod i ofyn cwestiynnau i'r rhai a etholwyd.

Cynnrychiolydd i'r cynghor dosbarth**.** David Jones Bryn Vyrnwy yn cael ei gynnig gan J T Williams, ai gefnogi gan y Parch John Williams.

## Datganiad (Declaration) yr Aelodau

## Ebrill 18fed 1898

Yr ydym ni y rhai y mae ein henwau isod, yn datgan, ac yn llawnodi, yn mhresenoldeb ein gilydd, ein bod yn ymgymeryd a gwahanol ddyledswyddau perthynol i'r cynghor plwyfol, i'w cyflawni yn gydwybodol, a ffyddlon, hyd eithaf ein gallu.

1. David Davies
2. Jane Davies
3. John Gittins
4. John Jones
5. Lloyd Jones
6. Watkin Owen
7. Joseph Thompson Williams

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Ebrill 18fed 1898

Yn bresenol: Mri Joseph Thompson Williams, David Davies, Miss Jane Davies, John Gittins a Watkin Owen.

1. Arwyddo'r ymrwymiad
2. Dewis Cadeirydd. Dewisiwyd Mr J T Williams
3. Dewis is-Gadeirydd. Miss Jane Davies
4. Dewis Overseers. Dewisiwyd Mr Ellis Gittins Brynadda, ac Evan Lloyd Abermarchnad.
5. Darllen a chadarnhau'r cofnodion
6. Fee yr hearse. Pasiwyd fod ymrwymiad ysgrifenedig yn cael ei roddi i clerk y plwyf, mewn cysylltiad ar fee o haner coron am bob tro yr â yr hearse allan.
7. Penodwyd Mr W Owen a J Jones a J Gittins yn bwyllgor y llwybrau.
8. Pasiwyd i wneud cais am Helaethiad yn y Gynnrychiolaeth ar y cynghor dosparth ac i gael cyfarfod o'r plwyfolion yn vestry y capel, am 11 o'r gloch ddiwrnod y ffair i ystyried y mater.

Arwyddwyd JT Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Wener, Mehefin 24ain 1898

Yn bresenol: Mri J T Williams (Cadeirydd), David Davies, John Jones, Lloyd Jones, W Owen a Miss Davies

1. Darllenwyd y rhybydd
2. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Gohebiaethau. Darllenodd y Cadeirydd lythyr oddiwrth Mr Addie ynghylch.
4. Mynegfys Boncyncelyn. Pasiwyd fod i'r ysgrifenydd anfon llythyr i'r District Council i alw ei sylw at y mynegfys ar Boncyncelyn.
5. Rhoddwyd anogaeth i Bwyllgor y llwybrau geisio dod i derfyn ynghlych y llwybr i Gowny.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Wener, Chwefror 10fed 1899

Yn bresenol: Mri David Davies, John Gittins, John Jones, Lloyd Jones a W Owen.

1. Cynigwyd gan Mr W Owen, cefnogwyd gan Mr D Davies, fod i Mr J Gittins gymeryd y gadair yn absendoldeb y Cadeirydd. Pasiwyd.
2. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Y fee am gadw yr hearse. Pasiwyd fod papur yn cael ei roddi i Glerc y plwyf, i'w roddi ar waith i lanhau yr hearse a'r harness cyn ei cadw bob tro wedi iddynt fod allan ai fod i gael 2/6 am ei waith bob tro i'w dalu gan y rhai fyddo yn cael ei gwasanaeth.
4. Pont Cowny. Pasiwyd i anfon ar unwaith at Gynghor y Sir, ai alw ei sylw at y Bont Newydd, gan ei bod yn wir beryglus i yrru anifeiliaid trosodd trwy fod ei chanllawiau yn agored ac yn rhy isel.
5. Afon yr Henryd. Pasiwyd hefyd i anfon at y cynghor dosparth i alw ei sylw at afon yr Henryd, yr oedd y cynghor o'r farn fod gwir anghenrheirwydd am bont.
6. Llwybr Cowny. Pasiwyd i anfon at Mr Addie i ofyn am gael y llwybr wedi ei setlo, ac i Mr J Jones geisio papur wedi ei arwyddo gan denantiaid Lord Powys, i'w anfon efo'r llythyr.
7. Llwybr y Post Office. Pasiwyd i drefnu ychydig ar lwybr o'r P.O. at Grwnoer.

Arwyddwyd John Gittins, dros y Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Mawrth 3ydd 1899

Yn bresenol: Mri J T Williams (Cadeirydd), D Davies, Miss Davies, Lloyd Jones a W Owen.

1. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Yr oedd rhai o'r aelodau yn dweyd fod Miss Davies Hotel wedi awgrymu ei bod yn disgwyl cydnabyddiaeth am lwybr Grwnoer. Gohiriwyd hyd oni cheir ychwaneg o wybodaeth.

3. Darllenwyd llythyr oddiwrth Mr Pugh Llanfyllin yn galw sylw y cynghor at waddoliadau y plwyf.
4. Dewisiwyd y rhai canlynol yn Gwnstabliaid:
   Mr John Lloyd, Gwreiddie
   Mr Thos Davies, Garris
   Mr Thos Gittins, Penisarcwm
   Mr Simeon Carpenter, Nyth yr Eryr
   Mr Richard Jones, Bethania
   Mr Allen Roberts, Shop Grwnoer
5. Pasiwyd fod y 4/2 sydd yn weddill ar ol repairio yr hearse yn cael ei defnyddio i repairio yr harness.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd

Arwyddwyd JG Gwyn Jones [enw aneglur] 20.7.99

## Datganiad (Declaration) yr aelodau

## Ebrill 17 1899

Yr ydym ni y rhai y mae ein henwau isod, yn datgan, ac yn llawnodi, yn mhresenoldeb ein gilydd, ein bod yn ymgymeryd a gwahanol ddyledswyddau perthynol i'r cynghor plwyfol, i'w cyflawni yn gydwybodol, a ffyddlon, hyd eithiaf ein gallu.

1. David Davies
2. Jane Davies
3. John Gittins
4. John Jones
5. Lloyd Jones
6. Watkin Owen
7. J T Williams

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Wener, Ebrill 21ain 1899

Yn bresenol: Mri J T Williams (Cadeirydd), David Davies, Miss Davies, Mri J Gittins a Watkin Owen.

1. Arwyddo'r ymrwymiad. Arwyddwyd yr ymrwymiad.

2. Dewis Cadeirydd. Cynigiwyd gan Miss Davies a chefnogwyd gan Mr Owen fod Mr J T Williams i fod yn gadeirydd. Pasiwyd.
3. Dewis Is-Gadeirydd. Cynigwyd gan Mr J T Williams a chefnogwyd gan Mr David Davies, fod Miss Davies i fod yn is-Gadeirydd. Pasiwyd.
4. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
5. Dewis Overseers. Dewisiwyd Mr H Lloyd Brynfedwen ac E Richards Llechwedd yn Overseers.
6. Report y Vicar am y gwaddol. Darllenodd y Cadeirydd report y Vicar, a'r modd y rhanwyd gwaddol Ellis Davies eleni, fel y canlyn:

| | s d |
|---|---|
| Margaret Davies | 2.6 |
| Mary Evans | 2.6 |
| Catherine Evans | 2.0 |
| Catherine Jones | 2.0 |
| Jane Felix Evans | 2.0 |
| | 11.0 |

8. Cais am bont ar afon yr Henryd. Darllenodd y Cadeirydd lythyr o'r District Council yn cydnabod y cais a anfonwyd am bont ar afon yr Henryd.

9. Y Pwyllgorau. Dewis pwyllgorau. Pasiwyd i wneyd ein pwyllgore fel Committee of Management.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Wener, Mai 26ain 1899

Yn bresenol: Mri J T Williams (Cadeirydd) David Davies a W Owen

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Ethol cynghorwr. Trwy fod Mr Evan Williams Tan y Caeau, yr hwn oedd wedi ei ethol yn ymwrthod ar swydd, etholwyd Mr John Jones Cowny yn ei le.
3. Oediad mewn sedd. Pasiwyd fod sedd Mr Lloyd Jones yr hwn oherwydd ei waeledd sydd yn analluog i fod yn bresennol i sefyll yn agored eto am dipyn.
4. Cais am ddarlithydd. Pasiwyd fod llythyr yn cael ei anfon at Mr Harrison i ofyn a oes darlithydd yn rhydd – mewn perthynas i amaethyddiaeth.

5. Y Fingerpost. Pasiwyd fod y cynghor yn protestio yn erbyn Lake Vyrnwy ar Fingerpost Boncyncelyn gan ei fod yn gadael Llanwddyn allan.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Lun, Hydref 9fed 1899

Yn bresenol: Mr J T Williams (Cadeirydd) Miss Davies, Mri D Davies, J Jones a W Owen.

1. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Y sedd wag. Llenwi y sedd wag. Pasiwyd i'w ohirio hyd y cyfarfod nesaf.
3. Ffordd Boncyncelyn. Pasiwyd fod y cadeirydd, Mr J Gittins a Miss Davies i gyfarfod y Surveyor i ystyried beth fydd oreu i'w wneyd, ac fod hynny ei wneyd yn ddioed.
4. Pont ar afon yr Henryd a Ffordd Cowny. Pasiwyd i anfon at y District Council ynghlych cael pont ar afon yr Henryd, ac hefyd lledu'r ffordd i Gownwy.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Wener, Mawrth 2ail 1900

Yn bresenol: Mri D Davies, J Jones, Lloyd Jones a W Owen

1. Yn absenoldeb y cadeirydd. Gynigiwyd gan Mr D Davies, cefnogwyd gan Mr J Jones fod Mr W Owen i fod yn gadeirydd am y noswaith. Pasiwyd.
2. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnofion y cyfarfod diweddaf.
3. Ffordd Boncyncelyn. Gohiriwyd gan fod y gwaith yn cael ei wneyd.
4. Llwybr Grwnoer. Y llwybr oddiwrth y Post Office tua Grwnoer gan fod cwyn wedi dod i'r cynghor fod y llwybr uchod yn ddrwg ei gyflwr. Cynigiwyd gan Mr D Davies, cefnogwyd gan Mr J Jones fod cais i'w anfon at y Corporation am ei drefnu. Pasiwyd.
5. Dewis Cwnstabliaid. Dewisiwyd y rhai canlynol yn Gwnstabliaid:

Mr Thos Gittins Penisarcwm

Mr Ellis Ellis Ty Ucha

Mr David Jones Gage House

Mr Simeon Carpenter Nyth yr Eryr

Mr John Williams Glanrhyd

Mr Evan Lloyd Abermarchnad

6. Dewis overseers. Enwyd Mri John Gittins Eunant a Thomas Davies Garris i fod yn overseers am y flwyddyn.

Arwyddwyd Watkin Owen, dros y Cadeirydd.

Arwyddwyd W Griffith 24/7/1900

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Ebrill 20 1900

Yn bresenol, Mri J T Williams, John Gittins, David Davies a Watkin Owen.

1. Dewis cadeirydd. Cynigwyd gan John Gittins fod Mr J T Williams i fod yn cadeirydd y flwyddyn nesaf, chefnogwyd gan W Owen. Paswyd.
2. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Pont Henryd. Paswyd i anfon at y District Council i gael gwybod sut y mae pethau yn sefyll ynghlyn a Pont Henryd.
4. Darlith Amaethyddol. Darlith amaethyddol gan y County Council. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan D Davies ein bod yn gofyn am darlith ar Magu Anifeiliaid ar gwahanol rhiwogaethau o anifeiliaid. Paswyd.
5. Bag i'r clerk. Bag at gario llyfrau y clerk. Gohirwyd.
6. Yr Elor Gerbyd. Paswyd fod T O Griffiths yn cael caniatad i edrych am cover gymwys iddo.
7. Harness yr Elor. Cynigwyd fod Meistri Gittins Eunant a Jones Cownu i fyned i edrych i mewn i gyflwr harness yr elor.

8. Gwaddoliadau. Gorfid gohirio darllen rhestr y gwaddoliadau oherwydd fod y cheque heb ei signio a'r arian heb ei gael o'r bank.
9. Dewis Overseers. Gynigwyd gan y Cadeirydd a chefnogwyd gan D Davies fod John Gittins a Thomas Davies i fod yn overseers am y flwyddyn nesaf. Paswyd.
10. Llwybr at y Post Office. Gynigwyd gan D Davies a chefnogwyd gan John Gittins fod llythyr yn gael ei anfon at R Ll Jones contractor yn gofyn iddo wneyd y llwybr o flaen y tai newyddion yn drefnus cyn gadael y gwaith.
11. Technical Committee a'i clerk. Paswyd ein bod fel parish council yn gofyn am well ymddygiad gan y County Council Technical Committee a'i clerk.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Hydref 16 1900

Yn bresenol: Mri J T Williams (Cadeirydd) David Davies, Watkin Owen, John Jones a Miss Jane Davies.

1. Darllen cofnodion. Darllen a chadarnhau cofnodion y cyfarfod diweddaf. Paswyd.
2. Pont Henryd ac girders yr hen Llan. Gynigwyd gan W Owen a chefnogwyd gan Miss Davies ein bod yn danfon appel at y County Council am bont dros yr Henryd ai bod eisiau gwybod beth sydd wedi dod o girders bont yr hen Lan.
3. Darlithiau amaethyddol. Penderfynwyd fod Evan Williams i fod yn ysgrifenydd i'r darlithau amaethyddol.
4. Eto. Fod gwahoddiad yn gael eu roddi i amaethwyr yr ardal i gydweithio ynghlyn a'r darlithiau er eu gwneud yn llwyddiannus.
5. Harness yr elor. Gynigwyd gan J Jones Cownu fod Harness yr elor gerbyd yn cael ei danfon at y saddler. Paswyd.
6. Deddf newydd y cwn. Buwyd yn ymdrin a'r Deddf newydd y cwn ond ni paswyd dim yn bennodol.
7. Darllenwyd rhestr y gwaddoliaidau. Darllenwyd rhestr o'r gwaddoliaidau yn dangos fel y maen wedi ei rhannu gan y trustees am y flwyddyn diweddaf.

8. Llwybrau Cowny. Buwyd yn ymdrin ar llwybr drosodd i Cwm Cowny a paswyd fod John Jones i edrych i mewn i'w gyflwr.
9. Police Supervision. Gynigwyd gan Miss J Davies a chefnogwyd gan D Davies fod application yn gael ei wneyd am better police supervision.
10. Angyflawnder o ddwfr i blant yr ysgol dyddiol. Paswyd fod y cynghor yn danfon complaint at y school managers am nad oes digonedd o ddwfr i'r plant i'w yfed. Y complaint i'w drosglwyddo gan Miss Davies Hotel.

J T Williams, Cadeirdydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Rhagfyr 18fed 1900

Yn bresenol: Mri J T Williams (Cadeirydd), David Davies, John Gittins, Watkin Owen a Miss Davies.

1. Darllen cofnodion. Darllen a chadarnhau cofnodion y cyfarfod diweddaf. Paswyd.
2. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan David Davies fod gais oddiwrth y Cynghor at y Senate yr University o Bangor am gael y darlithiau wedi eu gyhoeddi mewn llaw lyfr (neu pamphlet) neu newyddiadur Cymreig.
3. Pasiwyd fod y Cynghor yn gymeradwyio draft y gwaddoliadau.

J T Williams, Cadeirydd.

W Griffith, District Auditor 16th August 1901

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Chwefror 8fed 1901

Yn bresenol: Meistriaid J T Williams (Cadeirydd), David Davies, John Jones

1. Charnhau cofnodion. Darllen a charnhau cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Derbyn darlithiau amaethyddol. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan David Davies fod gynigiaid college Bangor ynghlyn a'r darlithiau yn gael eu derbyn.

3. Gwaddoddiad i'r amaethyrwyr. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan David Davies fod Post card yn cael ei anfon i dai y ffermwyr y cymydogaeth yn roddi gwaddoddiad i'r darlithiau a bod rhybudd yn cael ei codi ar y post office.
4. Dyddiad y Parish Meeting am 1901. Paswyd fod y parish meeting yn gael eu gynal ar y 4edd, Fawrth nesaf.
5. Dewis gwraig i oleu a glanhau y room. Paswyd fod Mrs Humphreys yn gael ei dewis i lanhau a goleuo y room ar gyfer y cyfarfodydd.
6. Cwnstabliaid plwyfol. Dewiswyd y rhai canlynol i fod ar rhestr y gwnstabliaid:

   Thomas Gittins, Penisarcwm
   Ellis Ellis, Ty Ucha
   John Williams, Glanryd Lymbwrch
   Evan Lloyd, Abermarchnant
   Benjamin Jones, Bryndu
   Thos Humphreys, Tynewydd

7. Cydymdeimlad a Mrs Jones Glanrhyd. Paswyd fod chydymdeimlad yn gael eu anfon at Mrs Jones Glanrhyd oddiwrth y Council.

J T Williams Cadeirydd

## Cwrdd Plwyfol Llanwddyn

## 1901

Yn bresenol: Meistriaid Watkin Owen, David Rickett, Benjamin Jones, Ellis Rickett, John Evans, David Davies a'r Parch John Williams (Vicar)

1. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan David Davies a phaswyd yn unfrydol fod y Parch John Williams (Vicar) gymeryd y gadair.
2. Y Nomination. Ar ol gael chwarter awr o amser rhoddwyd y nomination papers i'r Cadeirydd. Darllenodd y Cadeirydd ei gynhwysiad a chafwyd fod y rhai canlynol wedi ei ethol:

   David Davies, Bethel Chapel House
   Jane Davies, Lake Vyrnwy Hotel
   John Gittins, Eunant
   Ellis Ellis, Tyucha

John Jones, Maescarneddi
Watkin Owen, Post Office
Joseph Thompson Williams, Dafarn Newydd

3. Cyflestra i holi y cynghor. Wedi yr etholiad roddodd y cadeirydd cyflestra i rhai ofyn cwestynau i'r cynghor newydd. A chafwyd ymofyniadau i cyflwr y llwybrau cyhoeddus. Penderfynodd y cyfarfod fod cwyn yn gael ei rhoi i'r Cynghor plwyfol o achos y llwybrau yn enwedig i Cowny.

Arwyddwyd John Williams

W Griffith 7 Aug 1902

## Datganiad (Declaration) yr aelodau

## Ebrill 18 1901

Yr ydym ni y rhai y mae ein henwau isod, yn datgan ac yn llawnodi, yn mhresenoldeb ein gilydd ein bod yn ymgymeryd ar gwahanol dyledswyddau perthynol i'r Cynghor Plwyfol i'w cyflawni yn gydwybodol a ffyddlon hyd eithaf ein gallu.

David Davies
Jane Davies (wedi ei taflu allan oherwydd absenoldeb Medi 18 02)
John Gittins
Ellis Ellis
John Jones
Watkin Owen
J. Thompson Williams

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Ebrill 18 1901

Yn bresenol: David Davies, Jane Davies, Watkin Owen, John Jones, Joseph Thompson Williams

1. Yr ymrhwymiad. Arwyddwyd y datganiad gan y rhai oedd yn bresenol, a gafwyd fod dwy sedd wag.
2. Dewis Cadeirydd am 1901. Cynigwyd gan John Jones Cownu a chefnogwyd gan David Davies Bethel fod J T Williams i fod yn cadeirydd am dymhor eto. Paswyd yn unfrydol.

3. Charnhau y Cofnodion. Darllenwyd a charnhauwyd cofonodion y cyfarfod diweddaf.
4. Police Supervision. Penderfynwyd fod report y Chief Constable yn foddaus ynghlyn eu gohebiaeth am well Police Supervision. Sef bod Police Penbontfawr i wneyd ymweliadau mwy mynych a Llanwddyn.
5. Dewis Overseers am 1901-1902. Cynigwyd gan y Cadeirydd fod John Jones a Thomas Gittins i fod yn Overseers am y flwyddyn nesaf 1901-1902.
6. Llwybr o flaen Tai Newyddion. Buwyd yn ymdrin ar y llwybr sydd o flaen y tai newyddion a elwir Bryndu Terrace. Gohirwyd.

Extra am lanhau yr ysgoldy ar ol cyfarfodydd cyhoeddus. Paswyd fod 6d yn extra yn gael ei roddi i Mrs Humphreys am lanhau yr ysgol ar ol y darlithiau amaethyddol. Buwyd yn ymdrin ar y mater uchod a penderfynodd y cynghor fod 6d yn digon trwy ei bod yn cael tal da am lanhau ar ol y cynghor.

J T Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Mehefin 4ydd 1901

Yn bresenol: J T Williams (Cadeirydd), David Davies, Watkin Owen, John Jones a Jane Davies

1. Llenwi ddwy sedd wag. Paswyd yn unfrydol fod John Gittins i gymmeryd ei le yn y Cynghor, a ddarfu J Gittins arwyddo y Datganiad, hefyd penderfynwyd fod Ellis Ellis yn cael cyflestra i ddod unwaith eto.
2. Darllen a Charnhau cofnodion y cyfarfod diweddaf. Darllenwyd a charnhauwyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Safle y Post Office. Gyda golwg ar safle y post office y bu gryn ymdrin ond ni wnaethpwyd dim ond penderfynu ysgrifenu at Corporation Lerpwl i ofyn a oeddynt yn gwybod am y safle newydd ac am eu gydweithrediad.
4. Y Telephone. Yn ngwyneb y ffaith fod y Corporation am gael wires y telephone iddynt ei hunain a bod Miss Davies am ryddau o fod yn guarantee, paswyd fod gais yn gael ei roddi ar y Corporation adael i bethau parhau fel y maent.

5. Trwsio Harness yr elorgerbyd. Gynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan John Jones fod David Davies i ofalu am yrru harness y elorgerbyd at y saddler.

J T Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Gorphenaf 8fed 1901

Yn bresenol: J T Williams (Cadeirydd), David Davies, Watkin Owen

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.

2. Post Office a'r Telephone. Derbynwyd atebiad gan Corporation Liverpool i llythyr a anfonwyd ar ol y cynghor diweddaf yn dal perthynas ar Post Office a'r Telephone.

3. Llenwi y Sedd wag. Gohirwyd llenwi y sedd wag. Gwnaed sylw bod i sedd fod yn wag yn beth pwysig i'r Cynghor a paswyd fod hynny yn gael ei roddi ar ddeall i Ellis Ellis er mwyn gael gwybod a oedd yn bwriadu dod i'r Cynghor.

4. Gwaddoliaid. Paswyd fod llythyr yn cael ei anfon at y Vicar i ofyn sut nad oedd y Cynghor wedi gael hyspysiad am rhaniad y gwaddoliadau fel arferol ac i ofyn a oeddynt wedi ei rhannu.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Tachwedd 1 1901

Yn bresenol: J T Williams (Cadeirydd), John Gittins, John Jones, David Davies, Watkin Owen, Ellis Ellis

1. Llenwi y sedd wag. Darfu i Ellis Ellis arwyddo y Declaration ac felly llanwyd y sedd wag.

2. Darllen a Chadarnhawyd cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.

3. Y Post Office. Paswyd fod llythyr yn gael eu anfon at Secretary y General Post Office i Lunden yn dangos mewn geirau gryf fod y Cynghor yn anfoddlawn i atebiad y Post Office trwy law y Corporation ac hefyd fod i'r Cadeirydd cynorthwyo y Clerk.

4. Ymddiriedolwyr i'r Gwaddoliadau. Penodwyd fod i Mr Simon Jones Rhiwargor a Mr Humphrey Lloyd y Gwreiddie fod yn ymdddiriedolwyr ar y rhan non-ecclesiastical o'r gwaddoliadau.

5. Y ffordd i Penybontfawr. Paswyd ein bod yn cydweled a resolution Parish Council Pennant a bod hynny yn gael ei roddi ar ddeall iddynt.

6. Y llidiart ar lwybr Garthbwlch. Paswyd fod llythyr yn gael ei anfon at Miss Davis yn gofyn yn garedig am symyd y rhwystr sydd ar y llwybr i Garthbwlch.

7. Llwybr o flaen y tai newyddion. Gynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan Watkin Owen fod llythyr yn gael ei anfon at Mr Parry swyddog i'r Corporation yn galw sylw at y llwybr o flaen y tai newyddion a fod y clerk yn gael ei awdurdodi i yrru yn mlaen ar atebiad Mr Parry.

8. Llwybr Cownu. Gynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan John Gittins fod gais yn gael eu anfon at Mr Addie am ganiatad i adgyweiro y llwybr o Llanwddyn i Cownu.

9. Gorchwylwyr i edrych ar ol adgyweirad llwybr Cownu. Paswyd fod John Jones a David Davies i edrych ar ol y gwaith o adgyweiro llwybr Cownu os geid ganiatad gan Mr Addie.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Chwefror 7 1902

Yn bresenol: John Gittins, David Davies, John Jones, Watkin Owen

1. Dewis Cadeirydd am y noswaith. Yn absenoldeb y cadeirydd dewiswyd fod i Mr Owen ymgymmeryd ar gadair.

2. Darllen cofnodion. Darllenwyd a phaswyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.

3. Llwybr o flaen tai newydd Glyndu. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan John Jones fod i David Davies fyned i siarad a Miss

Davies i gael gwybod beth mae hi yn fodlon wneyd i'r llwybr o flaen tai newydddion Glyndu.

4. Llwybrau Cownu. Paswyd fod atebiad yn gael ei anfon i Mr Addie yn dangos safle y llwybr cyhoeddus Cownu a bod Mr Owen i gynorthwyo y clerk.
5. Ymddiriedolwyr y gwaddoliadau. Derbynwyd llythyr oddiwrth Mr Humphrey Lloyd yn gwrthod a bod yn ymddiriedolwr i'r gwaddoliadau. Dewiswyd John Lloyd i gymeryd ei le.
6. Y llythyrdy. Gohirwyd mater y Post Office tan y cyfarfod nesaf.
7. Biliau. Paswyd fod bil Mr Bryan am waith argraffu yn gael ei dalu gan y cynghor, a bil y saddler am adgyweirio harness yr elorgerbyd i'w dalu ac arian gwirfoddol a ellid ei gasglu.

Arwyddwyd W Owen Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Mawrth 3ydd 1902

Yn bresenol: David Davies, Ellis Ellis, John Jones

1. Dewis Cadeirydd am y noswaith. Yn absenoldeb y Cadeirydd dewiswyd David Davies i ymgymeryd ar gadair.
2. Darllen cofnodion. Darllenwyd a phaswyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Y Llythyrdy. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod llythyr yn gael ei anfon i'r Post Master General yn gofyn am Post Office Llanwddyn fod mewn le mwy cyfleus.
4. Cwnstabliaid. Enwyd y personau canlynol i fod ar rhestr y cwnstabliaid:

   Thomas Gittins, Penisarcwm
   John Williams, Glanrhyd
   Evan Lloyd, Abermarchnant
   Thos Humphreys, Tynewydd
   David Jones, Glyndu cottage
   Benjamin Jones, Bryndu

Arwyddwyd Mr Thompson Williams, Cadeirydd

## Cwrdd Plwyfol Llanwddyn

## Ebrill 1 1902

Yn bresenol: Mr J T Williams (Cadeirydd y Cynghor), David Davies a John Evans Glandwr.

Darllenwyd papur gan Cadeirydd y cynghor plwyfol yn dangos gwaith y cynghor er eu sefydliad a roddodd araith ar allu yr cynghor o dan y Deddf Cynghorion Plwyfol 1894.

Bu Mr Davies yn siarad gyda golwg ar arafwch y plwyfolion mewn materion cyhoeddus.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Ebrill 21 1902

Yn bresenol: J T Williams, David Davies, Watkin Owen, John Jones

1. Dewis Cadeirydd am y flwyddyn. Paswyd yn unfrydol fod i Mr Williams parhai i fod yn Cadeirydd.
2. Darllen cofnodion. Darllenwyd a charnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Llwybr Cownu. Cynigwyd gan Watkin Owen a chefnogwyd gan David Davies fod llwybr i Cwm Cownu yn gael ei adael i ofal Mr Jones Gownu.
4. Y darlithau amaethyddol. Paswyd i gael cwrs o darlithau amaethyddol gan College Bangor trwy y Cynghor Sirol ar y testynau canlynol:
    - Gosod i lawr dir porfa
    - Llaethyddiaeth
    - Pryfed sydd yn dyfetha crope
    - Creaduriaid
5. Dewis Overseers. Dewiswyd i John Lloyd Gwreiddie a John Williams Garris fod yn gwarchgeidwaid am y flwyddyn ddyfodol.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Medi 18 1902

Yn bresenol: J T Williams, Ellis Ellis, John Jones, David Davies

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Darlithau amaethyddol. Derbynwyd y nosweithau a enwyd gan College Bangor i gynal y darlithau amaethyddol.
3. Darlithau eto. Paswyd fod y clerk i ymofyn am teuluoedd yn foddlawn i letua y darlithydd.
4. Llwybr Cownu. Paswyd i Mr John Jones Cownu gyfarfod Trustees y Methodistiaid i gael penderfynu pha llwybr a dderbynir fel llwybr cyhoeddus i Cwm Cownu.
5. Sedd wag. Datganwyd fod sedd wag ar y Cynghor sef sedd Miss Davies.
6. Paswyd fod i'r clerk ysgrifeni at Mr Jones, Bryn Vyrnwy (Guardian) yn galw ei sylw at cyflwr truenus Catherine Evans, Hendre.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Tachwedd 10 1902

Yn bresenol: J T Williams (Cadeirydd) John Gittins, David Davies a John Jones

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd a phaswyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Llwybr Cownu. Gynigwyd gan John Jones a phaswyd yn unfrydol fod y Cynghor yn derbyn llwybr Cownu fel y mae wedi ei farcio gan Mr Addie (Gorchwylwr Arglwydd Powys) sef yn myned tu ol i Bryndu ac i fynu ffridd Corporation.
3. Llwybr Glanrhyd Lymbwrch. Penderfynwyd fod Mr David Davies yn myned i olwg y llwybr o Garris i Glanrhyd Lymbwrch ai fod yn gwneuthur amcan gyfrif ar draul o godi pont canllaw.
4. Llenwi y sedd wag. Etholwyd Miss Davies i ail gymeryd ei sedd ar y cynghor.

5. Cydymdeimlad. Paswyd fod y Cynghor yn anfon eu gydymdeimlad at deulu Abermarchnant yn eu galar.
6. Dewis Assistant Overseer. Appwyntwyd Evan Williams Abermarchnant yn Asst Overseer am y plwyf y gyflog i'w penderfynu yn y cyfarfod nesaf ai fod i ddyfod i mewn i'r swydd ddiwedd Mawrth nesaf. Hefyd appwyntwyd ef i fod yn Acting Assistant Overseer tan mis Mawrth nesaf am yr hen gyflog sef £13.10.0 y haner blwyddyn.
7. Pont Dol Cownu. Paswyd fod llythyr yn gael ei anfon i Cynghor Plwyfol Llangadfan yn gofyn am ei gydweithrediad i bwyso ar y Cynghor Dosbarth wneyd pont yn ddigon o maint i cerbydau ysgafn dros afon Cownu.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Mawrth 2 1903

Yn bresenol: J T Williams (Cadeirydd), John Gittins, Ellis Ellis, Watkin Owen.

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd a phaswyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Llwybr Cownu. Paswyd fod John Jones Cownu yn gael ei awdurdodi a roddi dyn ar waith i adgyweirio llwybr Cownu.
3. Deddf y Cwn. Paswyd anogaeth ar i aelodau y Gynghor pwyso ar ffermwyr yr ardal i gadw ei cwn i mewn y nos, a bod iddynt roddi ar ddeall iddynt beth yw gallu y Cynghor trwy y Deddfau Mabwysiadol.
4. Cwnstabliaid. Pennodwyd y personau canlynol i fod ar rhestr y Cwnstabliaid:

    - David Evans, Bronafon
    - David Jones, Glyndu
    - Ellis Ricket, Bryndu
    - Thomas Davies, Glyndu
    - Edward Boden, Glyndu
    - David Hughes, Wddyn House

5. Cyflog yr Assistant Overseer. Penderfynwyd fod cyflog yr Assistant Overseer i fod yn £14.0.0 y flwyddyn [hanner flwyddyn, nid blwyddyn] a bod costau yr guarantee i'w talu gan yr assistant Overseer o'r cyflog.
6. Cydymdeimlad. Paswyd fod i Mr Owen yn galw gyda David Davies i trosglwyddo iddo cydymdeimlad y Cynghor ac ef yn ei afiechyd.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

W Griffith 24/9/03

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Ebrill 20 1903

Oherwydd nad oedd gworum yn bresenol gohirwyd.

## Ebrill 24 1903

## Cyfarfod gohiredig o'r uchod

Yn bresenol: J Th Williams, John Gittins, John Jones, Ellis Ellis.

1. Dewis Cadeirydd. Paswyd yn unfrydol fod i Mr Williams barhau yn Cadeirydd.
2. Y sedd wag. Oherwydd afiechyd y person etholedig gohirwyd llenwi y sedd wag.
3. Darllen cofnodion. Darllenwyd a charnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
4. Arolygwyr y Tlodion. Dewiswyd Thomas Humphreys Tynewydd a Robert Thomas Bryncowni i fod yn arolygwyr (Overseers) am y flwyddyn ddyfodol.
5. Pont Dol Cownu. Paswyd fod gais yn gael ei anfon at y Cynghor Dosbarth yn gofyn am bont i gario cerbydau ysgafn a bod Cynghor Plwyfol Llangadfan yn gael gwybodaeth am penderfyniad y Cynghor.
6. Safle arianol y Cynghor. Rododd y clerk a'r Trysorydd darlleniad o'r cyfrifion y flwyddyn diweddaf.
7. Bilau. Paswyd fod bil i Mr Bryan o chwech swllt am waith argraffu yn gael ei dalu gan y Trysorydd.

8. Llythyr o gydymdeimlad. Paswyd fod llythyr o gydymdeimlad yn gael ei anfon at Mrs Davies, priod y diweddar Mr D Davies (aelod o'r Cynghor) yn ei gofid ar ol ei phriod.
9. Sedd wag. Datganwyd fod sedd wag ar y Cynghor ai bod i'w llenwi yn y cyfarfod nesaf.
10. Costau yr Arolygwyr. Buwyd yn ymdrin ar fater yn ancydwelediad rhwng yr Overseers a'r Corporation a condemnwyd y dull y mae y trethi yn gael eu gwastraffu.
11. Llwybr i Bryncownu. Paswyd fod caniattad yn gael ei roddi i John Jones Cownu i roddi dyn i adgyweirio y llwybr sydd yn myned trosodd i Caeaubychain.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Medi 10 1903

Gohiriad. Oherwydd tywydd glwyb, ni chafwyd gworum.

## Medi 15 1903

## Cyfarfod gohiredig o'r uchod

Yn bresenol: Meistriaid J T Williams (Cadeirydd) John Jones a Watkin Owen.

1. Darllen a phasio cofnodion. Darllenwyd a phaswyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Pont canllaw rhwng Garris a Glanrhyd-Lymbwrch. Paswyd fod y clerk yn anfon at Miss Davies Hotel, neu yn eu gweled yn bersonol i ofyn iddi werthi pren i wneyd pont canllaw rhwng Garris a Glanrhyd Lymbwrch, ac hefyd paswyd fod y clerk yn cael ei awdurdodi i roddi dyn ar waith i'w chodi.
3. Y ffordd o Penybontfawr i Llanwddyn. Paswyd fod llythyr yn gael eu anfon at Cynghor y Sir yn gofyn am iddynt gymmeryd y ffordd o Penybontfawr i Llanwddyn dan eu gofal fel "ffordd fawr".
4. Y seddi gwegion. Gynigwyd gan John Jones a phaswyd fod Mr Ellis Rickett yn gael ei ethol i sedd yn diweddar Mr David Davies, hefyd roddwyd ar y

clerk i geisio gael y person etholedig i fod yn bresenol yn y cyfarfod nesaf i arwyddo y Datganiad.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

## Datganiad ar dderbyniad aelodau am haner tymor

Yr ydym ni y rhai y mae henwau isod yn datgan ac yn llawnodi yn eich phresenoldeb chwi (y Cynghor) ein bod yn ymgymmeryd a gwahanol ddyledswyddau perthynol i'r Cynghor Plwyfol hwn i'w cyflawni yn gydwybodol, a ffyddlawn, hyd eithaf ein gallu.

Arwyddwyd Jane Davies, Ellis Rickett

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Rhagfyr 11 1903

Yn bresenol: Mri J T Williams (Cadeirydd), Watkin Owen, Ellis Rickett a Miss Jane Davies.

1. Arwyddo y datganiad. Darfu i Mr Ellis Rickett a Miss Davies Hotel arwyddo y Datganiad ar eu derbyniad yn aelodau o'r Cynghor.
2. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Deddf Addysg 1902 Representative Manager. Cynigwyd gan y Cadeirydd, chefnogwyd gan Miss Davies a phaswyd fod y Parch J M Humphreys Bethel i fod yn Representative Manager ar y Bwrdd Lleol dan Deddf Addysg 1902.
4. Llwybr Cae-fotty. Paswyd fod Mr John Jones i fyned i olwg Llwybr Cae-fotty ac yn gael ei awdurdodi i'w adgyweirio fel y byddo yn gweled angeu.
5. Rhydau yr afonydd wrth Dol-gowny a Tycerrig. Paswyd fod y Clerk i alw sylw y Cynghor Dosbarth at y rhydau yr afonydd yn Dol-gowni ac wrth Tycerrig, pa rai sydd yn rhedeg ar hyd y ffordd ac yn gwneutheur dinystr mawr ar y ffyrdd.

6. Cydymdeimlad a teulu Rhiwargor. Paswyd yn unfrydol fod y Clerk yn anfon llythyr o gydymdeimlad at deulu Rhiwargor yn eu gofid ar ol Mrs Jones.
7. Llwybr Cownu. Paswyd fod i'r Clerk ceisio gwbwlau y cytundeb rhwng Arglwydd Powis a'r Cynghor am Llwybr Cowni.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Mawrth 1 1904

Yn bresenol: Mri J T Williams (Cadeirydd), Watkin Owen, John Gittins, Ellis Rickett, John Jones a Ellis Ellis.

1. Darllen a chadarnhau cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Rhestr Cwnstabliaid. Dewiswyd y rhai canlynol i fod ar rhestr y Cwnstabliaid am y flwyddyn ddyfodol:
   - David Evans, Bronafon
   - Ellis Rickett, Bryndu
   - Thomas Davies, Glyndu Cottages
   - David Hughes, Wddyn House
   - John Williams, Garrisson
   - Thomas Davies, Gauger's House
   - David Rickett, Bethel
3. Ffordd Penybontfawr a Llanwddyn. Paswyd fod cais yn gael eu anfon at y Cynghor Sirol yn gofyn iddynt gymmeryd y ffordd o Penybontfawr i Llanwddyn mewn llaw a'i chynal fel "Main Road". Hefyd paswyd fod Cynghor Plwyfol Pennant yn gael gwybodaeth am y penderfyniad yma a bod y Clerk i ofyn am eu gydweithrediad i ceisio gael gwell ffordd i Penybontfawr.
4. Paswyd fod bil i Mr Bryan argraffydd o 8s/10d yn gael eu dalu gan y Trysorydd.

5. Yr Elor-gerbyd. Paswyd fod y Clerk i ymchwilio gyda Churchwardens ynglyn ar arian a dderbynir am wasanaeth yr Elor-gerbyd pan yn myned allan o'r plwyf gan fod y Cynghor o'r tybiaeth y dylai arian a dderbynir felly gael eu defnyddio at gynal yr Elor-gerbyd.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

## Cyfarfod Plwyfol Llanwddyn

## (Etholiad Cynghor Plwyfol 1904)

## Mawrth 8 1904

Yn bresenol: Rev John Williams (Vicar) a Rev D M Harries, Sardis, Mrs David Rickett, John Jones, Ellis Rickett, Watkin Owen, Robt Humphreys, Sl. Glossop a Miss Jane Davies.

1. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod i Mr Williams y Vicar gymeryd y Cadair.

2. Yr etholiad. Wedi i'r Cadeirydd gael y Nomination Forms ac wedi pumtheg munud wedi i'r Cadeirydd fyned i'r Cadair, rhoddodd y result fel y canlyn:

   Ymgeiswyr
   - Jane Davies, Lake Vyrnwy Hotel
   - Ellis Ellis, Tyucha
   - John Gittins, Eunant
   - John Jones, Maescarneddi
   - Watkin Owens, Vyrnwy Stores
   - Ellis Rickett, Bryndu
   - Joseph Thompson Williams, Dafarn Newydd

   Gan fod nifer yr ymgeiswyr yn gyfateb i'r seddau i'w llenwi, datganwyd yr uchod yn Cynghorwyr Plwyfol am y tair blynedd nesaf.

3. Materion Plwyfol. Ar ol yr etholiad yr oedd y cyfarfod yn agored i ymdrin ar unrhyw fater plwyfol a buwyd yn ymdrin gyda golwg ar y taliadau a wneir am wasanaeth yr elor-gerbyd pan yn myned allan o'r plwyf.

Arwyddwyd John Williams, Cadeirydd y Cyfarfod Plwyfol

W Griffith, District Auditor 19th April 1904

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Datganiad aelodau ar ymgymmeryd ar swydd o Cynghorwyr Plwyfol

## (Declaration of members upon acceptance of office)

## 1904

Yr ydym ni y rhai y mae ein henwau isod yn datgan ac yn llawnodi yn mhresenoldeb ein gilydd ein bod yn ymgymmeryd a gwahanol ddyledswyddau perthynol i'r Cynghor hwn i'w cyflawni yn gydwybodol, a ffyddlawn hyd eithaf ein gallu.

Arwyddwyd: Jane Davies, John Jones, Watkin Owen, Ellis Rickett, Ellis Ellis, J Thompson Williams, John Gittins

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Ebrill 18 1904

Yn bresenol: Mri John Jones, Watkin Owen, Ellis Rickett a Miss Jane Davies

1. Dewis Cadeirydd. Paswyd fod dewis Cadeirydd am y flwyddyn yn gael ei ohirio a dewiswyd Mr Watkin Owen i fod yn Cadeirydd am y noswaith.
2. Darllen cofnodion. Darllenwyd a phaswyd Cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Dewis Overseers. Dewiswyd Mr Evan Williams Tanycaeau a Mr John Davies Bryngwyn i fod yn arolygwyr y tlodion (Overseer) am y flwyddyn ddyfodol.
4. Aelodau absennol. Paswyd fod yr aelodau absennol yn gael gyflesdra i arwyddo y Datganiad yn y cyfarfod nesaf.
5. Gwaddoliadau an-eglwysig. Darllenwyd taflen oddiwrth Mr Williams y Ficar yn dangos pa fodd yn mae arian y Gwaddoliadau an-eglwysig wedi gael ei rhannu.
6. Yr elor-gerbyd. Cafwyd hanes dechread yr elor-gerbyd a manylion ynghylch a'i adeiladu a'r penderfyniadau a wnaed gan y Vestry gyda golwg ar ei gwasanaeth allan o'r plwyf, o cofnodion y Vestry gan y Ficer.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Mehefin 20 1904

Yn bresenol: Mri J T Williams, Watkin Owen, Ellis Ellis, Ellis Ricket a John Jones

1. Arwyddo y Datganiad. Darfu yr aelodau oedd yn absennol yn y cyfarfod diweddaf arwyddo y Datganiad.
2. Dewis Cadeirydd am y flwyddyn. Ar gynigiad John Jones dewiswyd J T Williams yn unfrydol i fod yn Cadeirydd am y flwyddyn dyfodol.
3. Cadarnau cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawd cofnodion y Cyfarfod diweddaf.
4. Ffordd Penybontfawr a Llanwddyn. Gynigwyd gan Watkin Owen a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod llythyr eto yn gael ei anfon at Ysgrifenydd Cyngor Plwyfol Pennant yn gofyn ai nid y ffordd orsaf y rheilffordd a feddylid yn ei llythyr at y Cynghor Sirol yn lle y ffordd i Lanwddyn.
5. Biliau. Paswyd fod bil i Mr W A Pughe (Returning Officer) Llanfyllin o 10/- yn gael ei dalu. Hefyd fod i David Owen gael ei dalu yn ol tri swllt y dydd am adgyweirio y llwybrau.
6. Llwybrau. Pasiodd y Cynghor i adgyweirio y llwybrau sydd ar dir Grwnoer a Caeaubychain.
7. Yr elor-gerbyd. Gohirwyd mater yr elor-gerbyd am nad oedd y Cynghor yn sicr pwy oedd yn gyfrifol.
8. Archeb ar y Overseers. Paswyd i roddi archeb ar y Overseers am y swm £5.0.0 at dreuliau y Cynghor.
9. Sedd wag. Datganwyd fod sedd yn wag a phaswyd i'w llenwi yn y cyfarfod nesaf.

Arwyddwyd J T Williams, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Awst 22 1904

Yn bresenol: Mri J T Williams (Cadeirydd), John Jones, Watkin Owen, Ellis Rickett, John Gittins a Miss Jane Davies

1. Y sedd wag. Etholwyd Mr John Gittins Eunant i lenwi y sedd wag a darfu i Mr Gittins arwyddo y Datganiad.
2. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Final draft scheme. Ar gais awdurdod Addysg y Sir bu y Cynghor yn ymdrin ar Final Draft Scheme y Bwrdd Addysg.
4. Y ffordd o Llanwddyn i Penybontfawr. Paswyd penderfyniad unfrydol i anfon at y Main Roads Committee yn dymuno ar y Cynghor Sirol gymeryd y ffordd o Llanwddyn i Penybontfawr i'w chynnal.
5. Bilau.Paswyd fod £1.11.6 yn gael ei dalu i Mr David Owen am adgyweirio y llwybrau.
6. Plank ar y rhyd sydd wrth Glanyrafon. Paswyd i ofyn i Mr Glossop am blank i'w roddi ar y rhyd sydd wrth Glanyrafon.
7. Yr elor-gerbyd. Bu yr elor-gerbyd o dan sylw, a phaswyd i gael gwybod pwy oedd yn gyfrifol amdani a fod y sawl sydd yn gyfrifol yn derbyn tal pan bydd galw amdani tu allan i'r plwyf.

Arwyddwyd John Gittins Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Tachwedd 8 1904

Yn bresenol: Mri Ellis Ellis, John Jones, Ellis Rickett a John Gittins

1. Dewis Cadeirydd am y noswaith. Yn absenoldeb y Cadeirydd dewiswyd Mr John Gittins i gymeryd ei le am y noswaith.
2. Darllen a chadarnhau cofnodion. Darllenwyd a chadarnwyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Ffordd Penybontfawr a Llanwddyn. Paswyd yn unfrydol fod llythyr yn gael ei anfon at Mr Parry swyddog gyda Corporation Lerpwl yn gofyn am ewyllys da a chymorth y Corporation at gael gwell ffordd o Llanwddyn i Penybontfawr a bod yr Clerk i fyned at y Cadeirydd i ysgrifennu y llythyr.
4. Glanhau yr ystafell. Penodwyd Mrs Boden i lanhau yr ystafell yn ol yr hen delerau.

5. Ffordd Llanfyllin. Paswyd i anfon llythyr at y Cynghor Sirol yn gofyn iddynt wastadau y ffordd o Llanwddyn i Llanfyllin a roddi y steam roller arni.
6. Cyfrifon y Overseers. Darllenodd y Clerk Balance Sheet yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Medi 30 1904, ni wnawd yr un sylw arnynt.
7. Amcan gyfrif yr Overseers. Rhoddodd y Clerk manylion o amcan-treuliau (estimates) yr Overseers am y haner blwyddyn ddyfodol yn ol pa rhai bydd rhaid gwneyd treth o 1s/6d yn y bunt.
8. Yr elor-gerbyd. Gohirwyd mater yr elor-gerbyd gyda penderfyniad fod yr harness yn gael ei henwi ym mhob cofnodion ynghlyn ar elor-gerbyd.
9. Box Llythyrau. Cwm Cowny. Paswyd yn unfrydol fod gais yn gael ei anfon at y Postmaster i Groes-ys-wallt am fox llythyrau i Cwm Cowney.
10. Pont canllaw Glanrhyd Lymbwrch. Penderfynwyd i adgoffa Miss Davies o'r addewid i rhoddi pont canllaw rhwng Glanrhyd Lymbwrch a'r Garris.
11. Plank ar y rhyd wrth Glanyrafon. Paswyd i ofyn i Mr Parry swyddog gyda Corporation Lerpwl am blank ar y rhyd sydd wrth Glanyrafon.

Arwyddwyd. W. Owen Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Mawrth 17 1905

Yn bresenol: Mri Watkin Owen, John Jones a Miss Davies

1. Dewis Cadeirydd y noswaith. Dewiswyd Mr W Owen i gymeryd y Cadair am y noswaith.
2. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnwyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Ffordd Penybontfawr a Llanwddyn. Penderfynwyd yn unfrydol fod y Clerk i ysgrifennu at y Meistradoedd tir ar y ffordd i Hirnant yn gofyn am gynorthwy i gael ffordd i Penybontfawr.
4. Letter Box Cwm Cowney. Paswyd i anfon llythyr at Cynghor Plwyfol Llangadfan i ofyn am ei gydweithrediad i gael box llythyrau i Cwm Cowney.

5. Ffordd Llanfyllin. Paswyd i anfon llythyr at y County Council i ofyn iddynt am rhoddi mwy o sylw i'r ffordd o Llanwddyn i Llanfyllin a roddi y steam roller arni.
6. Biliau. Paswyd i dalu bil i Mr Bryan am printio o bum swllt, ac i Mrs Humphreys dau swllt am lanhau yr ystafell.
7. Cwnstabliaid. Dewiswyd y rhai canlynol i fod ar rhestr y cwnstabliaid:
    - David Evans, Bronafon
    - Ellis Rickett, Bryndu
    - Robert Thomas, Bryncownu
    - David Hughes, Wddyn House
    - John Williams, Garris
    - Thomas Davies, Gaugers House
    - Isaac Jones Morris, Nythyreryr
8. Cyfarfod Plwyfol. Paswyd fod y cyfarfod plwyfol i gael ei gynal Nos Lun Mawrth 27 1905
9. Yr elor-gerbyd a'r harness. Buwyd yn ymdrin gyda mater yr elor-gerbyd a'r harness a gwnaed y sylw eiddo pwy oedd ty elor hefyd.

Arwyddwyd. W Owen, Cadeirydd

W Griffith, District Auditor 21 Jun 1905

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Ebrill 17 1905

Yn bresenol: Mri Watkin Owen, Ellis Ellis, Ellis Rickett a John Gittins

1. Dewis Cadeirydd. Gohirwyd ethol Cadeirydd am y flwyddyn a dewiswyd Mr Owen i fod yn Cadeirydd am y noswaith.
2. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Dewis Manager ar Fwrdd lleol yr ysgol. Dewiswyd y Parch J M Humphreys Bethel i fod yn Manager i gynrychioli y Cynghor Plwyfol ar Fwrdd Lleol Ysgol Llanwddyn.

4. Penodwyd Mr Simon Jones Rhiwargor a Mr Ellis Ellis Tyucha yn Overseers am y flwyddyn nesaf.
5. Yr elor-gerbyd a'r harness. Bu ymdrinaeth eto ar fater yr elor-gerbyd a'r harness.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirdydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Hydref 6ed 1905

Yn bresenol: Mr John Jones, Ellis Rickett, John Gittins a Watkin Owen

1. Dewis Cadeirydd am y noswaith. Dewiswyd Mr W Owen i gymeryd y Gadair am y noswaith.
2. Dewis Cadeirydd am y flwyddyn. Cynigwyd gan Mr John Gittins a chefnogwyd gan Mr John Jones fod Mr Owen i fod yn Cadeirydd am y flwyddyn a phaswyd.
3. Darllen a chadarnhau cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyfarfod diweddaf.
4. Llwybr rhwng Garris a Glanrhyd. Penderfynwyd gofyn i tir-meddianydd Estate Garthbwlch i roddi defnydd at wneyd pont canllaw rhwng Garris a Glanrhyd Lymbwrch.
5. Letter box Cwm Cownu. Paswyd fod gais yn gael ei anfon at Postmaster Croesyswallt am fox llythyrau i Cwm Cownu gan ddweyd fod y trigolion yn para i deimlo ei angen.
6. Ffordd Penybontfawr a Llanwddyn. Paswyd fod gais am atebiad yn gael ei anfon at Sir W. W. Wynn Bt.
7. Yr elor-gerbyd a'r harness. Pasiwyd fod barn cyfreithiwr i newyddiadur yn gael ei ofyn.
8. Glanhau yr ystafell. Penderfynwyd fod Mrs Jones Grwnoer yn glanhau yr ystafell ar yr hen delerau.
9. Llwybr Garris a Glanrhyd Lymbwrch. Paswyd fod y Clerk i roddi dyn i wneuthur pont canllaw Garris a Glanrhyd Lymbwrch os ceir pren gan y Tir-feddianydd.

10. Cyfrifon yr Overseers. Darllenwd cyfrifon yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1905.
11. Plank wrth Glanyrafon.

W Owen

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Tachwedd 17 1905

Yn bresenol: Mri Watkin Owen (Cadeirydd) Ellis Ellis a Ellis Rickett.

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Darllen gohebiaethau. Darllenwyd llythyr oddiwrth Mr J T Williams yn rhoddi rheswm am ei absenoldeb ar y Cynghor sef afiechyd a cylchlythyr oddiwrth y County Education Authority yn gynig Darlithau Amaethyddol.
3. Dewis Trysorydd. Dewiswyd Mr Ellis Rickett i fod yn Trysorydd i'r Cynghor yn olynol i Mr Watkin Owen.
4. Trosglwyddiad lyfr y Trysorydd. Trosglwyddodd Mr Watkin Owen yr arian mewn llaw sef £1.17.11 a llyfr y Trysorydd i Mr Ellis Rickett.
5. Darlithau Amaethyddol. Ar ol peth ymdrin ar y mater, penderfynodd y Cynghor i beidio gymmeryd Darlithau Amaethyddol eleni.
6. Elor-gerbyd a'r Harness. Bu yr elor-gerbyd a'r harness dan sylw y Cynghor eto. Ni wnaed yr un penderfyniad, i barhau yn fater gohiredig.
7. Pont canllaw rhwng Garris a Glanrhyd Lymbwrch. Pasiwyd fod penderfyniad y Cyfarfod diweddaf i gael eu gario allan gyda golwg ar Lwybr Garris a Glanrhyd Lymbwrch trwy fod y Clerk wedi methu gweithredu oherwydd absendoldeb Mr Blakely y tirfeddianydd o Grwnoer.
8. Y Plank wrth Glanyrafon. Nid oedd dim wedi ei wneud gyda y mater yma.

W Owen, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Chwefror 26 1906

Yn bresenol: Mri Watkin Owen (Cadeirydd), John Jones, Ellis Rickett a Miss Jane Davies.

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Darllen gohebiaethau. Nid oedd dim gohebiaeth nad oeddyn yn dyfod dan sylw eto o dan benod neilltuol.
3. Llwybr Garris a Grwnoer. Gohirwyd y mater yma trwy fod y Clerk heb gael defnyddiau cymwys i wneuthur pont canllaw gan Mr Blakeley. Y Clerk i alw gyda Mr Blakeley eto.
4. Y bont wrth Glandwr. Darllenodd y Clerk llythyr oddiwrth y Vicar yn cwyno oddi herwydd y perygyl oedd i blant syrthio oddi ar y bont rhwng Glandwr a Glyndu Cottages. Paswyd fod gais yn gael ei anfon at y perchenog Mr R W Blakeley am ychwaneg o rails ar y canllaw.
5. Cwn Rhyddion. Paswyd yn unfrydol fod llythyr yn gael ei anfon at y Cynghor Sirol yn galw sylw at y nifer o gwn ryddion sydd hyd y wlad ac yn gwneuthur difrod ar y wyn.
6. Dewis Cwnstabliaid. Dewiswyd y rhai canlynol i fod ar rhestr y Cwnstabliaid: David Evans, Robert Thomas, David Hughes, Thomas Davies, Isaac Jones Morris, Simon Carpenter, Samuel Glossop.
7. Y llwybr o Glyndu i Glanyrafon. Paswyd fod y llwybr o Glyndu i Glanyrafon yn gael ei adgyweirio a bod cover newydd yn gael ei roddi arno.
8. Gofalwyr y llwybr. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Jane Davies fod Mri Watkin Owen a Ellis Rickett i ofalu am y gwaith o adgyweirio y llwybr.
9. Yr Elor-gerbyd a’r Harness. Gohirwyd y mater yma.
10. Box llythyrau i Cwm Cowney. Paswyd i adnewyddu y cais am fox llythyrau i Cwm Cowney.
11. Ffordd Cwm Cowney. Paswyd i anfon at y Cynghor Dosbarth i alw ei sylw at y lle cul sydd tucha Penybont ar ffordd Cwm Cowney ac i ofyn am iddynt osod rail rhwng yr afon a’r ffordd.

12. Ffordd i Benybontfawr. Paswyd fod llythyr yn gael ei anfon at y Cynghor Dosbarth i bwyso arnynt i roddi mwy o sylw i ffordd Penybontfawr ac hefyd fod llythyr yn gael ei anfon at cyfarfod Plwyfol Hirnant a Gynghor Plwyfol Pennant yn gofyn am ei gydweithrediad i geisio gael gan y Cynghor Dosbarth i roddi mwy o sylw i'r ffordd yma.

W Owen

W Griffith, District Auditor 26 Sept 1906

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Ebrill 19 1906

Yn bresenol: Mri Watkin Owen (Cadeirydd) a Ellis Rickett. Am nad oedd digon yn bresenol i wneuthur quorum, penderfynwyd gohirio y cyfarfod tan nos Lun nesaf.

## Cyfarfod gohiredig

## Nos Lun, Ebrill 23 1906

Yn bresenol: Mri W Owen, John Jones, Ellis Rickett a John Gittins

1. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod Mr Owen i fod yn Cadeirydd. Gan fod Mr Owen yn ymwrthod gohirwyd dewis Cadeirydd am y tymor a dewiswyd Mr Owen i cymeryd y Gadair am y noswaith.
2. Gohebiaethiau. Cydnabyddaeth oddiwrth y Gynghor Sirol a Llythyrdy Croesyswallt am llythyrau a dderbynwyd oddiwrth y Cynghor.
3. Cyfrifion. Darllenwyd cyfrifion y Cynghor am y flwyddyn 1905-6. Cadwyd 28s/5d mewn llaw.
4. Archeb ar y Arolygwyr. Gynigwyd gan John Gittins fod £5.0.0 yn gael ei ofyn gan yr arolygwyr (Overseers) at dreuliau y Cynghor. Paswyd yn unfrydol.
5. Balance sheet yr Arolygwyr. Darllenwyd Balance Sheet yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Medi 30 1905.
6. Arolygwyr am y flwyddyn (Overseers). Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod i Mri John Gittins Penisarcwm a Evan

Lloyd i fod yn arolygwyr y tlodion (Overseers) am y flwyddyn ddyfodol. Pasiwyd.

7. Amcan-cyfrif (estimates) yr Arolygwyr (Overseers). Rhoddodd y Clerk amcan-cyfrif o dreuliau yr Arolygwyr am yr haner blwyddyn ddyfodol, y dreth yn debyg o fod yn 1s 9d y bunt.

8. Box y Plwyf (Tin shed box). Gynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan John Jones fod Box y Plwyf yn gael ei anfon i'w adgyweirio trwy ei fod wedi datsodro a'r ganad wedi dwad yn rhydd. Paswyd.

9. Arolygwr Cynorthwyol (Assistant Overseer) ac Ysgrifenydd y Cynghor. Yr Arolygwr Cynorthwyol (Assistant Overseer) ac Ysgrifenydd y Cynghor wedi ymddiswyddo, a roddi gais am ychwanegiad yn eu gyflog ar gyfer y godiad yn werth trethol y plwyf a'r cyfrifoldeb ychwanegol oddiwrth hynny a'r ffaith fod gostyngiad wedi ei wneuthur pan yr ymgymmerodd ef a'r swydd. Cyn i'r Cynghor ddechrau trin y mater, darfu i'r Clerk ymneillduo. Ar ei ddychweliad hyspyswyd ef gan y Cadeirydd fod y Cynghor wedi penderynu codi y cyflog i £32.0.0 a'r premium y guarantee i'w talu gan yr Arolygwr Cynorthwyol. Y Cynghor yn cydnabod nad yw y cyflog eto ond o dan cyfartaledd y plwyfi cylchynol a cymmeryd amgylchiadau ffafriol y plwyf hwn i ystyriaeth.

10. Yr elor-gerbyd. Paswyd i adael i'r mater yma i sefyll.

11. Y llwybrau i'w adgyweirio. Nid oedd dim wedi ei wneuthur ynghlyn ac adgyweirio llwybr Glandwr a phont canllaw Garris. Y rheswm nad oedd yn hawdd gael gwedd.

12. Y bont rhwng Glyndu Ct a Glandwr. Gynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan John Jones fod wire yn gael ei roddi efo canllaw y bont rhwng Glyndu Cottages a Glandwr fel ag i rhwystro plant i allu gwympo oddi ar y bont. Paswyd.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Mai 4 1906

Yn bresenol: Mri W Owen a Ellis Ellis

Dim quorum. Am nad oedd digon yn bresenol i wneuthur quorum, darfu i'r ddau aelod ddyfod i'r penderfyniad mai goreu oedd iddynt rhoi sylw i fater ffordd Penybontfawr gan fod eisiau cynrychiolwyr o'r plwyf hwn ar unwaith ar Bwyllgor Unedig o'r plwyfi Hirnant, Pennant a Llanwddyn wneyd gais at Cynghor dosbarth Llanfyllin am welliantau ar y ffordd o Llanwddyn i Penybontfawr.

Dewiswyd Mr D Jones Bryn Vyrnwy a Miss Davies Lake Vyrnwy Hotel i fod yn cynrychiolwyr o'r plwyf hwn.

Y penderfyniad uchod i fod yn agored i'w drafod ac i'w cadarnhau yn y Cyfarfod nesaf o'r Cynghor

W Owen, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Rhagfyr 21 1906

Yn bresenol: Mri Watkin Owen, Ellis Ellis, John Gittins a Ellis Rickett.

1. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod Mr Watkin Owen i fod yn Cadeirydd i diwedd y tymor. Paswyd.
2. Cydymdeimlad. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd yn unfrydol fod y Cynghor yn datgan ei cydymdeimlad a Mr Owen yn ei brofedigaeth a darfu i Mr Owen roddi diolch i'r Cynghor am ei cydymdeimlad. Paswyd. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd eto yn unfrydol fod y Cynghor yn anfon ei cydymdeimlad at ei cyn cadeirydd yn ei cystudd. Paswyd. Yr Ysgrifenydd i drosglwyddo y penderfyniad.
3. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf. Ac hefyd cadarnhawyd gwaith y ddau aelod ar 4ydd Fai diweddaf pan nad oedd quorum yn bresenol, yn dewis cynrychiolwyr o'r plwyf i fyned i Hirnant i Cyfarfod Unedig o'r plwyfi Hirnant, Pennant a Llanwddyn i drafod ffordd o Llanwddyn i Penybontfawr.

4. Ffordd Cownu. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan Ellis Ellis i anfon gais at y cynghor Dosbarth i ofyn iddynt anfon ei Surveyor i edrych y lle cul ar ffordd Cownu rhyw ychydig yn uwch na Penybont, gan y tybia y Cynghor y byddai hynny yn ffafriol tuag at gael y Cynghor Dosbarth i roddi rail rhwng y ffordd a'r afon. Paswyd.

5. Coffadwriaeth Humphreys Owen. Paswyd i adael mater memorial Humphreys Owen i'r Ysgrifenydd gael gwneyd ymchwiliad beth mae y plwyfi cylchynol yn wneuthur.

6. Darllen cyfrifion yr Overseers. Darllenodd y Clerk cyfrifion Goruchwylwyr y Tlodion (Overseers of the Poor) am yr haner blwyddyn yn diweddi Mawrth 31 1906. Ac hefyd am yr haner blwyddyn y diweddu Medi 30ain 1906.

   Yr unig cwestiwn codwyd oedd paham fod cyfrifion y ddwy haner blwyddyn yn dyfod o flaen y Cynghor ar unwaith? I'r hyn yr atebodd yr Ysgrifenydd fod dwy audit wedi bod ers y Cyfarfod diweddaf o'r Cynghor, ac nad oedd y cyfrifon yn gael ei roddi o flaen y Cynghor cyn gael ei pasio gan yr Auditor.

7. Glanhau yr ystafell. Cynigwyd gan John Gittins a phaswyd yn unfrydol fod Mary Morgan yn gael darparu a glanhau yr ystafell i'r Cynghor. Y telerau yr un fath ag o'r blaen sef 2/- am bob cyfarfod.

8. Biliau. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod y biliau canlynol yn gael ei talu os nad oedd y Trysorydd eisoes wedi gwneud hyn. Paswyd yn unfrydol.

| | £ | s | d |
|---|---|---|---|
| Robt Jones (Tanyfoel) | 3 | 4 | 6 |
| Robt A Jones (Llanfyllin) | 2 | 0 | |
| Robt Jones (London Hse, Llanfyllin) | | 1 | 11 |
| John Edward Tyllwyd | 4 | 10 | 0 |
| John Lewis Tinman | 1 | 6 | |
| Am lanhau yr ystafell | | 4 | 0 |
| Am lanhau yr ystafell | | 2 | 0 |
| £ | 8 | 5 | 11 |

   Cyfanswm y biliau yn £.

9. Safle arianol ac archeb ar yr arolygwyr. Yn ngwyneb y ffaith fod y Trysorydd bron a bod heb ddim arian mewn llaw, cynigwyd gan John Gittins a

chefnogwyd gan Ellis Ellis a paswyd fod archeb am £6 yn gael ei rhoddi ar y Arolygwyr.

10. Llwybr Grwnoer a Caeaubychain. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod y Cynghor yn cyflogi dyn i adgyweirio y llwybr sydd yn mynd i fynu ffridd Grwnoer ac yn mlaen heibio Caeaubychain. Paswyd yn unfrydol. Ac hefyd paswyd fod Ellis Rickett i ofalu am y gwaith ac fel Trysorydd yn gael ei awdurdodi i dalu i'r dyn.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Chwefror 25 1907

Yn bresenol: Mri Watkin Owen, John Jones a Ellis Rickett.

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Ffordd Cwm Cownu. Paswyd fod y llythyr yn gael ei anfon eto at y Cynghor Dosbarth i adgoffa iddynt am gais a wnaeth y Cynghor am rail hefo'r afon.
3. Cwnstabliaid. Dewiswyd y rhai canlynol i fod ar rhestr y Cwnstabliaid:

   David Evans, Bronafon
   John Evans, Glanyrafon
   Samuel Glossop, Inspectors House
   Thomas Jones, Tynyddol
   David Hughes, Wddyn House
   Isaac Jones Morris, Nythyreryr
   Robert Thomas, Bryncownu

4. Darllenwyd rhestr o rhaniad gan y Vicar o'r arian Gwaddol An-eglwysig (non-ecclesiastic charities). Ni wnawd yr un sylw.
5. Biliau. Gadarnhawyd y taliad o 24/- i David Owen am adgyweirio llwybr Caeaubychain.

Arwyddwyd Watkin Owen, Cadeirydd

## Cyfarfod Plwyfol Llanwddyn (Parish Meeting)

## Mawrth 4 1907

## Etholiad Cynghorwyr Plwyfol

Yn bresenol: Parchedigion John Williams a J M Humphreys, Mri Ellis Rickett, Erasmus Roberts a Watkin Owen.

1. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan J M Humphreys a chefnogwyd gan Watkin Owen fod i Mr Williams y Vicar fod yn Cadeirydd y cyfarfod.
2. Derbyn y Nomination papers. Wedi roddi yr amser gofynol i'r plwyfolion roddi y nomination papers i mewn, darllenodd y Cadeirydd rhestr o'r personau a gawsant ei henwi (nominated) fel y canlyn:

   Ellis Ellis, Tyucha
   John Gittins, Eunant
   John Jones, Maescarneddi
   Watkin Owen, Vyrnwy Stores
   Ellis Rickett, Glyndu Cottages
   Evan Williams, Tanycaeau
   John Williams, Garris

3. Datgan yr Etholiad. Gan fod y nifer a gawsant ei henwi (nominated) yr un faint ar nifer oedd i'w ethol, datganodd y Cadeirydd y personau uchod wedi i'w hethol yn Cynghorwyr Plwyfol am y tair blynedd nesaf.
4. Cyfarfod yn agored. Ar ol yr etholiad hyspyswyd fod y cyfarfod yn agored i ymdrin ar unrhyw fater plwyfol.
5. Y llwybr sydd yn croesi wrth drofa yr Eglwys. Galwodd y Vicar sylw y cyfarfod at y ffaith fod wire bigog wedi gael ei godi efo wire y fence ar y llwybr sydd yn croesi o'r ffordd fawr i ffordd yr eglwys wrth y drofa. Ar ol peth ymdrin ar y mater gwneud y sylw ei fod yn droseddiad ar hawl y cyhoedd gan y gellir gael tystion fod y llwybr yn gael ei defnyddio ers deunaw mlynedd. Addawodd Ysgrifenydd y Cynghor Plwyfol roddi y mater o flaen y Cynghor.
6. Y llwybr o Glandwr i Glanyrafon. Gwnaeth y Vicar gais hefyd am ganllaw neu fence ar yr ochr isaf i'r llwybr o Glandwr i Glanyrafon. Y gais i'w trosglwyddo i'r Cynghor Plwyfol.

Arwyddwyd John Williams, Cadeirydd y Cyfarfod Plwyfol.

W Griffith. District Auditor 27 June 1907

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## 1907

## Datganiad yr aelodau ar ymgymeriad ar swydd o Cynghorwyr Plwyfol

## (Declaration of members upon acceptance of office of Parish Councillors)

Yr ydym ni yr rhai y mae ein henwau isod yn datgan ac yn llawnodi yn mhresenoldeb ein gilydd ein bod yn ymgymmeryd a gwahanol ddyledswyddau i'r Cynghor hwn, i'w cyflawni yn cydwybodol a ffyddlon hyd eithaf ein gallu.

John Jones
Watkin Owen
Ellis Rickett
John Gittins
Evan Williams
Ellis Ellis
John Williams

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Ebrill 15 1907

Yn bresenol: Mri John Jones, Watkin Owen, Ellis Rickett, John Gittins a Evan Williams.

1. Darllenodd yr Ysgrifenydd y Datganiad ar ymgymmeriad ar swydd o Cynghorwr Plwyfol ac arwyddwyd ef gan y Cynghorwyr.
2. Dewis Cadeirydd. Gynigwyd gan John Gittins, chefnogwyd gan John Jones a phaswyd yn unfrydol fod i Mr Watkin Owen ymgymeryd ar Gadair am y flwyddyn ddyfodol.
3. Darllen Cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
4. Dewis Arolygwyr y Tlodion (Overseers). Gynigwyd Humphrey Lloyd Brynfedwen gan John Gittins a chefnogwyd ef gan Evan Williams.

Gynigwyd Ellis Gittins Brynadda gan Ellis Rickett a chefnogwyd ef gan John Jones. Paswyd fod Humphrey Lloyd a Ellis Gittins wedi gael ei appwyntio yn Arolygwyr y Tlodion am y flwyddyn ddyfodol.

5. Dewis Rheolwr i'r ysgol. Gynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan John Jones fod i'r Parch J M Humphrey barhau yn gynrychiolydd y Cynghor ar Fwrdd Managers lleol Ysgol Llanwddyn. Paswyd yn unfrydol.
6. Darllen cyfrifion. Darllenodd yr Ysgrifenydd Cyfrifion y Cynghor am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1907. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan John Jones fod y Cynghor yn eu gadarnhau. Paswyd.
7. Y wire wrth drofa yr Eglwys. Ar ol peth ymdrinaeth, paswyd i adael y cwyn oherwydd y wire bigog wrth drofa yr Eglwys.
8. Y llwybr o Glandwr i Glanyrafon. Gynigwyd gan y Cadeirydd a chefnogwyd gan John Gittins fod i'r Ysgrifenydd ymweled a Mr Blakeley perchenog Grwnoer gyda golwg ar y fence wrth bont canllaw Glanyrafon gan ei bod mewn cyflwr peryglus i bobl syrthio oddi ar y llwybr a thrwy y fence i'r afon.
9. Bil. Paswyd fod bil o 10/- i'r Returning Officer yn gael ei dalu.
10. Aelodau absenol heb arwyddo y Datganiad. Gynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan John Gittins fod i'r ddau aelod nad ydynt yn bresenol heno yn gael un gyflesdra arall i ddyfod i arwyddo y Datganiad.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd

## Cynghor Plwfol Llanwddyn

## Mai 31 1907

Yn bresenol: Mri Watkin Owen (Cadeirydd), Ellis Ellis, John Jones, Evan Williams, Ellis Rickett a John Williams.

Y Cyfarfod yn un neillduol (Special).

Gan fod y Cyfarfod yn un neillduol i ystyried y Safon Trethiad Sirol (County Rate Basis) ni darfu i John Williams a Ellis Ellis arwyddo y Datganiad.

Yn ngwyneb y ffaith fod y plwyf hwn yn gymryd mwy o dreth na yr un plwyf yn y sir a hynny am lai o addaliad a fod plwyfi Pennant a Hirnant yn symud i alw sylw y Cynghor sirol ar ran ei plwyfi hwy yn y mater hwn, credid bod yn bryd i'r

plwyf weithredu ac felly gofynir i'r Cynghor wneud rhyw benderfyniad ar y mater heno.

Gynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod yr Ysgrifenydd i fynd i Hirnant i gyfarfod gynrychiolwyr plwyfi Pennant a Hirnant a bod y Cynghor yn rhoi awrdurdod i weithredu nei yn hytrach gydweithredu a gynrychiolwyr Pennant a Hirnant.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Tachwedd 8 1907

Yn bresenol: Mri W Owen (Cadeirydd), Ellis Ellis, John Jones ac Ellis Rickett.

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf. Hefyd cofnodion Cyfarfod neillduol ar Mai 31 1907.
2. Ffordd Cwm Cownu. Gynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod llythyr yn gael ei anfon at y Cynghor Dosbarth yn gofyn pa symudiad sydd wedi ei wneud ganddynt at roddi rail efo'r ffordd Cwm Cownu a tucha Penybont ac hefyd yn hyspysu fod y Cynghor hwn yn sefyll at ei gais. Paswyd.
3. Small holdings and Allotment Act. Ni wnaid dim penderfyniad gyda yr Small holdings and Allotment Act.
4. Sedd wag. Gynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod John Williams yn gael un gyflesdra yn ragor i arwyddo y Datganiad.
5. Cyfrifon yr Overseers. Darllenwyd Balance Sheet yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1907. Ni wnaed dim sylwadau.
6. Amcan-gyfrif yr Overseers. Darllenwyd amcan-gyfrif (estimates) yr Overseers am yr haner blwyddyn bresenol yn dangos fod y dreth yn 1s/2d yn y bunt.
7. Ffordd Penybontfawr a Llanwddyn. Penderfynwyd yn unfrydol fod llythyr yn gael ei anfon at y Cynghor Sirol yn galw ei sylw eto, a gofyn am iddynt gymeryd trosodd a'i gwneud yn brif ffordd, y ffordd o Llanwddyn i Penybontfawr.

8. Biliau. Gynigwyd gan Ellis Ellis a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod 6/- yn gael ei dynu o fil y printer gan mai forms i'r Overseers a chafwyd am yr 6/-. Paswyd fod 11/6 yn gael ei dalu i'r printer.
9. Llwybrau. Gynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod dyn yn gael ei cyflogi, i lanhau y ffosydd ac i drwsio ychydig ar y llwybrau ar ol i'r dail gwympo. Paswyd yn unfrydol. Cynigwyd gan y Cadeirydd a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod John Jones ac Ellis Rickett i ofalu am y gwaith a bod Ellis Rickett yn gael ei awdurdodi i dalu i'r dyn.
10. Yr Ystafell Blwyfol. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd yn unfrydol fod pleidlais o ddiolchgarwch yn gael ei anfon at y Corporation am ddarparu ystafell i'r gweithwyr a'r plwyfolion.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Rhagfyr 17 1907

## (Cyfarfod Neillduol, Emergy Meeting)

Yn bresenol: Mri Watkin Owen (Cadeirydd) a Ellis Rickett.

Dim Quorum. Nid oedd digon o'r aelodau yn bresenol i wneuthur quorum. Penderfynodd y ddau oedd yn bresenol gan nad oedd amser i alw cyfarfod arall fod well iddynt ddewis Cynrychiolwr i fyned i'r Trallwm dydd Gwener nesaf gyda cynrychiolwyr o Hirnant a Phennant i geisio gan y Cynghor Sirol gymeryd y ffordd o Llanwddyn i Penybontfawr trosodd a'i cynal fel ffordd fawr. Dewiswyd Evan Williams yr Ysgrifenydd i fynd i'r Trallwm i gynrychioli y Cynghor ar cenadwriaeth at y Cynghor Sirol.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Chwefror 4 1908

Yn bresenol: Mri W Owen, Cadeirydd, John Jones a John Williams.

1. Llenwi sedd wag. Arwyddodd John Williams y datganiad a'r ymgymmeriad ar swydd o Cynghorwr Plwyfol. Felly llanwyd y sedd oedd hyd yn hyn ffurfiol wag.

2. Darllen Cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyfarfod diweddaf, hefyd cofnodion cyfarfod neillduol.
3. Cyfrifon yr Overseers. Darllenwyd cyfrifon yr Arolygwyr am yr haner blwyddyn yn diweddu Medi 30 1907. Ni wnaed yr un sylw.
4. [dim cofnod]
5. Deddf Man-ddaliadau. Darllenwyd amryw cylchllythyrau yn dal perthynas a Deddf Man-dyddynod. Gadawyd ar y Bwrdd.
6. Safle y llythyrdy. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan John Williams fod llythyr yn gael ei anfon at y Postfeistr Cyffredinol yn galw ei sylw at safle angyfleus y llythyrdy ac yn gofyn iddo, wrth wneud yr apwyntiad o Postfeistr, roddi ystyraeth i cyflesdra y cyhoedd.
7. Llwybrau Cwm Cowney. Derbynwyd achwyniad oddiwrth Bwyllgor Addysg Lleol am y llwybrau sydd yn arwain o Cwm Cowny i'r ysgol. Paswyd i beidio symud gyda y mater ar hyn o bryd.
8. Llwybrau yr ysgol. Bu y llwybrau sydd yn arwain at yr ysgol o'r ffordd newydd gan ystyraeth y Cynghor. Paswyd i aros i gael gweld os wnei y Corporation ei adgyweirio gan mai hwy sydd wedi gwneud hyd yn hyn.
9. Safle arianol y Cynghor. Gan fod gan y Trysorydd ychydig mewn llaw, penderfynwyd i beidio rhoi archeb ar y Arolygwyr.
10. Dewis rhestr Cwnstabliaid. Dewiswyd y rhai canlynol i fod ar rhestr y Cwnstabliaid.

    Edward Boden, Glyndu
    Samuel Glossop, Inspector House
    David Hughes, Wddyn House
    David Jones, Nantllachar
    Isaac J Morris, Nythyreryr
    Thomas Jones, Tynyddol
    Robert Thomas, Bryncownu

W Owens

Audited 30 Apr 1908 William Griffith, District Auditor

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Ebrill 14 1908

Yn bresenol: Mri W Owen (Cadeirydd), Ellis Ellis, John Gittins a John Jones

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Gohebiaethau. Darllenwyd llythyr oddiwrth y Postfeistr Cyffredinol mewn perthynas i safle y Llythyrdy hefyd cylchllythyr oddiwrth y Cynghor Sirol mewn perthynas i Fan-Ddaliadau.
3. Arolygwyr (Overseer). Cynigwyd gan Mr John Gittins a chefnogwyd gan Ellis Ellis i David Jones Nantllachar a Robert Thomas Bryncownu fod yn Arolygwyr y Tlodion (Overseer) am y flwyddyn ddyfodol.
4. Rhaniad yr arian gwaddol. Darllenwyd datganiad o raniad yr arian gwaddol perthynol i'r plwyf ond ni chafwyd yr un rhestr o'r derbynwyr fel arferol.
5. Safle arianol y Cynghor ac archeb. Gan fod y Cynghor yn ddyledus i'r Trysorydd o 3/6, gynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan John Jones fod archeb am £5 yn gael ei rhoddi ar yr Overseers.
6. Ffordd Cwm Cowni. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan John Gittins fod llythyr yn gael ei anfon at y Cynghor Dosbarth i'w adgoffa o gais y Cynghor am fence hefo'r afon Cowni o'r tucha i Penybont.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Rhagfyr 1 1908

Yn bresenol: Mri Watkin Owen a Ellis Rickett

Dim Quorum. Gan nad oedd quorum yn bresenol gohirwyd y cyfarfod.

## Cyfarfod Gohiredig

## Rhagfyr 10ed 1908

1. Yn bresenol: Mri Watkin Owen, Ellis Rickett, Ellis Ellis a John Jones

2. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyfarfod diweddaf.
3. Darllen gohebiaethau. Darllenwyd llythyrau oddiwrth Pwyllgor Addysg y Sir, J Parry Esq Engineer y L'pool Corporation a'r Cynghor Dosbarth.
    - Gynigiau y Pwyllgor Addysg darlithau amaethyddol. Ni dderbynwyd.
    - J Parry Esq yn cydnabod diolchgarwch y Cynghor i'r Corporation am yr Llyfrgell a'r Ystafell.
    - Cynghor Dosbarth yn cydnabod gais am fence hefo ochr ffordd Cwm Cowni
4. Darllen cyfrifon yr Overseers. Darllenwyd cyfrifion yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1908. Ni wnaed yr un sylw.
5. Darllen amcan-gyfrif yr Overseers (estimates). Darllenwyd amcan-gyfrif yr Overseers am yr haner blwydyn yn diweddu Mawrth 31 1909. Yn cyfan ofynid gan yr awdurdodau oedd £1172.15.0 ar dreth i fod yn 1s/2d yn y bunt.
6. Llwybrau. Gynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod dyn ar gael ei gyflogi i lanhau ffosydd ar y llwybrau.
7. Rails ar lwybr Grwnoer. Gynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Jones fod rails yn gael ei roddi ar ochr isaf i llwybr Grwnoer.
8. Valuation List newydd. Gynigwyd gan Watkin Owen a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod yr Arholygwr Cynorthwyol yn mynd i Llanfyllin i Cyfarfod yr Assessment Committee i gynrychioli y plwyf gyda golwg ar y Valuation List newydd.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Mawrth 4 1909

Yn bresenol: Mri W Owen (Cadeirydd), John Jones a Ellis Rickett.

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.

2. Darllen gohebiaethau. Darllen gohebiaethiau. Oddiwrth Bwrdd Amaethyddol mewn cysylltiad ar rhandiroedd (allotments) o'r hyn nid oes dim yn y plwyf hwn.
3. Rhestr Cwnstabliaid. Dewiswyd y rhai canlynol i fod ar rhestr y Cwnstabliaid plwyfol. Edward Boden, David Hughes, Isaac Jones Morris, Thomas Jones, Robert Thomas, David Evans, Evan Lloyd.
4. Rhaniad yr arian gwaddol. Darllenwyd rhestr o'r personau derbyniasant ran o'r arian gwaddol aneglwysig fel y canlyn: Jane Evans 3/- George Lewis 2/6 Rowland Morgan 2/6 Mary Tucker 2/- Cyfanswm 10/-.
5. Taliadau. Hysbysodd y Trysorydd ei fod wedi talu 18/- am 6 diwrnod o waith ar y llwybrau i David Owen. Gadarnhawyd gwaith y Trysorydd yn talu i D Owen ac hefyd paswyd fod Trysorydd i dalu am yr rails i R A Jones pan fydd wedi gael bil.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd

W Griffith 22 April 1909

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Ebrill 20 1909

Yn bresenol: Mri W Owen (Cadeirydd) a Ellis Rickett. Yn absenoldeb quorum penderfynodd y ddau oedd yn bresenol, ddewis yr Overseers. Penodwyd John Lloyd Gwreiddie a John Jones Maescarneddi.

## Cyfarfod a cynhaliwyd

## Mehefin 22 1909

Yn bresenol: Mri W Owen (Cadeirydd), John Jones, John Gittins a Ellis Rickett.

1. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan John Jones fod Mr Watkin Owen i barhau yn Cadeirydd.
2. Darllen Cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf hefyd y cyfarfod ar Ebrill 20 1909 pryd nad oedd quorum.
3. Cyfrifion yr Overseers. Darllenwyd cyfrifon yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Medi 30 1908. Gwnaed un ymholiad ynghlyn y "Travelling Expenses". Hefyd, darllenwyd cyfrifon yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1909. Ni wnaed yr un sylw.

4. Cyfrifon y Cynghor. Darllenwyd cyfrifion y Cynghor am y flwyddyn diweddaf. Gynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd Ellis Rickett ei bod yn gael ei pasio.
5. Llwybr Glanrhyd. Paswyd fod yr Ysgrifenydd i fynd i olwg y Bont ganllaw rhwng Garris a Glanrhyd ac i ofyn i David Ellis i wneud tipyn o repair arni yn ol yr angen.
6. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan John Jones fod bil 3/- am forms i gael ei dalu.
7. Paswyd fod yr Ysgrifenydd i alw hefo Mr R A Jones Llanfyllin i geisio gael yr rails at llwybr Grwnoer i fyny.
8. Paswyd i anfon gais at y Cynghor Dosbarth am "Danger Signal" ar ffordd Hirnant a min y llyn.

Arwyddwyd W Owen

## Cyfarfod o Cynghor Plwyfol Llanwddyn a gynhalwyd

## Tachwedd 2 1909

Yn bresenol: Mri Watkin Owen (Cadeirydd), Ellis Ellis a Ellis Rickett.

1. Darllen a cadarnhau y cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyfarfod diweddaf.
2. Llwybrau. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod dyn yn gael ei gyflogi i lanhau y ffosydd ac i adgyweirio y llwybrau.
3. Y rails ar llwybr Grwnoer. Yn unol a penderfyniad cyfarfod o'r blaen, paswyd fod y dyn fyddai gyda y llwybrau i roddi y rails ar llwybr Grwnoer, a bod yr Ysgrifenydd i ofyn i John Williams Garris i dyfod ar rails i fyny o Llanfyllin.
4. Pont ganllaw Garris-Glanrhyd. Yn unol ac adroddiad y Ysgrifenydd am cyflwr pont canllaw rhwng Garris a Glanrhyd, penderfynwyd fod dyn yn gael ei roddi i godi y pentan.
5. Box Deeds. Ar gais y Ysgrifenydd penderfynwyd roddi archeb am "Fox Deeds" i gadw llyfrau papyrau fe sydd yn perthyn i'r plwyf, y pris i fod yn agos i bris y box a gafwyd er rhai blynyddau yn ol, yr hwn sydd yn awr yn llawn.

6. Badd Cyhoeddus. Gynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod y cwyn am "Badd Cyhoeddus" yn gael ei drosglwyddo i Corporation Lerpwl.
7. Goleuo y Llan. Gafwyd cwyn oddiwrth y trigolion oddiherwydd y drafferth deimlad i allu fyned oddi amgylch y Llan ar nosweithiau tywyll y gaeaf. Gynigwyd gan Ellis Ellis a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod gais yn gael ei anfon at Corporation Lerpwl am ei telerau am oleuo y ffordd o dalcen y wal at wrych terfyn Grwnoer.
8. Rating Owners. Resolved that owners of cottages under £8 rental be rated to Poor Rate instead of occupiers pursuant to Statute the Poor Rate Assessment and Collection Act 1869 Section 4. Gynigwyd gan Ellis Ellis a chefnogwyd gan Ellis Rickett a paswyd.
9. Mynwent y Crynwyr. Gynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod gais yn gael ei wneud at Mr Blakeley Garthbwlch House am coed at fences Mynwent y Crynwyr Caeau-bychain.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn cyfarfod a gynhalwyd

## Chwefror 1af 1910

Yn bresenol: Mri W Owen (Cadeirydd), Ellis Rickett a John Jones

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Mynwent Caeaubychain. Gynigwyd gan John Jones fod barn gyfreithwr newyddiadur yn gael ei ofyn ac os byddai yr atebiad yn golygu cyfrifoldeb ar y Gynghor fod yr Ysgrifenydd i gael dealltwraeth efo Mr Blakely am y coed a'r Parch John Williams ynghlyn a'r "Tabled", a chefnogwyd gan Ellis Rickett.
3. Goleuo'r Llan. Gynigwyd gan John Jones fod y mater o oleuo'r Llan yn gael ei ohirio tan yr Cyfarfod Plwyfol a chefnogwyd gan Ellis Rickett.
4. Arian gwaddol. Darllenwyd rhestr oddiwrth y Ficer yn roddi enwau y personau a dderbyniasant rhan o'r arian gwaddol aneglwysig a'r swm a dderbyniasant. Ni wnaed yr un sylw.
5. Biliau.

a) Bil i Mr Hubert Watkins Llanfyllin o 8/-. Gynigwyd gan W Owen i ofyn am ragor o eglurhad gan Mr Hubert Watkins a chan Mr John Gittins. Paswyd.
b) Bil i Messrs Shaw & Sons Llundain. Gynigwyd gan John Jones a phaswyd fod y bil o 29/- am y “box deeds” yn gael ei dalu gan y Trysorydd.
c) Gynigwyd gan W Owen a chefnogwyd gan John Jones fod gais yr Ysgrifenydd am Letter Book yn gael ei ganiatau a bod y Trysorydd yn gael ei awdurdodi i dalu amdano sef 4/-.
d) Gynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan W Owen fod y Trysorydd dalu i David Owen am ei waith ar y llwybrau yn ol 3/- y dydd. Yntau wedi gweithio 7 diwrnod = 21/-.

6. Badd Cyhoeddus. Gynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Jones fod y cwestiwn o Badd Cyhoeddus (Public Bath) yn gael ei drosglwyddo i’r Cyfarfod Plwyfol.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd.

## Cyfarfod o’r Cynghor Plwyfol Llanwddyn a gynhalwyd

## Mawrth 1af 1910

Yn bresenol: Mri Watkin Owen (Cadeirydd), Ellis Rickett a John Jones

1. Darllen cofnodion. Gynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Jones fod cofnodion y Cyfarfod diweddaf yn gael ei cadarnhau a phasiwyd.
2. Dewis rhestr y cwnstabliaid. Dewiswyd y personau canlynol i fod ar rhestr y cwnstabliaid:

   David Jones, Bryn Vyrnwy

   David Evans, Glandwr

   David George Lewis, Groom’s cottage

   Robert Thomas, Caeaubychain
3. Darpariad ar gyfer yr Etholiad P.C. Paswyd fod gwaith yr Ysgrifenydd yn geisio forms angenrheidol at yr etholiad yn gael ei gymeradwyo.

4. Badd Cyhoeddus; Goleuo'r Llan. Paswyd fod y materion gohiriedig o Badd Cyhoeddus a Goleuo'r Llan yn gael ei rhoddi gerbron y plwyfolion yn y cyfarfod blynyddol o'r plwyfolion.
5. Archeb ar yr Overseers. Gynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod archeb am £5.0.0 yn gael ei rhoddi ar yr Overseers a phaswyd.
6. Bil. Paswyd fod bil o 2s/3d am forms ar gyfer yr etholiad yn gael ei dalu.
7. Llwybrau. Gynigwyd gan Ellis Rickett, a chefnogwyd gan Watkin Owen, a phaswyd i alw sylw y Corporation at y ffordd o dan Glanyrafon a thrwy Cae Go ac hefyd at y ffordd sydd o tucha Tai Glyndu.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd.

## Cyfarfod Plwyfol (Parish Meeting) Plwyf Llanwddyn a gynhalwyd Nos Sadwrn, Mawrth 12ed 1910

## i ethol Cynghor Plwyfol ac i drin materion plwyfol yn gyffredinol

Yn bresenol: Parch. John Williams a John M. Humphreys, Mri Ellis Rickett, David Jones Bryn Vyrnwy, David Rickett, Edward P Jones School House, Watkin Owen, a John Jones Maescarneddi.

1. Dewis Cadeirydd. Gynigwyd gan y Parch J.M. Humphreys a chefnogwyd gan David Rickett fod i'r Parch John Williams (Vicar) gymeryd y Cadair, a phaswyd.
2. Eglurhad. Rhoddodd y Cadeirydd (Parch John Williams) eglurhad ar gamddealltwraeth ynghlyn ac amseriad y cyfarfod a rhoddwyd boddlonwrydd fod Ysgrifenydd y Cynghor wedi galw y cyfarfod ar y amser priodol.
3. Derbyn y nomination papers. Ar ol i'r Cadeirydd rhoddi yr amser gofynedig i rhoddi Nomination Papers i mewn, yr oedd saith wedi dyfod i law yn cynnwys yr enwau canlynol:
    - Ellis Ellis, Tyucha
    - John Gittins, Eunant
    - David Jones, Nantllachar
    - David Jones, Bryn Vyrnwy
    - John Jones, Maescarneddi
    - Watkin Owen, Vyrnwy Stores

- Ellis Rickett, Glyndu Cottages

Trwy fod nifer y nominations a'r nifer anghenrheidol o cynghorwyr yn gyfateb, datganodd y Cadeirydd y personau sydd a'u henwau uchod yn Cynghorwyr Plwyfol, ac hefyd na byddai yr un etholiad i fod.

Ar ol dewis y Cynghor, buwyd yn ymdrin gyda y materion oedd wedi ei hyspysu i fod i'w trin yn y cyfarfod sef Goleuo'r Llan a Badd Cyhoeddus.

Goleuo'r Llan. Ar ol i Mr Watkin Owen eglurhai y sefyllfa ac i amryw personau ddweud ei meddwl ar y mater, gynigwyd gan Watkin Owen ac ailwyd gan E P Jones, a chefnogwyd gan D Jones Bryn Vyrnwy, fod yr Cynghor yn myned yn mlaen efo'r ddarpariaeth at Oleuo'r Llan, paswyd.

Badd Cyhhoeddus. Ar ol ymdrafodaeth lled helaeth, gynigwyd gan y Parch J M Humphreys a chefnogwyd gan D Jones fod y Cynghor Plwyfol i gymeryd y mater mewn llaw, paswyd yn unfrydol.

Arwyddwyd gan John Williams, Cadeirydd y Cyfarfod Plwyfol.

W Griffiths 5 Jul 1910

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## 1910

## Datganiad yr aelodau ar ymgymmeriad ar swydd o Cynghorwyr Plwyfol

## (Declaration of members upon acceptance of office of Parish Councillors)

Yr ydym ni y rhai y mae ein henwau isod, yn datgan ac yn llawnodi yn mhresenoldeb ein gilydd ein bod yn ymgymmeryd a gwahanol ddyledswyddau i'r Cynghor hwn, i'w cyflawni yn cydwybodol a ffyddlon hyd eithaf ein gallu.

Ellis Ellis
John Jones
John Gittins
Wakin Owen
David Jones
David Jones
Thomas Davies

**Cynghor Plwyfol Llanwddyn**
**Ebrill 19 1910**

Yn bresenol: Mri Ellis Ellis, David Jones Bryn Vyrnwy, John Jones, Watkin Owen a John Gittins.

1. Arwyddo y datganiad. Ar ol i'r Ysgrifenydd darllen y Datganiad, llawnododd yr aelodau ef yn bresenoldeb eu gilydd.
2. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy fod Watkin Owen i barhai yn Cadeirydd. Paswyd yn unfrydol.
3. Dewis Overseers. Gynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy i John Williams fod yn un o'r Overseers. A gynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan Watkin Owen fod Thomas Gittins i fod yn Overseer gyda John Williams am y flwyddyn ddyfodol. Paswyd.
4. Y ffordd wrth Glanyrafon a than Glyndu. Gynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod i'r Ysgrifenydd weithredu ar benderfyniad y Cyfarfod diweddaf ac anfon cwyn at y Corporation am cyflwr y ffordd o'r tu ucha i dai Glyndu ac hefyd y ffordd o dan Glanyrafon. Paswyd.
5. Manager i'r ysgol. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy fod i'r Parch J M Humphreys barhau i fod yn un o'r managers yr ysgol. Paswyd yn unfrydol.
6. Darllenwyd Balance Sheet yr Overseers. Darllenwyd Balance Sheet yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Medi 30 1909. Ni wnaed yr un sylw.
7. Darllen cyfrifion y Cynghor. Darllenwyd cyfrifion y Cynghor am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1910. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan John Jones ei bod yn gael ei pasio a phaswyd.
8. Goleu'r Llan. Gynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy fod y Cynghor yn ymgymeryd a gael goleuni trydanol i'r Llan ar y telerau sydd wedi ei gynig gan y Corporation. Paswyd.
9. Pwyllgor goleuni. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan John Jones fod pwyllgor Goleuni yn gael eu ffurfio, a dewiswyd Watkin Owen, David Jones Bryn Vyrnwy a Ellis Rickett Glyndu i gyfansoddi y Pwyllgor.

10. Badd Cyhoeddus. Cynigwyd gan John Gittins a phaswyd fod y mater o badd cyhoeddus yn gael ei ohirio.

11. Mynwent Caeaubychain. Paswyd i'r Cadeirydd fynd at y Vicar i gael gwybod faint oedd y gwr boneddig o Philadelphia yn myned i cyfranu at mynwent Caeaubychain.

12. Gynigwyd gan John Jones a phaswyd i dalu bil o 10/- i Mr Thos Edward, Returning Officer.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn Cofnodion Cyfarfod a gynhalwyd Hydref 11 1910

Yn bresenol: Mri Watkin Owen (Cadeirydd), David Jones Bryn Vyrnwy, John Jones a Ellis Rickett.

1. Darllen cofnodion. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan John Jones, fod cofnodion y Cyfarfod diweddaf yn gael ei gadarnhau. Paswyd.

2. Darllen gohebiaethau. Darllenodd yr Ysgrifenydd y gohebiaethau ganlynol:

    a. Rhybudd o appel yn erbyn dreth oddiwrth Gorfforaeth Tre Lerpwl
    b. Oddiwrth Pwyllgor Addysg Amaethyddol Cynghor Sirol Trefaldwyn
    c. Oddiwrth y Cynghor Sirol mewn cysylltiad a cadwraeth hen lyfrau perthynol i'r plwyf

3. Darllen cyfrifon yr Overseers. Darllenwyd cyfrifon yr Overseers am yr haner blwyddyn y diweddu Mawrth 31 1910. Ni wnaed yr un sylw.

4. Llwybrau. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan John Jones fod yr Ysgrifenydd i drefnu gyda R A Jones Llanfyllin am rails at llwybr Grwnoer. Paswyd.

5. Llwybrau eto. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan David Jones fod dyn yn gael ei gyflogi i dadgyweirio y llwybrau at y gaeaf.

6. Mynwent Caeaubychain. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan David Jones fod dyn yn gael ei gyflogi i cae Mynwent Caeaubychain i mewn. Paswyd. Awrgrymwyd fod David Ellis Glanrhyd yn ddyn pwrpasol at y gwaith.

7. Goleu'r Llan. Gynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Jones fod y Corporation yn gael ei adgoffa am y gytundeb am oleuni trydanol i'r Llan.
8. Sedd wag. Datganwyd fod sedd Mr David Jones Nantllachar yn wag a phaswyd i roddi gyflesdra iddo ddyfod i'r cyfarfod nesaf eto.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd Tachwedd 15ed 1910

Yn bresenol: Mri W Owen (Cadeirydd), Ellis Rickett, Ellis Ellis a D Jones Bryn Vyrnwy.

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diweddaf. Cynigwyd gan D Jones a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod y cofnodion yn gael ei pasio, a phaswyd.
2. Darllen gohebiaethau. Darllenwyd rhybudd oddiwrth Corporation Lerpwl yn gwrthwynebu yr prisiad trethol i'w eiddo yn Llanwddyn.
3. Amcan gyfrif yr Overseers. Darllenwyd amcan-gyfrif yr Overseers am yr haner blwyddyn sydd yn diweddu Mawrth 31 1911 a dangoswyd y byddai y dreth yn [gair aneglur] yn y bunt.
4. Arwyddo yr agreement y Goleuo. Wedi i'r Ysgrifenydd darllen y gytundeb rhwng y Cynghor a Corporation Lerpwl am y goleuni i'r Llan gynigwyd gan Ellis Ellis a chefnogwyd gan David Jones fod i'r agreement gael ei signio, ond bod yr Ysgrifenydd i'w chadw am ychydig dyddiau er gael gweld a oedd pob peth yn iawn.
5. Gofalwr am y  Goleu. Wedi ymdrafodaeth ar y pwnc o edrych ar ol y lampau, fe cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod Mr Watkin Owen i gymeryd gofal y goleuni tan y Cyfarfod Plwyfol yn mis Mawrth nesaf.
6. Goleuni eto. Paswyd fod yr Ysgrifenydd i anfon llythyr at Engineer y Corporation i ofyn a oedd modd gael rhywbeth at ddiogelu y lampau rhag cerrig ac hefyd i ofyn iddynt roddi y switch yn iawn cyn i'r Cynghor gymeryd pethau trosodd.

7. Llwybrau. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod yr Ysgrifenydd i anfon llythyr at Mr R A Jones Llanfyllin yn gofyn iddo anfon coed yn ol archeb y Cynghor ar unwaith neu byddai yr archeb yn gael ei galw yn ol.
8. Llwybrau eto. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod i'r Ysgrifenydd edrych am ddyn i adgyweirio y llwybrau, gae mynwent Caeaubychain.
9. Sedd wag. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan David Jones fod i David Jones Nantllachar gael ei ail ethol ar y Cynghor gan mai oherwydd afiechyd yr oedd heb bod yn bresenol.
10. Angenrheidau i'r Ysgrifenydd. Chefnogwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod yr Ysgrifenydd yn gael ganiatad i roddi archeb am Ffuriau (Forms) at alw cyfarfodydd y Cynghor.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn Cofnodion cyfarfod a gynhalwyd Ionawr 10 1911

Yn bresenol: Mri Ellis Rickett, David Jones Nantllachar, David Jones Bryn Vyrnwy a Watkin Owen (Cadeirydd)

1. Derbyn aelod newydd. Derbynwyd Mr David Jones Nantllachar yn aelod o'r Cynghor a lawnododd yntau y Datganiad.
2. Darllen cofnodion. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diweddaf. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy fod y cofnodion yn gael ei cadarnhau. Paswyd.
3. Darllen gohebiaethau. Darllenwyd amryw ohebiaethau fel rhai sydd yn ddyfod dan ystyraeth gydai materion priodol megis biliau.
4. Dewis cwnstabliaid. Dewiswyd y personau canlynol i fod ar restr y cwnstabliaid:

   David George Lewis, Groom's Cottage
   Robert Thomas, Bryn Vyrnwy
   Simeon Carpenter, Glanyrafon
   John Morris, Glandwr

5. Llwybrau. Cynigwyd gan D Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan D Jones Nantllachar fod David Ellis yn gael ei dalu yn ol 3/- y dydd am ei waith yn adgyweirio y llwybrau.
6. Biliau. Paswyd i anfon at R A Jones Llanfyllin i ofyn iddo roddi manylion yn ei fil, ac i brotestio yn erbyn y crog-bris maen yn ofyn am y coed.
7. Biliau eto. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan D Jones Bryn Vyrnwy fod haner costau stampio gytundeb y Goleuni yn gael ei dalu gan y Cynghor. Paswyd fod y bil yr hwn sydd yn 8s/9d i'w roddi yn erbyn cyfrif y goleu.
8. Biliau eto. Cynigwyd gan D Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan D Jones Nantllachar bod bil o 8s/6d yn gael ei dalu i'r printer T J Lloyd Llanrhaiadr am ffurfiau i alw cyfarfodydd y Cynghor.
9. Safle arianol y Cynghor. Yn wyneb y ffaith nad oedd gan y Trysorydd ddigon i cyfarfod a costau y Cynghor, cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy fod Precept am £5 yn gael ei rhoddi ar y Overseers.
10. Bil yr Electric. Gynigwyd gan D Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Jones fod yr Trysorydd a'r Ysgrifenydd i dalu bil y goleuni trydanol pan ddeuai i law, hefyd cynigwyd gan Ellis Rickett, chefnogwyd gan D Jones Nantllachar fod archeb yn gael ei roddi ar y Overseer am £1.2.0 o gyfrif y lighting rate. Paswyd.
11. Llawlyfr i'r Ysgrifenydd. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan D Jones Nantllachar fod y Cynghor yn talu am llawlyfr i'r Ysgrifenydd ar Deddf Llywodraeth Leol. Paswyd.
12. Fence wrth pont Glanyrafon. Paswyd fod yr Ysgrifenydd i anfon llythyr at berchenog Grwnoer yn galw sylw at y perygl wrth bont Glanyrafon am fod fence wedi tori wrth dalcen y bont.

W Owen

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn Cofnodion cyfarfod a gynhalwyd Mawrth 28 1911

Yn bresenol: Meistriaid W Owen (Cadeirydd), Ellis Rickett, John Jones a David Jones Nantllachar.

1. Darllen Cofnodion. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diweddaf. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Jones eu bod yn gael ei gadarnhau. Paswyd
2. Darllen Gohebiaethau. Darllenwyd y gohebiaethau canlynol: Rhestr y personau a dderbyniasant rhan o'r arian gwaddol. Rhybudd o Lerpwl yn gwrthwynebu y prisiad trethol a cylchlythyr oddiwrth Bwrdd Llywodraeth Leol.
3. Dathliad Coroniad y Brenin. Bu trafodaeth ar y mater o'r modd mwyaf cymwys i wneyd trefniadau ar gyfer Dathliad Coroniad y Brenin a gynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan D Jones fod pwyllgor yn gael eu ffurfio at wneyd y trefniadau.
4. Pwyllgor y Coroniad. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod i'r Parchedigion John Williams, T Wynne Williams a J M Humphreys i fod yn Bwyllgor i wneyd y trefniadau at Dathliad Coroniad y Brenin gydag awdurdod i ychwanegu at ei rhif.
5. Cyfrifion yr Overseers. Darllenwyd cyfrifion yr Overseers am yr haner blwyddyn y diweddu Medi 30 1910. Gynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan D Jones eu bod yn gael ei derbyn.
6. Bil. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan D Jones fod 2/6 y dydd yn gael ei dalu i E H Thomas am helpu D Ellis hefo mynwent Caeaubychain. Paswyd. Hefyd, gynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod bil o 29/- yn gael ei dalu i R A Jones.
7. Y Goleuni trydanol. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan David Jones fod llythyr yn gael ei anfon at Mr Parry yn gofyn am ail drefnu switch yr goleuni trydanol.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd
Signed by District Auditor 9 Jan 1912

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn
## Cyfnodion cyfarfod a gynhalwyd
## Nos Fawrth, Ebrill 18 1911

Yn bresenol: Mri Watkin Owen, David Jones Bryn Vyrnwy, Ellis Rickett a John Jones.

1. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan D Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Jones fod i Mr Watkin Owen barhau yn Cadeirydd. Paswyd.
2. Darllen Cofnodion. Cynigwyd gan D Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod y cofnodion yn gael ei cadarnhau. Paswyd.
3. Dewis Arolygwyr y Tlodion. Gynigwyd gan E Rickett a chefnogwyd gan D Jones Bryn Vyrnwy fod i Ellis Ellis fod yn un Overseer. Cynigwyd gan Watkin Owen a chefnogwyd gan John Jones fod i Thomas Humphreys fod yn Overseer gyda Ellis Ellis. Paswyd.
4. Talu am yr Ysgoldy. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Jones fod y Cynghor i dalu am yr Ysgoldy i'r Cyfarfod Cyhoeddus y tro cyntaf a'r Pwyllgor y Coroniad i dalu wedyn

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a gynhalwyd

## Nos Wener, Mai 12 1911

Yn bresenol: Mri D Jones Bryn Vyrnwy, Watkin Owen, Ellis Ellis a John Jones

1. Darllen cofnodion. Cynigwyd gan D Jones a chefnogwyd gan Ellis Ellis fod y cofnodion yn gael ei pasio. Pasiwyd.
2. Dathliad Coroniad y Brenin. Ar ol gryn drafodaeth, gynigwyd gan Ellis Ellis a chefnogwyd gan John Jones fod i'r Cynghor dalu £10 tuag at costau ynghlyn a Dathliad Coroniad y Brenin yn y plwyf. Paswyd.
3. Eto. Cynigwyd gan W Owen a chefnogwyd gan D Jones fod John Jones i gynrychioli y Cynghor. Hefyd gynigwyd gan Ellis Ellis a chefnogwyd gan John Jones fod yr Ysgrifenydd i gynrychioli y Cynghor gyda John Jones ar

y Pwyllgor sydd wedi ei benodi i wneud y darpariadau ar gyfer y Dathliad. Paswyd.

4. Eto. Cynigwyd gan W Owen a chefnogwyd gan John Jones fod i'r Pwyllgor gadw cyfrifion a trosglwyddo Mantolen i'r Cynghor.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd

## Cynghor Pwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a gynhalwyd

## Nos Lun, Mehefin 12 1911

Yn bresenol: Watkin Owen Cadeirydd, Ellis Rickett a John Jones

1. Darllen cofnodion. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Jones fod cofnodion y cyfarfod diweddaf yn gael eu cadarnhau. Paswyd.
2. Dathliad y Coroniad. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd fod archeb yn gael ei rhoddi ar yr Overseers am £10.0.0. yn ol penderfyniad y cyfarfod diweddaf.
3. Archeb ar y Overseer. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Jones fod archeb am £5 yn gael ei rhoddi ar y Overseers at dreuliau y Gynghor.
4. Audit Stamp. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod y Trysorydd i dalu am Audit Stamp.
5. Gais am Recreation Ground. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd fod gais yn gael ei anfon at Gorphoraeth Tre Lerpwl am ddarn o dir at adloniant i wasanaeth y plwyfolion.
6. Trochi Defaid. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd i anfon protest yn erbyn dippio defaid ddwywaith yn yr un tymor at Fwrdd Lywodraeth Leol.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a gynhalwyd

## Nos Wener, Hydref 20 1911

Yn bresenol: Mri Watkin Owen Cadeirydd, Ellis Rickett a David Jones Bryn Vyrnwy

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diweddaf a cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd.
2. Darlithiau amaethyddol. Gynigwyd gan D Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod gais yn gael ei wneud am Darlith Amaethyddol i'w chynnal yn yr Institute dan nawdd y Cynghor a caniattiau fod Pwyllgor yr Institute yn ffafriol. Paswyd.
3. Manager i'r Ysgol. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod y Parch J Wynne Williams yn gael ei bennodi ar Fwrdd Llywodraeth Leol yr Ysgol yn lle y Parch JM Humphreys sydd wedi gadael y gymdogaeth.
4. Mynegbost wrth Dafarn Newydd. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan David Jones fod gais yn gael ei anfon at y Cynghor Dosbarth yn geisio ganddynt godi mynegbost wrth Dafarn Newydd. Paswyd.
5. Cyfrifon Pwyllgor y Coroniad. Darllenwyd taflen yn dangos gweithrediadau arianol Pwyllgor y Coroniad. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Watkin Owen fod y Cynghor yn erfyn ar Pwyllgor y Coroniad cyhoeddi taflen o'r cyfrifon, a bod i'r Pwyllgor defnyddio y gweddill at achosion plwyfol teilwng.
6. Goleuni. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod archeb yn gael ei roddi ar y Overseers am fil y Corporation £1.6.0 a 8s.9d sydd wedi ei talu gan yr Ysgrifenydd, hefyd 2/- tuag at lanhau y lampau. Paswyd.

   Glanhau y lampau. Hefyd paswyd fod Rowland Morgan yn gael y gwaith o lanhau y lampau ac i gael 2/- am ei waith. Cynigwyd hyn gan Watkin Owen a chefnogwyd gan David Jones.

Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Ellis Ricket a phaswyd fod sylw y Corporation yn gael ei alw at lacwrydd cables yr electric a bod y pyst goed heb ei paentio.

7. Llwybrau. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd fod dyn yn gael ei roddi i adgyweirio y llwybrau am ddau neu dri diwrnod ar ol i'r dail gwympo. Y Clerk a'r Cadeirydd i wneud y trefniadau.

   Hefyd paswyd fod 2/6 yn gael ei dalu i Watkin Owen am holion i'r dyn fydd yn gweithio ar y llwybrau.

   Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Watkin Owen a phaswyd fod sylw Mr Blakely yn gael ei alw at gyflwr y fence peryglys wrth Glanyrafon.

8. Rhybyddion i'r motors. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan David Jones fod gais yn gael ei anfon at y Cynghor Dosbarth am Motor Signal wrth y Shanty, Ceunant Pistyll ac Abermarchnant.

9. Amcan gyfrifon yr Overseers. Darllenodd y Clerk amcan-gyfrif (estimates) yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1912 a dangoswyd y bydd y dreth yn 2/8 yn y bunt.

   Eto. Goleuni Trydanol. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan David Jones fod Lighting Rate o £3 yn gael ei chodi. Paswyd.

Arwyddwyd W Owen, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Chwefror 20 1912

Yn bresenol: Mri Watkin Owen a Ellis Ellis. Oherwydd nad oedd quorum penderfynwyd gohirio tan y Nos Fawrth dilynol.

## Cyfarfod Gohiriedig Chwefror 27 1912

Yn bresenol: Mri Watkin Owen (Cadeirydd), David Jones, John Jones a Ellis Rickett.

1. Darllen cofnodion. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod i cofnodion y cyfarfod diweddaf gael ei gadarnhau. Paswyd.

2. Darllen gohebiaethau. Darllenwyd taflen oddiwrth y Parch John Williams y Vicar yn dangos pa fodd yr oedd y rhan an-eglwysig o'r arian gwaddol wedi ei rhannu. Ni wneud yr un sylw.

   Eto Alloments. Darllenwyd cylch-lythyr oddiwrth Bwrdd Llywodraeth Leol yn gwneud ymholiadau i weithrediad y Cynghor o dan yr Allotment Act. Y Clerk wedi ateb nad oedd yna ddim allotments o dan y Deddf yn y plwyf ac nad oedd y Cynghor wedi derbyn ceisiadau.

3. Darllen cyfrifion yr Overseers. Darllenodd y Clerk Balance Sheet yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1911 ac hefyd am yr haner blwyddyn yn diweddu Medi 30 1911. Paswyd heb yr un sylw.

4. Goleuni Trydanol

   a) Bil. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan David Jones fod bil am £1.18.0 yn gael ei dalu i Gorfforaeth Dinas Lerpwl am y goleuni trydanol yn unol a'r cytundeb. Paswyd.
   b) Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan John Jones fod gais yn gael ei anfon at y Corporation am iddynt baentio y pyst coed sydd yn dal gwifrau i fyny. Paswyd.
   c) Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan David Jones fod i'r Clerk weled Mr Parry ar ran y Corporation a geisio gael gwell trefniant i oleu a diffodd y goleuni trydanol. Paswyd

5. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan David Jones fod i'r persons sydd ei henwi isod fod ar rhestr y cwnstabliaid a paswyd.

   Robert Evans, Tanyfron
   David Jones, Glanyrafon cottages
   David George Lewis, Groom's cottage
   John Morris, Bronafon

6. Penderfynwyd yn unol a'r cyfarfod diweddaf fod y llwybrau i'w adgyweirio pan y geir dyn a all wneud y gwaith yn foddhaol.

7. Y County Rate Basis. Darllenwyd y County Rate Basis, yr hwn oedd yn cyfateb yn hollol i werth trethol y plwyf. Paswyd yn foddhaol.

Arwyddyd John Jones, Cadeirydd.

Produced at Audit, Nov 25 1912. J Wyndham Crowe, Assistant District Auditor

# Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Ebrill 26 1912

Yn bresenol: Mri D Jones, Ellis Rickett, John Jones a John Gittins.

1. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan D Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod John Jones i fod yn Cadeirydd a paswyd.
2. Cydymdeimlad. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan D Jones fod llythyr o gydymdeimlad yn gael ei anfon at deulu y diweddar Watkin Owen, fod y sylwadau canlynol i'w corphori yn y llythyr. Gwasanaeth W Owen i'r Cynghor. Y boddlonwrydd a roddodd fel cadeirydd. Paswyd.
3. Darllen cofnodion y cyfarfod diweddaf. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diweddaf. Cynigwyd gan D Jones fod y cofnodion yn gael ei cadarnhau a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd.
4. Yr elor-gerbyd. Ar ol ymdrafodaeth lled faith ar gyflwr harness yr elor-gerbyd, cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan D Jones fod pawb fydd yn defnyddio yr elor-gerbyd yn gofalu am harness ei hunain.
5. Dewis Overseers. Cynigwyd Evan Lloyd i fod yn Overseer gan D Jones a chefnogwyd gan John Gittins. Cynigwyd Simon Jones gan D Jones a chefnogwyd gan John Gittins a phaswyd yn unfrydol i benodi y ddau yn Overseers am y flwyddyn ddyfodol.
6. Llenwi sedd wag. Cynigwyd gan D Jones a chefnogwyd gan John Gittins fod Thos Davies, Gauger's House, yn gael ei ethol yn gynghorwr i sedd wag y diweddar W Owen.
7. Darllen cyfrifion y cynghor am y flwyddyn. Darllenwyd cyfrifon y cynghor am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1912 yn dangos £2.16.4 mewn llaw. Paswyd y cyfrifon ac arwyddwyd y llyfr.
8. Gweddill arian yn llaw Pwyllgor y Coroniad. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan D Jones fod y Pwyllgor y Coroniad yn gael ei alw i drefnu beth i wneud ar gweddill arian mewn llaw. Paswyd.
9. Llwybrau. Cynigwyd gan John Gittins a chefnogwyd gan D Jones fod David Ellis yn gael ei gymeryd i adgyweirio y llwybrau a phaswyd.

Arwyddwyd Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn a cynhalwyd

## Medi 23 1912

Yn bresenol: Mri John Jones (Cadeirydd), Ellis Rickett a Thos Davies

1. Derbyn aelod newydd. Derbynwyd Mr Thos Davies yn aelod o'r Cynghor yn lle y diweddar Mr Watkin Owen ac arwyddodd Mr Davies y Datganiad.
2. Darllen cofnodion. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod cofnodion y cyfarfod diweddaf yn gael ei gadarnhau.
3. Cau y Post Office. Gynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan John Jones fod y Cynghor yn foddlawn i'r Post-feistr wneud prawf ar y trefniant o cau y Post Office am haner diwrnod yn yr wythnos, am dri mis, pryd y bydd y Cynghor yn abl i wybod teimlad y plwyfolion ar y mater.
4. Bil. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan Thos Davies fod bil o 16/8 yn gael ei dalu i'r Corporation am yr goleuni trydanol.
5. Llwybrau. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Thos Davies fod gwaith y Trysorydd yn talu cyflog wythnos sef 18/3 i David Ellis yn gael ei gadarnhau. Paswyd.
6. Goleuni trydanol. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Jones fod i Thos Davies gymeryd gofal switch y goleuni trydanol.
7. Eto. Paswyd fod treth y goleuni i fod fel arferol yn 1/8d yn y bunt.

Arwyddwyd John Jones, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Ionawr 28 1913

Yn bresenol: Mri John Jones Cadeirydd, David Jones Bryn Vyrnwy a Thos Davies

1. Darllen cofnodion. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan John Jones fod y cofnodion yn gael ei cadarnhau a phaswyd.
2. Darllen gohebiaethau. Darllenwyd cylch-llythyr oddiwrth Bwyllgor Amaethyddol y Cynghor Sirol mewn cysylltiad ar Darlithiau Amaethyddol. Paswyd yn ddisylw.

3. Ymddiriedolwyr ar y Gwaddol. Cynigwyd gan D Jones a chefnogwyd gan John Jones fod Mr S Jones Rhiwargor i barhau yn Trustee ar y rhan an-eglwysig o'r Gwaddol, a cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan David Jones fod Evan Williams i fod yn gyd-trustee yn lle y diweddar Mr Humphrey Lloyd.

4. Darllen Cyfrifon yr Overseers. Darllenwyd cyfrifon yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1912 a hefyd am yr haner blwyddyn yn diweddu Medi 30 1912.

5. Archeb ar yr Overseers. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Thos Davies fod archeb am £5 yn gael ei rhoddi ar yr Overseers a phaswyd.

6. Y goleuni trydanol. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan David Jones fod bil o £2.0.4 i'r Corporation am trydan yn gael ei dalu. Paswyd.

   Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Thos Davies fod archeb yn gael ei rhoddi ar yr Overseers am £2.12.1. Paswyd.

   Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan John Jones fod Mr Thos Davies yn gael ei awdurdodi i roddi lampau newydd fel y bydd yr angen ynghlyn a'r goleuni trydanol.

7. Rhestr y cwnstabliaid. Penodwyd y personau canlynol i fod ar rhestr y cwnstabliaid am y flwyddyn ddyfodol:

   Robert Evans, Tanyfron
   John Morris, Brynawel
   David Evans, Bronafon
   Ed Boden, Glyndu

8. Yr etholiad plwyfol. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan David Jones fod i'r Clerk wneyd y darpariadau angenrheidol ar gyfer y cyfarfod plwyfol ar Mawrth 17 nesaf.

Arwyddwyd John Jones, Cadeirydd

## Cyfarfod Plwyfol Plwyf Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod plwyfol a cynhalwyd

## Nos Sadwrn Mawrth 15 1913

## yn yr Ysgoldy i ethol Cynghor Plwyfol ac i drin materion plwyfol

Yn bresenol: Mr John Jones (Cadeirydd y Cynghor), Mr Ellis Rickett, Parch J Williams (Vicar), Mr David Jones Bryn Vyrnwy a Evan Williams (Assistant Overseer).

1. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett i'r Parch John Williams fod yn Cadeirydd i'r cyfarfod a paswyd.

Cymerodd Mr Williams y Cadair a derbyniwd y nomination papers ar derfyn yr amser gofynol i dderbyn y papurau darfu iddo ddatgan y personau canlynol wedi ei hethol yn Cynghorwyr

1. Thomas Davies, Lake Cottage
2. John Edwards, Tyllwyd
3. David Jones, Bryn Vyrnwy
4. David Jones, Nantllachar
5. John Jones, Maescarneddi
6. Simeon Jones, Rhiwargor
7. Ellis Rickett, Glyndu

Ni roddwyd dim materion plwyfol yn mlaen.

Arwyddwyd John Williams, Cadeirydd y cyfarfod.

## 1913

## Datganiad yr aelodau ar ymgymeriad o swydd o Cynghorwyr Plwyfol

## Cynghor Plwyf Llanwddyn

## (Declaration of members upon acceptance of office of Parish Councilllors)

## Parish Council of Llanwddyn

Yr ydym ni y rhai y mae ein henwau isod yn datgan ac yn llawnodi yn mhresenoldeb ein gilydd ein bod yn ymgymmeryd a gwahanol ddyledswyddau i'r Cynghor hwn i'w cyflawni yn cydwybodol a ffyddlawn hyd eithaf ein gallu.

John Edwards
David Jones
Simeon Jones
Thomas Davies
David Jones
John Jones
Ellis Rickett

Stamped: Produced at Audit April 30 1913. Walter Robbs. Assistant District Auditor

## Cynghor Plwyf Llanwddyn (Cyfarfod Blynyddol)

## Cofnodion cyfarfod a gynhalwyd

## Nos Fawrth, Ebrill 22 1913

Yn bresenol: Mri David Jones Nantllachar, Thomas Davies, John Edwards, John Jones, David Jones a Simeon Jones

1. Arwyddo y datganiad. Wedi i'r Ysgrifenydd ddarllen y rhybudd, arwyddodd yr aelodau y datganiad yn bresenoldeb ei gilydd.
2. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan David Jones Nantllachar a phaswyd yn unfrydol i Mr John Jones barhau i cymmeryd y gadair.

3. Darllen cofnodion. Cynigwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Simeon Jones a phaswyd fod i'r cofnodion cyfarfod gael ei cadarnhau.
4. Manager ar yr Ysgol. Cynigwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Jones fod i'r Parch Thos Wynne Williams, Sardis, barhau yn Manager lleol i'r Ysgol Llanwddyn, a phaswyd. Yr appwyntiad i sefyll am dair blynedd.
5. Dewis Overseers. Cynigwyd gan D Jones, Bryn Vyrnwy, fod Mr Wm Hamson, yr Hotel, i fod yn Overseer. Cynigwyd gan Simeon Jones fod Mr John Gittins Penisarcwm i fod yn Overseer. Chefnogwyd y ddau gyda'u gilydd gan David Jones Nantllachar a phaswyd.
6. Bil. Cynigwyd gan David Jones Nantllachar a chefnogwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy fod bil o 2/10 am papurau ynglyn ar etholiad yn gael eu dalu.
7. Darllen y Cyfrifon y Cynghor. Darllenwyd cyfrifon y Cynghor am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1913 yn dangos y swm o £6.1.7 yn llaw y trysorydd. Cynigwyd gan Simeon Jones a chefnogwyd gan Thos Davies fod y cyfrifon yn gael ei derbyn. Paswyd.
8. Rhaniad yr arian Gwaddol. Darllenwyd adroddiad o rhaniad yr arian gwaddol an-eglwysig. Ni wnaed yr un sylw.
9. Aelod absenol. Paswyd yn unfrydol i rhoddi gyflesdra i Mr Ellis Rickett i arwyddo y datganiad.

Arwyddwyd John Jones, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Nos Fawrth, Awst 26 1913

Yn bresenol: Mri John Jones (Cadeirydd), David Jones Bryn Vyrnwy, Simeon Jones a Ellis Rickett.

1. Darllen cofnodion. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diweddaf. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy ei bod yn gael ei cymmeradwyio, a phaswyd.

2. Darllen cyfrifion yr Overseers. Darllenwyd cyfrifon yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1913. Cynigwyd ei bod yn gael ei derbyn gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan Simeon Jones a phaswyd.
3. Dewis Arolygwr ar yr Ysgol. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan D Jones Bryn Vyrnwy fod i'r Parch Owen Jones Bethel gymmeryd lle y Parch Thos Wynne Williams (yr hwn sydd wedi ymadael o'r ardal) ar Fwrdd Lleol yr Ysgol. Paswyd.
4. Biliau. Gynigwyd gan Simeon Jones a chefnogwyd gan John Jones fod bil am £2.0.0 i Corporation am oleuni trydanol o dan y cytundeb yn gael ei dalu. Paswyd.

   Bil eto. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Simeon Jones a phaswyd fod bil o 10/- yn gael ei dalu i'r (Returning Officer) Mr Thos Edwards Llanfyllin.
5. Lamp trydanol. Cynigwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Simeon Jones fod lamp newydd i'w rhoi ar gyfer ty Mr Thos Davies a bod y lampau i'w glanhau ddwy waith yn ystod y tymor a bod 2/- i'w dalu am y gwaith o'i glanhau.
6. Archeb ar yr Overseers. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan David Jones fod archeb am £2 yn gael ei rhoi ar yr Overseers o cyfrif treth y goleuni.
7. Y Trysorydd-aeth. Rhoddodd Mr Ellis Rickett ei ymddiswyddiad o fod yn Trysorydd i'r Cynghor. Ar ol ymdrafodaeth ar y mater o gael olynydd, cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy fod diolchgarwch y Cynghor yn gael ei rhoddi i Mr Ellis Rickett am ei waith fel Trysorydd, a bod i'r Ysgrifenydd holi beth yw telerau y bank am fod yn Trysorydd.

Arwyddwyd David Jones, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod a cynhalwyd

## Medi 30ain 1913

Yn bresenol: Mri D Jones, Ellis Rickett a John Edwards

1. Dewis Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Edwards i David Jones gymeryd y Cadair am y noswaith. Paswyd.
2. Darllen cofnodion. Cynigwyd gan Ellis Rickett, a chefnogwyd gan John Edwards, a paswyd fod cofnodion y cyfarfod diweddaf yn gael ei cadarnhau.
3. Darllen Gohebiaethau. Darllenwyd cylch-llythyr oddiwrth y Cynghor Sirol yn gwneud ymholiad am diroedd i'r Coron a Commins yn y plwyf.
4. Dewis Trysorydd. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan John Edwards, a phenderfynwyd fod Manager y London City & Midland Bank Ltd Llanfyllin yn gael ei benodi i fod yn Trysorydd y Cynghor. Hefyd gynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod i'r Cadeirydd a Mr D Jones i arwyddo y cheques.

Arwyddwyd John Jones, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod a cynhalwyd

## Tachwedd 14 1913

Yn bresenol: Mr John Jones (Cadeirydd), David Jones Bryn Vyrnwy a John Edwards.

1. Darllen cofnodion y cyfarfod diweddaf. Cynigwyd gan D Jones a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod cofnodion y cyfarfod diweddaf yn gael ei cadarnhau.
2. Darlithau Amaethyddol. Wedi gael ymdrafodaeth ar y pwnc, penderfynwyd i adael i'r Darlithau Amaethyddol basio eleni.
3. Amcan-cyfrif (estimates).

   a. Treth y tlodion. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan John Edwards fod amcan-cyfrif (estimates) yr Overseers yn gael ei derbyn. Y dreth i fod yn 1s/6d yn y bunt.
   b. Treth Goleuni. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan John Edwards a paswyd fod treth o £4.10.0 yn cael ei chodi at dreuliau y goleuni o dan y Deddf mabwysedig.

4. Llwybrau. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan John Jones a phaswyd fod dyn yn gael ei rhoi i adgyweirio y llwybrau. Yr Ysgrifenydd i ofalu am y gwaith.

Arwyddwyd David Jones, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd Ionawr 13 1914

Yn bresenol: Mri Dd Jones Nantllachar, Dd Jones Bryn Vyrnwy, Thos Davies, Simeon Jones, John Jones ac Ellis Rickett.

1. Dewis cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Simeon Jones fod Mr Dd Jones Nantllachar i gymeryd y cadair yn absenoleb y Cadeirydd, a phaswyd.

2. Gohebiaethau. [dim cofnod]

3. Deddf yr Insurance Cenedlaethol a’r Clerk. Cynigwyd gan Dd Jones Nantllachar gan fod y Deddf yn cyraedd yr Assistant Overseer fod y Cynghor neu Overseers yn talu ei cyfran o dan Deddf Insurance Cenedlaethol. Chefnogwyd gan Simeon Jones a phaswyd.

4. Yr afon yn gorlifio wrth Glanyrafon. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a phaswyd fod i’r Ysgrifenydd weld Mr Parry gyda golwg ar yr afon yn gorlifio wrth Glanyrafon.

5. Biliau. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Simeon Jones a phaswyd fod 6/- yn gael ei dalu i Mrs S Jones am ddarparu yr ystafell.

   Biliau eto, Goleuni. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Jones a phaswyd fod £2.6.0 yn cael eu dalu i’r Corporation am y goleuni trydanol.

Biliau eto, Lampau. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd fod 6/- yn gael ei dalu i'r Corporation am lampau.

Biliau eto, Llwybrau. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Dd Jones Nantllachar a phaswyd fod £1.1.3 yn cael ei dalu i John Jones Rhiwlas am adgyweirio y llwybrau.

6. Rhestr y cwnstabliaid. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod y personau canlynol i fod ar rhestr y Cwnstabliaid:

   David Evans, Bronafon
   Robt Evans, Tanyfron
   Dd Williams, Tycapel
   Thos Evans, Sardis

7. Archeb ar yr Overseers (goleuni). Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Dd Jones Nantllachar fod archeb am £4.0.0 yn cael ei rhoi ar yr Overseers o cyfrif treth y goleuni.

Arwyddwyd David Jones, Cadeirydd

Stamp: District Audit 16 Sept 1914

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a gynhalwyd

## Ebrill 14 1914

## Cyfarfod Blynyddol

Yn bresenol: Mri David Jones Bryn Vyrnwy, John Edwards, Thos Davies, John Jones a Simeon Jones

1. Dewis Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod David Jones Bryn Vyrnwy i cymmeryd y cadair am y noswaith.
2. Eto. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod i John Jones barhau yn Cadeirydd y Cynghor.
3. Darllen Cofnodion. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod y Cofnodion yn gael ei cadarnhau gyda y gwelliant canlynol yn penderfyniad Rhif 4. "Cynigwyd gan John Jones a

chefnogwyd gan David Jones Nantllachar a phaswyd fod Mr Dd Jones Bryn Vyrnwy a'r Ysgrifenydd i weld Mr Parry gyda golwg ar yr afon yn gorlifio wrth Glanyrafon".

4. Cyfrifion yr Overseers. Darllenwyd cyfrifion yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Medi 30 1913. Ni wnaed yr un sylw penodol.
5. Cyfrifion y Cynghor. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod cyfrifion y Cynghor am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1914 yn cael ei derbyn.
6. Dewis Overseers. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Thos Davies fod Ellis Gittins Brynadda i fod yn un Overseer. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Dd Jones fod John Lloyd Gwreiddie i fod yn Overseer gyda yr uchod. Paswyd y ddau.
7. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan J Jones a phaswyd fod y Clerk yn ysgrifenu at Mr Parry yn ei adgoffa am sefyllfa yr afon wrth Glanyrafon.
8. Ffordd Caeaubychain. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Simeon Jones a phaswyd fod gais yn gael ei anfon at y District Council am iddynt cymeryd trosodd y ffordd o Penybont i Caeau bychain.
9. Llyfrau ac angenrheidau i'r Clerk. Cynigwyd gan J Jones a chefnogwyd gan Simeon Jones fod y Clerk yn cymmeryd y Llyfrau angenrheidol. Paswyd.

Arwyddwyd David Jones Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod Arbennig a cynhalwyd

## Awst 21 1914

Yn bresenol: Dd Jones Bryn Vyrnwy, Thos Davies, Simeon Jones, John Edward, Dd Jones Nantllachar a John Jones. Cynigwyd gan Simeon Jones fod Dd Jones Nantllachar i cymeryd y cadair yn absenoldeb y Cadeirydd.

1. Darllen Cofnodion. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Thos Davies fod y cofnodion yn gael ei cadarnhau. Paswyd.

2. Gohebiaethau. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy fod gohebiaethau a materion eraill yn gael ei gohirio tan y cyfarfod nesaf. Y cyfarfod yma i drin y cais am gydweithredd at Drysorfa Cynorthwyol Trefaldwyn.
3. Cynigwyd gan Dd Jones Nantllachar a chefnogwyd gan John Edwards fod Pwyllgor yn gael ei ffurfio, i cario y gwaith o casglu at Cronfa neu Drysorfa Cynorthwyol Sir Drefaldwyn.
4. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Jones a phaswyd fod y personau canlynol i cyfansoddi y Pwyllgor:
   i. Mrs Thompson
   ii. Mr D Jones Bryn Vyrnwy
   iii. Mr John Jones Maescarneddi
   iv. Mr Dd Jones Nantllachar
   v. Mrs Blakeley
   vi. Mrs Jones Cedig
   vii. Mr John Lloyd Gwreiddie
   viii. Mr Evan Williams Brynfedwen
   ix. Miss M Williams Vicarage
   x. Simeon Jones Rhiwargor

Arwyddwyd David Jones, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod a cynhalwyd

## Nos Fawrth, Hydref 13 1914

Yn bresenol: Mri Dd Jones Bryn Vyrnwy, Thos Davies a Simeon Jones

1. Dewis Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Simeon Jones fod i Dd Jones cymmeryd y cadair am y noswaith.
2. Darllen cofnodion. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Simeon Jones fod cofnodion y cyfarfod diweddaf yn gael ei cadarnhau. Paswyd.
3. Darllen gohebiaethau. Cynigwyd gan Simeon Jones a chefnogwyd gan Thos Davies fod cais yn gael ei anfon at Fwrdd Amaethyddaeth am Tafleni Arbenig a cyhoeddir ganddynt. Paswyd.

4. Harness yr elor-gerbyd. Darllenwyd cais oddiwrth Vestry y Pasg yn gofyn i'r Cynghor adgyweirio harness y elor-gerbyd. Gadawyd y mater.
5. Darllen Balance Sheet yr Overseers. Darllenwyd Balance Sheet yr Overseers am y haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1914. Derbynwyd yr cyfryw heb yr un sylw arbenig.
6. Amcan-gyfrif yr Overseers am yr haner blwyddyn nesaf. Darllenwyd amcan-gyfrif yr Overseers yn dangos fod eisau £1,894.13.1 o dreth at dreuliau yr awdurdodau lleol am y haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1915. Yr Overseers yn bwriadu codi treth o 1/8 yn y bunt ei gael £1,893.13.1, y gweddill yw wneud i fynu o'r arian sydd mewn llaw. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Simeon Jones a phaswyd fod yr amcan-gyfrif yn cael ei dderbyn yn foddhaol gan y cynghor.
7. Treth y goleuni. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Simeon Jones fod treth o 1/8d yn gael ei chodi at treuliau o dan y Lighting and Watching Act 1862.
8. Dim cofnod.
9. Amser goleu. Cynigwyd gan Simeon Jones a chefnogwyd gan Dd Jones a paswyd fod yr amser i oleuo yn gael ei adael i Thos Davies a bod yr amser fel ag y mae yn goleuo rwan yn foddhaol.
10. Glanhau y lampau. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Simeon Jones fod 10/- yn y flwyddyn yn gael ei dalu am lanhau y lampau. Paswyd.
11. Lampau newydd. Cynigwyd gan Simeon Jones a chefnogwyd gan Dd Jones fod lampau newydd yn gael ei rhoi yn lle y rhai sydd wedi darfod ac hefyd fod Thos Davies yn gael ei awdurdodi i roddi lampau newydd pan fydd hynny yn angenrheidol.
12. Biliau. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Simeon Jones a phaswyd y biliau canlynol:
    - Bil o £2.0.4 i'r Corporation o dan cytundeb ac sydd eisoes wedi ei dalu gan y Clerk yn cael ei cadarnhau.
    - Bil o 10/- am lyfrau anghenrheidol i'r Clerk
    - Bil o 6/- i Mrs Jones am ddarparu yr ystafell

Arwyddwyd John Jones, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod Arbenig a cynhalwyd

## Tachwedd 19eg 1914

Yn bresenol: Mri Dd Jones Nantllachar, Ellis Rickett, Dd Jones Bryn Vyrnwy, Thos Davies yngyda Mr Ellis E Gittins, Eunant.

1. Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan Dd Jones Nantllachar fod i Mr Dd Jones Bryn Vyrnwy cymeryd y cadair am y noswaith. Chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd.

2. Y mater. Galwodd y Cadeirydd ar Mr Gittins Eunant i roddi y mater arbenig gerbron y Cynghor sef pa fesurau i'w mabwysiadu ynghwyneb yr angen am ddynion i ymuno a'r fyddin yn yr argyfwng presenol, i gael gwybod faint o ddynion sydd o fewn oed ac yn gymwys i'r fyddin yn y plwyf, a faint o ddynion sydd yn barod i ymrestru yn wirfoddol.

3. Pwyllgor Recrwtiol. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Dd Jones Nantllachar fod y Cynghor yn ffurfio yn Bwyllgor Recrwtiol gyda Mr Gittins Eunant, Cynghorydd Sirol.

4. Dosbarthu y Plwyf. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Thos Davies fod y plwyf i gyd yn gael ei canvasio, ac yn gael ei dosbarthu yn 4 dosbarth at y pwrpas a dau canvaswr i fyned o amgylch bob dosbarth. Paswyd yn unfrydol.

5. Y canvaswyr ar dosbarthiad. Cynigwyd gan Dd Jones Nantllachar a chefnogwyd gan Ellis Rickett y personau canlynol i canvasio, yngyda y dosbarthiadau y disgwylir iddynt cymmeryd:

   i) Garthbwlch a Cowny – Mr John Jones Maescarneddi a Mr Dd Jones Bryn Vyrnwy
   ii) Llan a Dwyffrwd – Mr Thos Davies a Mr Ellis Rickett
   iii) Marchnant – Mr Dd Jones Nantllachar a Evan Williams
   iv) Rhiwargor – Mr E E Gittins Eunant

Goleuni cyweirio y lampau. Cynigwyd gan Dd Jones Nantllachar fod electrician yn gael ei rhoi i adgyweirio y lampau pan y daw i fynu. Chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd.

Arwyddwyd John Jones, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Chwefror 23 1915

Yn bresenol: Mri John Edwards, David Jones Bryn Vyrnwy, Thos Davies, John Jones Cadeirydd a Simeon Jones.

1. Darllen cofnodion. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod cofnodion y cyfarfod diweddaf yn gael ei cadarnhau.

2. Darllen cofnodion cyfarfod arbennig. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Simeon Jones a phaswyd fod cofnodion y cyfarfod arbenig yn ei cadarnhau.

3. Rhestr Cwnstabliaid. Gynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Thos Davies i'r personau canlynol fod ar rhestr y cwnstabliaid:

   Joseph Carsley, Llechweddu
   Thomas Evans, Sardis
   John Hill, Lake Vyrnwy Hotel
   Thomas Owen, Vyrnwy Stores

   A phaswyd yn unfrydol.

4. Biliau. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Simeon Jones a phaswyd fod bil am 25/- am trydan yn gael ei dalu i'r Corporation Lerpwl.

   Biliau eto. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod bil o 4/- yn gael ei dalu i Mrs S Jones am ddarparu yr ystafell.

5. Llwybr bont Garris. Gynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan John Jones a phaswyd fod cais yn gael ei anfon at Mr Blakeley am osod canllaw hefo'r pentan pont y Garris, am fod y lle yn beryglys i personau gwympo i'r afon.

   Llwybr hotel i ffordd min llyn. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod i'r Clerk alw gyda Mr Hampson i alw ei sylw at cyflwr y llwybr o'r hotel i lawr at ffordd min y llyn.

   Arwyddwyd David Jones, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod a cynhalwyd

## Nos Fercher, Ebrill 21 1915

Daeth dim ond dau ynghyd sef Mri Thos Davies a David Jones Bryn Vyrnwy

## Cyfarfod gohiredig Nos Fawrth Ebrill 27 1915

Yn bresenol: Mri Dd Jones, Thos Davies, Simeon Jones a John Edwards

1. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan Simeon Jones a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod i Mr Dd Jones cymeryd y cadair am y noswaith.
2. Eto, am y flwyddyn. Gynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Simeon Jones a phaswyd fod i Mr Dd Jones Nantllachar fod yn Cadeirydd am y flwyddyn nesaf.
3. Cadarnhau cofnodion. Cynigwyd gan Simeon Jones a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod cofnodion y cyfarfod diweddaf yn gael ei cadarnhau.
4. Dewis Overseers. Cynigwyd gan D Jones a chefnogwyd gan Simeon Jones i John Jones Maescarneddi fod yn un Overseer. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan John Edwards i David Jones Nantllachar i fod yn Overseer gyda John Jones, a phaswyd y ddau.
5. Darllen Cyfrifon yr Overseers. Darllenwyd Balance Sheet yr Overseers am y haner y blwyddyn yn diweddu Medi 29 1914. Ni wnaed yr un sylw.
6. Darllen cyfrifion y Cynghor. Darllenwyd cyfrifion y Cynghor am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1915 yn dangos nad oedd ond 10d yn unig mewn llaw. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan David Jones fod y cyfrifion yn gael ei derbyn.
7. Precept (goleuni). Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Simeon Jones fod y gweddill o £8.9.7 sydd yn llaw yr Overseers o cyfrif treth y goleuni yn gael ei trosglwyddo i cyfrif y Cynghor a bod Precept yn gael ei rhoi am y swm. Paswyd.
8. Eto. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan John Edwards fod Precept am £5 yn gael ei rhoi ar yr Overseers at dreuliau cyffredin y Cynghor. Paswyd.

9. Bil. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod 4/- yn gael ei dalu i Mrs S Jones am ddarparu yr ystafell.

Arwyddwyd David Jones, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Tachwedd 2 1915

Yn bresenol: Mri David Jones Nantllachar Cadeirydd, David Jones Bryn Vyrnwy, Thomas Davies a Simeon Jones

1. Darllen cofnodion. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Thomas Davies a phaswyd fod cofnodion y cyfarfod diweddaf yn gael ei cadarnhau.
2. Amcan-gyfrif. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Simeon Jones a phaswyd fod amcan-cyfrif yr Overseers yn gael ei dderbyn. Y dreth i fod yn 1s/10d yn y bunt.
3. Tafleni (leaflets). Cynigwyd gan Simeon Jones a chefnogwyd gan Dd Jones Nantllachar fod cais am tafleni oddiwrth y Cynghor Sirol yn gael ei wneyd.
4. County Rate Basis. Darllenwyd y County Rate Basis. Ni wnaed yr un sylw.
5. Treth Goleuni. Gynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy fod treth o £4.10.0 yn gael ei chodi o dan y Lighting and Watching Act at dreuliau y goleuni am y flwyddyn ddyfodol. Chefnogwyd gan Thos Davies a paswyd.
6. Biliau. Cynigwyd gan Simeon Jones a chefnogwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy fod bil o £1.2.4 yn gael ei dalu i Corfforaeth Lerpwl. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Simeon Jones fod bil o 2/- i Mrs S Jones a 5/- i'r Ysgrifenydd am Audit Stamp yn gael ei talu. Paswyd.
7. Amser diffodd y goleu. Cynigwyd gan Simeon Jones a chefnogwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy fod y Goleu yn gael ei roi allan am haner awr wedi naw.

Arwyddwyd John Jones, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Chwefror 22 1916

Yn bresenol: Mri Dd Jones Bryn Vyrnwy, Ellis Rickett, Thomas Davies a John Jones

1. Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod i Dd Jones Bryn Vyrnwy fod yn Cadeirydd am y noswaith.
2. Cadarnhau cofnodion. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a paswyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Dewis Cwnstabliaid. Cynigwyd y personau canlynol i fod ar rhestr y cwnstabliaid gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan David Jones, a phaswyd.

   <u>Y Rhestr</u>
   Thos Evans, Sardis
   John Hill, Hotel Stables
   Mr Williams, Grwnoer
   Dd G Lewis

4. Gwestyniau gan War Food Committee. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan John Edwards fod yr Ysgrifenydd i anfon llythyr at y War Food Committee, yn dangos sefyllfa amaethyddol eithriadol y plwyf. Paswyd.
5. Biliau. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Thos Davies fod bil o £1.17.8 yn gael ei dalu i Corporation Lerpwl, paswyd.

   Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan John Jones fod bil o 10/- yn gael ei dalu i Miss Rachel Davies. Paswyd

   Cynigwyd gan Dd Jones fod bil o 12/- am lampau yn gael ei dalu. Chefnogwyd gan John Edwards a paswyd.

6. Cyfrifon yr Overseers. Darllenwyd cyfrifion yr Overseers am y haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1915, hefyd am yr haner blwyddyn yn diweddu Medi 30 1915.
7. Lampau. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd fod lampau y goleuni trydanol yn gael ei tynu i lawr.

8. Llwybr Glanyrafon. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan John Jones a phaswyd i anfon at y Corporation am drwsio y llwybr wrth bont Glanyrafon.
9. Llwybrau. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Thos Davies fod dyn yn gael ei rhoi i clirio y platiau a chodi yr rails ar hyd y llwybrau.

Arwyddwyd David Jones Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod a alwyd ar

## Nos Fawrth, Ebrill 11 1916

Ni daeth ond Mri Thos Davies a Dd Jones Bryn Vyrnwy i'r Ystafell.

## Penderfynwyd galw cyfarfod gohiredig ar

## Nos Fawrth, Ebrill 18 1916

Yn bresenol: Yn y cyfarfod gohiredig: Mri John Jones, Dd Jones Bryn Vyrnwy, Ellis Rickett, Thos Davies, John Edwards a Dd Jones Nantllachar.

1. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy fod Dd Jones Nantllachar i fod yn Cadeirydd. Paswyd.
2. Cadarnhau cofnodion. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Ellis Rickett a paswyd fod y cofnodion yn gael ei chadarnhau.
3. Dewis Overseers. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy fod Mr Thos Gittins Penisarcwm i fod yn un Overseer a chefnogwyd gan Thos Davies. Cynigwyd gan Ellis Rickett fod Mr John Lloyd Gwreiddie i fod yn Overseer gyda Mr Thos Gittins. Chefnogwyd gan John Jones a paswyd y ddau.
4. Darllen Cyfrifion. Darllenodd yr Ysgrifenydd y cyfrifion am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1916 yn dangos mewn llaw ar y

| | |
|---|---|
| Cyfrif Cyffredin | £6. 11. 7. |
| Cyfrif y Goleu | <u>£1. 18. 3.</u> |
| Cyfan mewn llaw | <u>£8. 9. 10.</u> |

Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a phaswyd fod y cyfrifon yn gael ei derbyn.

5. Telerau cytundeb yr Asst Overseer. Ar ol i'r mater gael ei egluro gan yr Ysgrifenydd, ac ymdrafodaeth gan y Cynghor, cynigwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Jones a phaswyd fod y mater yn gael ei adael.
6. Datgan sedd yn wag. Cynigwyd gan Dd Jones Nantllachar fod sedd Mr Simeon Jones yn gael ei datgan yn wag. Chefnogwyd gan John Jones a paswyd.
7. Bil. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod bil o 4/- yn gael ei dalu i Mrs Jones am ddarparu yr ystafell.

Arwyddwyd David Jones, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Nos Fawrth, Awst 22 1916

Yn bresenol: Mri D Jones Bryn Vyrnwy, John Edwards Tyllwyd, Thos Davies Lake Cottage ac Ellis Rickett Glyndu.

1. Dewis Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod Dd Jones Bryn Vyrnwy i cymmeryd y cadair am y noswaith.
2. Darllen cofnodion. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod y cofnodion o'r Cyfarfod diweddaf yn gael ei cadarnhau.
3. Darllen cyfrifion yr Overseers am haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1916. Darllenodd yr Ysgrifenydd Balance Sheet yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 diweddaf. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Edwards fod y Cyfrifion yn gael ei derbyn a paswyd.
4. Llenwi y sedd wag. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod Mr Thos John Jones Rhiwargor yn gael ei ethol yn lle ei frawd ar y Cynghor.
5. Cyflwyniad yr Asst Overseer. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod y mater yn gael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf. Paswyd.

6. Y goleuni trydanol. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod bil o 17/4 yn gael ei dalu i'r Corporation.
7. Bil. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Thos Davies fod bil o 2/- am darparu yr ystafell yn gael ei dalu i Mrs Jones. Paswyd.

Arwyddwyd David Jones, Cadeirydd

## 1916

## Datganiad Aelod ar ymgymeriad o'r swydd o Cynghorwr Plwyfol ar Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Declaration of a member upon acceptance of office of Parish Councillor on Llanwddyn Parish Council

Yr wyf fi yr hwn y mae fy enw isod, yn datgan ac yn llawnodi yn eich presenoldeb chwi, y Cynghor, fy mod i yn ymgymmeryd a gwahanol dyledswyddau, y Cynghor hwn i'w cyflawni yn cydwybodol a ffydlawn hyd eithaf fy nghallu.

Thomas John Jones

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Medi 12 1916

Yn bresenol: Mri D Jones Bryn Vyrnwy, Thos Davies ac Ellis Rickett

1. Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod David Jones Bryn Vyrnwy i cymeryd y Cadair am y cyfarfod. Paswyd.
2. Cofnodion. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod cofnodion y cyfarfod diweddaf yn cael ei cadarnhau.
3. Aelod newydd. Oherwydd absenoldeb Mr Thos J Jones gohirwyd ei dderbyn fel aelod a'r Cynghor.

4. Cyflwyniad yr Asst Overseer. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd, fod yr Assistant Overseer (Evan Williams) yn gael ei dalu fel o'r blaen, ond fod y cyfan i fod yn cynwysedig mewn un swm, dim byd ychwanegol i fod. Y tal i fod yn bedair punt ar hugain £24.0.0 am yr haner blwyddyn terfynu Medi 30 1916, a mater yw adystyried am y dyfodol.

Arwyddwyd David Jones Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod a cynhalwyd

## Ionawr 9ed 1917

Yn bresenol: Mri Ellis Rickett, Dd Jones Bryn Vyrnwy a John Edwards

1. Dewis Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd i Dd Jones Bryn Vyrnwy cymmeryd y Cadair am y noswaith.
2. Darllen cofnodion. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd fod cofnodion y Cyfarfod diweddaf yn gael ei cadarnhau.
3. Rhestr y Cwnstabliaid. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd i'r personau canlynol fod ar restr y Cwnstabliaid:
   - i) David Evans, Bronafon
   - ii) David Jones, Nantllachar
   - iii) William Williams, Grwnoer
   - iv) Evan Lloyd, Bryndu
4. Pytatws Hadyd. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod Mr Evan Lloyd Abermarchnant i dderbyn yr archebau am Hadyd Pytatws o dan cynllun y Pwyllgor Sirol, a cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod Post Card yn gael ei anfon i bob ty yn yr ardal.
5. Y Sedd Wag. Gohirwyd y mater o sedd wag, i'r Ysgrifenydd gael gweld Mr T J Jones Rhiwargor, sef y person sydd wedi ei penodi i'r sedd.

6. Biliau. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod 3/6 yn gael ei dalu i Mr David Ellis Glanrhyd am weithio diwrnod ar y llwybrau, hefyd cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod 2/- yn gael ei dalu i Mrs Jones Bryndu am ddarparu yr ystafell.

Arwyddwyd David Jones Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Mawrth 20 1917

Yn bresenol: David Jones Nantllachar (Cadeirydd), David Jones Bryn Vyrnwy, Thos Davies, John Edwards, John Jones a Thos J. Jones.

1. Cofnodion. Cynigwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Jones fod y Cofnodion yn gael ei derbyn, paswyd.
2. Cyfrifion yr Overseers. Darllenwyd Balance Sheet yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Medi 30 1916. Cynigwyd gan D Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd yn foddhaol.
3. Gwasanaeth Cenedlaethol.
    a. Cynigwyd gan John Jones a phaswyd fod y Cynghor yn ffurfio yn "Bwyllgor Gwasanaeth Cenedlaethol".
    b. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Thos J Jones fod y plwyf yn gael ei rannu yn bedwar dosbarth a phaswyd.
    c. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd i'r personau canlynol fod yn Canvassers, un yn mhob dosbarth:
        i. Dos. Garthbwlch a Cowny = Mr Dd Jones Bryn Vyrnwy
        ii. Marchnant = Mr Dd Jones Nantllachar
        iii. Rhiwargor = Mr Thos J Jones Rhiwargor
        iv. Llan a Dwyffrwd = Mr John Edwards Tyllwyd
4. Cyflog y Asst Overseer. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Jones a phaswyd fod cyflog yr Assistant Overseer i fod yn Deunaw punt a deg swllt (£18.10s/) am yr haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1917.

5. Goleuni. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod archeb am £4.11.0 yn gael ei rhoi ar yr Overseer o dreth y goleuni.
6. Llwybrau. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Thos J Jones a phaswyd fod dyn yn gael ei rhoi am diwrnod ar llwybr Shop Coed a fod y Clerk yn gael ei awdurdodi i dalu 3/6 i'r dyn.
7. Biliau. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan John Edwards fod 2/- yn gael ei dalu i Mrs Jones a 3/6 i'r Ysgrifenydd. Paswyd.

Arwyddwyd David Jones, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Nos Fawrth, Ebrill 17 1917

Yn bresenol: Mr Dd Jones Nantllachar, Ellis Rickett, Thos Davies a Dd Jones Bryn Vyrnwy.

1. Cofnodion. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a phaswyd cofnodion y Cyfarfod diweddaf.
2. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod i David Jones Nantllachar barhau i fod yn Cadeirydd y Cynghor.
3. Dewis Arolygwyr. Cynigwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod Evan Lloyd Abermarchnant a Robert H Evans Tanycaeau i fod yn Overseers am y flwyddyn dyfodol.
4. Cyfran-Ardd (Allotment Garden). Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod yr Ysgrifenydd i weld Mr W B Johnson ynglyn a'r Cyfran-Ardd (Garden Allotment) hefyd Mrs R Morris a Mrs John Evans i ofyn iddynt ofalu fod ei gerddi yn gael eu planu.
5. Gwasanaeth Cenedlaethol. Rhoddwyd adroddiad o'r canvass wnaed o'r plwyf gan yr Ysgrifenydd. Nid oedd neb wedi ymestun o dan cynllun "Gwasanaeth Gendedlaethol".
6. Cyfrifon y Cynghor. Darllenodd yr Ysgrifenydd cyfrifon y Cynghor am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1917, yn dangos fod yna mewn llaw:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ar y cyfrif cyffredin | £5 | 7 | 7 |
| Ar cyfrif y goleuni | £5 | 11 | 11 |
| Cyfan mewn llaw yn | £10 | 19 | 6 |

Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy fod y cyfrifion yn gael ei derbyn a phaswyd.

7. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Dd Jones a phaswyd fod yr Ysgrifenydd i anfon at y Corporation am eglurhad am ei gwaith yn anfon bil o £2.2.8 am oleuni, er fod y goleuni wedi ei wrthod gan ei swyddogion eu hunain.

   Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod 5/- am audit stamp 1916 (cyfrif 1916) yn gael ei dalu i'r Ysgrifenydd a 2/- i Mrs Jones am ddarparu yr ystafell.

Arwyddwyd David Jones, Cadeirydd

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Nos Fawrth, Gorphenaf 17 1917

Yn bresenol: Mri D Jones Nantllachar (Cadeirydd), D Jones Bryn Vyrnwy, Thos Davies a John Jones

1. Cofnodion. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diweddaf a chadarnhawyd.
2. Gohebiaethau. Darllenwyd cylchllythyr oddiwrth adran "Food Production" ynglyn a chodi cymdeithasau i cynyddu cynhyrchiad bwyd.
3. Balance Sheet. Darllenwyd Balance Sheet yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 diweddaf. Cynigwyd gan D Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Thos Davies fod y cyfrifon yn gael ei derbyn a phaswyd.
4. Spraying machine. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy fod y Cynghor yn prynu y spraying machine gan Bwyllgor Amaethyddaeth y sir a phaswyd.
5. Cadwraeth y spraying machine. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod yr Ysgrifenydd i edrych ar ol y spraying machine.

6. Cyflog yr Assistant Overseer. (Stamp District Audit 2 Jan 1918). Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Jones a phaswyd yn unfrydol fod cyflog yr Assistant Overseer i fod yn bedair punt ar hugain (£24) am yr haf, a deunaw punt a chweugain (£18.10s) am y gaeaf.
7. Biliau. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy fod 5/- am audit 1917 yn gael ei dalu i'r Ysgrifenydd a 2/- i Mrs Jones am ddarparu yr ystafell.

Arwyddwyd David Jones, Cadeirydd.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod a cynhalwyd

## Hydref 16 1917

Yn bresenol: Mri Dd Jones Bryn Vyrnwy, J Edwards a Thos Davies.

1. Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan John Edwards fod David Jones Bryn Vyrnwy gymeryd y cadair am y noswaith.
2. Cofnodion. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diweddaf. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod y cofnodion yn gael ei cadarnhau.
3. Lampau y goleuni trydanol. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan John Edwards fod yr Ysgrifenydd i holi ynghlych cysgodi y lampau dan Deddf Amddifyniad y Deyrnas a phaswyd.
4. Llwybrau. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd i ofyn i'r District Council rhyddhau un o'i dynion i'r Cynghor i adgyweirio ychydig ar y llwybrau.

John Jones.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Rhagfyr 11 1917

Dim ond Mr Thos Davies yn bresenol.

## Cyfarfod gohiredig a cynhalwyd

## Ionawr 4edd 1918

Yn bresenol: Mri Thos Davies, Ellis Rickett, David Jones, John Edwards a John Jones.

1. Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan David Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod John Jones i gymeryd y cadair am y noswaith.
2. Cofnodion. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd fod y cofnodion yn gael ei gadarnhau.
3. Gohebiaeth. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan John Jones a phaswyd fod atebiad yn gael ei anfon at Swyddfa Llafur (Labour Exchange) ynghlyn ar W.A.A.C.
4. Food Economy. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy fod yr Ysgrifenydd yn anfon am lenyddiaeth at Bwyllgor Bwyd a i ddewud y gymerwn siaradwyr i cynal cyfarfod os gallant anfon siaradwyr fydd yn sicrau presenoldeb yn y cyfarfod.
5. Manager ar yr Ysgol. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod y Parch J D Evans Sardis yn gael ei ethol yn rheolwr ar Fwrdd Managers yr ysgol.
6. Goleuni. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett fod y lampau yn gael eu goleuo. Paswyd.
7. Balance Sheet. Darllenwyd Balance Sheet yr Overseers. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan John Jones fod y cyfrif yn gael eu dderbyn.
8. Yr Ysgol. Gynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod gais yn gael ei anfon at Bwyllgor Addysg y Sir yn galw ei sylw at yr ysgol, a’r golled mae plant yr ardal yn gael oherwydd nad yw yr ysgol yn gael ei cyflenwi a pethau angenrheidol at wasanaeth yr athrawon.

David Jones.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Chwefror 12 1918

Yn bresenol: Mri Thos Davies, Thos J Jones a D Jones Bryn Vyrnwy.

1. Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Thos J Jones i David Jones Bryn Vyrnwy cymeryd y cadair.
2. Cofnodion. Cynigwyd gan Thos J Jones a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod Cofnodion y cyfarfod diweddaf yn gael ei cadarnhau.
3. Rhestr y Cwnstabliaid. Cynigwyd gan Thos Davies a chefnogwyd gan Thos J Jones fod y personau canlynol i fod ar Rhestr y Cwnstabliaid a phaswyd.

   David Evans, Bronafon
   Robert Evans, Tanyfron
   John Hill, Hotel Stables
   D G Lewis, Groom's Cottage

4. Goleuni trydanol. Cynigwyd gan D Jones a chefnogwyd gan Thos J Jones a phaswyd i ysgrifennu at y Corporation am wybodaeth benodol a ydyw y Cynghor i gael goleuo y goleuni trydanol neu nad ydynt.
5. Llwybrau. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Thos Davies a phaswyd fod yr Ysgrifenydd i anfon at The Stores am rhyddhau David Ellis at y llwybrau.

   David Jones.

6. Ymddiriedolwyr y gwaddol an-eglwysig. Cynigwyd gan Thomas Davies a chefnogwyd gan David Jones a phaswyd fod i Mr Jones Rhiwargor a Evan Williams barhau yn ymddiriedolwyr ar waddol Ellis Davies, y ran an-eglwysig.

John Jones

Stamp District Audit 12 Feb 1919

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Ebrill 15 1918

Yn bresenol: Mri Dd Jones Bryn Vyrnwy, John Edwards a Dd Jones Nantllachar.

1. Cadeirydd. Cynigwyd gan D Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod Dd Jones Nantllachar i barhau yn Cadeirydd, a phaswyd.
2. Cofnodion. Cynigwyd gan Dd Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod y cofnodion yn gael ei gadarnhau.
3. Overseers. Cynigwyd gan Dd Jones Nantllachar a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd i Evan Lloyd Abermarchnant i barhau am flwyddyn arall yn Overseer a i David Jones Bryn Vyrnwy fod yn cyd-Overseer.
4. Cyflesterau Teithio (Transport). Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd i ysgrifenu at Sir W. W. Wynn i ofyn beth mae ef yn fwriadu wneud gyda golwg ar y mudiad sydd ar dweud i gael gwell cyflesterau teithio mewn ardaloedd gwledig = Llanfihangel – Llanwddyn.
5. Adroddiad o Cyflog Gweithwyr Amaethyddol. Cynigwyd gan Dd Jones Nantllachar a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod yr Ysgrifenydd i lenwi y daflen yn gofyn am fanylion o cyflogau gweithwyr amaethyddol yr ardal.
6. Biliau. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Dd Jones a phaswyd fod Bil o 8/- yn gael ei dalu i Mrs Roberts am ddarparu yr ystafell, ac 3/6 i'r Ysgrifenydd.
7. Cywiro Cofnodiad y cyfarfod o'r blaen. Paswyd fod cofnodiad o ddewis ymddiriedolwyr ar y gwaddol yn gael ei rhoi at cofnodion y cyfarfod diweddaf, sef at nodion y cyfarfod y bu y mater dan sylw.

John Jones.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

Cofnodion a alwyd Nos Fawrth Tachwedd [dim dyddiad] ond oherwydd nad oedd quorum yn bresenol gohirwyd y cyfarfod.

## Cofnodion cyfarfod gohiredig a cynhalwyd

## Nos Fawrth, Tachwedd 24ain 1918

Yn bresenol: Mri Dd Jones Bryn Vyrnwy, John Edwards Tyllwyd, John Jones Maescarneddi a Thos J. Jones Rhiwargor.

1. Dewis Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan D Jones a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd i John Jones cymeryd y Cadair am y noswaith.
2. Darllen Cofnodion. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Thos J Jones fod y Cofnodion yn gael ei cadarnhau a phaswyd.
3. Adenill tir i'w amaethu. Darllenwyd cylchllythyr oddiwrth Bwyllgor Amaethyddol y Sir yn gofyn am wybodaeth a manylion am dir yn y plwyf y gellid ei adenill at wasanaeth amaethyddol. Daethpwyd i'r penderfyniad nad oes o fewn i'r plwyf dir i'w adenill o dan 800 troedfedd uwchlaw y mor.
4. Amcan-cyfrif yr Overseers. Darllenodd yr Ysgrifenydd amcan-cyfrif (estimates) yr Overseers am yr haner blwyddyn nesaf yn dangos y Dreth yn 2s/4d yn y bunt.
5. Pwyllgor Garddwraeth y Sir. Darllenwyd cylchllythyrau oddiwrth Bwyllgor Garddwraeth y Sir (Horticultural Committee). Gadawyd ar y Bwrdd.
6. Goleuni. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan John Jones a phaswyd fod y lampau trydanol i'w goleuo. Yr Ysgrifenydd i wneud y trefniadau.
7. Bil. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Thos J Jones a phaswyd fod y taliad o £3.6.3 i David Ellis yn gael ei gadarnhau.
8. Cyflesterau teithio (transport). Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan John Edwards fod yr Ysgrifenydd yn anfon at Bwyllgor Amaethyddol y Sir i ofyn a oes rhyw symudiad wedi ei wneud yn mater gwell cyfleusterau trafnidaeth i ardaoledd gweldig.

Arwyddwyd David Jones, Cadeirydd.

# Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod Arbennig a gynhalwyd

## Ionawr 3 1919

Yn bresenol: Mri D Jones (Cad), D Jones Bryn Vyrnwy, Ellis Rickett a John Edwards, a Mr Thos Lloyd Tirdu Dolanog ar ran y Cynghor Dosbarth.

1. Tai i weithwyr. Cynigwyd gan D Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod angen tai i weithwyr yn y plwyf. Y nifer a'r lle i'w hadeiladu i fod yn fater ymholiad.

2. Man-ddaliadau. Cynigwyd gan Dd Jones Cadeirydd a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod mwy o angen man-ddaliadau na llai, a bod y ffermydd sydd yn gael ei tori i fyny at blannu coed yn gael gadael digon o dir i wneud small-holding a bod sylw yn gael ei alw at y cyfryw ffermydd sydd ar derfyn y plwyf ac hefyd fod Grwnoer yn fferm pwrpasol at wneyd man-ddaliadau.

3. Tai ancymwys. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd fod sylw y Cynghor Dosbarth yn gael ei alw at y tai ancymwys sydd yn y plwyf. Rhestr o enwau y rhai gwaethaf gan y Ysgrifenydd.

4. Cynigwyd gan y Cadeirydd a chefnogwyd gan D Jones a phaswyd pleidlais o ddiolchgarwch i Mr Thos Lloyd Tirdu am fod yn bresenol ar ran y Cynghor Dosbarth i egluro cynllun y Cynghor hwnnw.

5. Llwybrau. Cynigwyd gan D Jones Bryn Vyrnwy a chefnogwyd gan J Edwards a phaswyd fod yr ysgrifenydd i weld Mr Blakeley ynghlyn a talcen pont Garris.

6. Cynigwyd gan D Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd fod yr Ysgrifenydd i anfon at y Corporation yn gofyn iddynt lanhau ar ol cario coed oddeutu yr ysgol.

Arwyddwyd David Jones, Cadeirydd.

# Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Ionawr 21 1919

Yn bresenol: Mri Ellis Rickett, David Jones Bryn Vyrnwy, John Jones, John Edwards

1. Cadarnhau Cofnodion. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan John Edwards a paswyd cofnodion cyfarfod a cynhalwyd Tachwedd 24 1918.

   Eto. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Ellis Rickett a paswyd cofnodion cyfarfod arbenig a cynhalwyd Ionawr 3 1919.

2. Cwnstabliaid. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan John Jones a penderfynwyd ar y personau canlynol i fod ar rhestr y Cwnstabliaid.

   John Hill, Hotel
   D G Lewis, Brynderw
   Thomas Evans, Sardis
   David Lloyd, Library

3. Rheilffordd o Llanfyllin. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan David Jones a phaswyd yn unfrydol fod pawb yn bleidol i'r mater a bod yr Ysgrifenydd i anfon at Cynghor Trefol Llanfyllin i hyspysu hynny, ac i ymholi am yr rhagolygon a pha cwrs i'w cymeryd.

4. Biliau.

   a) Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd i anfon i Lerpwl ynghlyn a bil y goleuni.
   b) Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd i dalu 8/- i Mrs Roberts am ddarparu y ystafell a 5/- i'r Ysgrifenydd am Audit Stamp.

5. Cyflog yr Assistant Overseer. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod yr Assistant Overseer i barhau i gael yr un cyflog ac y mae wedi gael yn ystod yr Rhyfel sef £42.10.0 i'w talu yn ddau dal cyfartal o £21.5.0 yn lle un tal o £24.0.0 a'r llall yn £18.10.0

David Jones

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Chwefror 11 1919

Yn bresenol: Mri D Jones Bryn Vyrnwy, Ellis Rickett, John Edwards a John Jones.

1. Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd i David Jones fod yn Cadeirydd am y noswaith.
2. Cofnodion. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd cofnodion cyfarfod diweddaf.
3. Coffadwraeth i'r milwyr syrthedig. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan John Jones a phaswyd fod Cyfarfod Cyhoeddus yn gael ei alw i drin y mater, a bod posters yn gael ei printio.
4. Cadeirydd y Cyfarfod Cyhoeddus. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd i ofyn i'r Vicar cymeryd y Cadair noswaith y Cyfarfod.

David Jones

## Parish Meeting

## Cofnodion Cyfarfod Plwyfol a cynhalwyd

## Mawrth 17 1919

## i ethol Cynghor Plwyf

Yn bresenol: Parch S Jenkin-Evans a Mri D Jones Bryn Vyrnwy, D Jones Glanyrafon, Ellis Rickett, W B Johnson, Thos Owen ac Evan Williams.

1. Cadeirydd. Cynigwyd gan y Parch S Jenkin-Evans i Thos Owen cymeryd y Cadair. Chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd.
2. Nomination Papers. Wedi i'r Cadeirydd cymeryd y Cadair rhoddodd yr amser gofynedig i'r nomination papers ddwad i fewn ac wedi derbyn y cyfryw ai rhoddi mewn trefn cyhoeddodd y Cadeirydd y rhai canlynol wedi ei hethol yn Cynghorwyr Plwyfol: John Edwards, S Jenkin-Evans, David Jones Bryn Vyrnwy, David Jones Nantllachar, John Jones Maescarneddi, Thos J Jones Rhiwargor ac Ellis Rickett Glyndu.

3. Materion Plwyfol. Ar ol yr etholiad uchod cyhoeddodd Cadeirydd y Cyfarfod yn rhydd i drin materion plwyfol, a chafwyd ychydig o ymdrafodaeth ar man-ddaliadau.

Arwyddwyd Thomas Owen, Cadeirydd

## 1919

## Datganiad yr aelodau am ymgymeriad o swydd o Cynghorwyr Plwyfol ar Cynghor Plwyf Llanwddyn

## (Declaration of members upon acceptance of office of Parish Councillors)

## Parish Council of Llanwddyn

Yr ydym ni y rhai y mae ein henwau isod, yn datgan ac yn llawnodi yn mhresenoldeb ein gilydd ein bod yn ymgymeryd a gwahanol dyledswyddau i'r Cynghor hwn i'w cyflawni yn cydwybydol a ffyddlawn hyd eithaf ein gallu.

John Edwards
Samuel Jenkin Evans
David Jones
Ellis Rickett
David Jones
Thos John Jones
John Jones

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cyfarfod a alwyd ar

## Ebrill 15 1919

## ond oherywdd nad oedd quorum gohirwyd i'r 19eg

Yn bresenol: Mri John Edwards, Ellis Rickett, D Jones Bryn Vyrnwy, Rev S Jenkin-Evans ac Evan Williams Ysgrifenydd.

1. Cadeirydd. Cynigwyd gan David Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd fod dewis Cadeirydd am y flwyddyn yn gael ei ohirio.

2. Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan y Parch S Jenkin-Evans a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd i Mr D Jones cymeryd y cadair am y noswaith.
3. Yr rheilffordd ysgafn. Cynigwyd gan Rev S Jenkin-Evans a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod llythyr yn gael ei anfon at y Cynghor Sirol yn holi ynghylch y mater o rheilffordd ysgafn o Llanfyllin i Llanwddyn.
4. Cofnodion. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan Rev S Jenkin-Evans a phaswyd fod y cofnodion yn gael ei cadarnhau.
5. Overseers. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd i Mr David Jones Bryn Vyrnwy a Mr John Williams, Garris fod yn Overseers am y flwyddyn nesaf.
6. Darllen cyfrifon y cynghor. Darllenwyd cyfrifon y cynghor am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1919 yn dangos fod y swm £5.18.9 mewn llaw.
7. Cyfrifon yr Overseers. Darllenwyd Balance Sheet yr Overseers am y ddwy haner blwyddyn diweddaf. Ni wnaed yr un sylw penodol.
8. [dim cofnod]
9. Biliau. Cynigwyd gan John Edwards a phaswyd fod y biliau canlynol yn gael ei chadarnhau: Shaw & Sons 4/10, L'pool Corporation 9/- eto 3/-, Mrs Roberts 8/-, Miss Davies 10/- a Evan Williams 5/-.
10. Precept ar yr Overseers. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod Precept yn gael ei rhoddi ar yr Overseers am £5.

David Jones

## Cofnodion cyfarfod o Cynghor Plwyfol Llanwddyn a cynhalwyd Gorphenaf 15ed 1919

Yn bresenol: Mri D Jones Bryn Vyrnwy, John Edwards Tyllwyd, Ellis Rickett Glyndu a'r Parch S Jenkin-Evans gyda Evan Williams Ysgrifenydd.

1. Dewis Cadeirydd. Gohirwyd dewis Cadeirydd tan y byddai ychwaneg o'r aelodau yn bresenol.
2. Dewis Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan S Jenkin-Evans i D Jones cymeryd y Cadair am y noswaith.

3. Cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion y cyfarfod diweddaf.
4. Dathliad Heddwch. Cynigwyd gan S Jenkin-Evans fod y Cynghor yn cyfranu i fyny i £30 at dreuliau Pwyllgor Dathliad Heddwch. Taliad o £20 i'w wneud yn uniongyrchol, a'r £10 arall os bydd yr angen. Chefnogwyd gan D Jones ac ategwyd gan Ellis Rickett a phaswyd. Yr ysgrifenydd i ofalu am fod gofynion Bwrdd Lywodraeth Leol yn gael ei boddloni.
5. Rheolwr yr ysgol. Gohirwyd dewis Rheolwr ar Fwrdd Rheolwyr yr ysgol.
6. Adroddiad am Bytakes. Gohirwyd hefyd y mater o roddi adroddiad i'r Cynghor Sirol am y Bytakes sydd yn y plwyf.
7. Biliau. Paswyd y biliau canlynol i'w talu:

   Mr Thos Edwards Llanfyllin 10/-
   Mr Bryan Edwards Llanfyllin 6/6
   Liverpool Corporation £1.2.0

David Jones

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod arbenig a cynhalwyd

## Hydref 23 1919

Yn bresenol: Mri Dd Jones Bryn Vyrnwy, John Jones a John Edwards gyda Evan Williams yr Ysgrifenydd.

1. Adroddiad am yr angen a cyflwr tai yn y plwyf. Cynigwyd gan John Jones a chefnogwyd gan D Jones a phaswyd fod y Cynghor Plwyfol yn teimlo yn analluog i roddi adroddiad ar yr angen a cyflwr tai gweithwyr yn y plwyf, oherwydd fod y galwad am dai yn dibynnu faint o weithwyr fydd y Corporation yn ei cyflogi, a bod yn well i'r Cynghor Dosbarth ohebu a'r Awdurdodau Lerpwl yn y mater. Gyda golwg ar cyflwr y tai yr oedd y Cynghor o'r farn mae gwaith priodol i Swyddogion y Cynghor Dosbarth yw hynny.

David Jones

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod a cynhalwyd

## Tachwedd 18 1919

Yn bresenol: Mri S Jenkin-Evans, D Jones Bryn Vyrnwy, D Jones Nantllachar, Ellis Rickett, John Edwards a Thos J Jones.

1. Cadeirydd. Cynigwyd gan Mr D Jones Nantllachar a chefnogwyd gan y Parch S Jenkin-Evans i Mr D Jones Bryn Vyrnwy fod yn Cadeirydd am y flwyddyn. Paswyd yn unfrydol.
2. Cofnodion. Cynigwyd gan y Parch S Jenkin-Evans a chefnogwyd gan Mr D Jones Nantllachar a paswyd cofnodion y cyfarfod diweddaf a'r cyfarfod arbenig.
3. Amcan-cyfrif yr Overseers. Darllenwyd amcan-cyfrif yr Overseers am yr haner blwyddyn nesaf gan yr Ysgrifenydd yn dangos y bydd y dreth yn 2/10 yn y bunt. Paswyd yr amcan-cyfrif yn foddhaol.
4. Bytakes. Gohirwyd gwneud adroddiad i'r Cynghor Sir am y Bytakes sydd yn y plwyf.
5. Cyfrifon Dathliad Heddwch. Darllenodd yr Ysgrifenydd cyfrifon ar ol dathliad Heddwch. Bu ymdrafodaeth gyda golwg ar y swm o £10 yn ychwanegol oedd y Cynghor wedi addaw os byddai angen.
6. Treth goleuni. Cynigwyd gan Mr D Jones Nantllachar a chefnogwyd gan Mr Ellis Rickett i godi treth at dreuliau y goleuni.
7. Llwybrau. Cynigwyd gan Mr T J Jones a chefnogwyd gan y Parch S Jenkin-Evans fod dyn yn gael ei rhoi i adgyweirio y llwybrau.

John Jones

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod Arbenig a cynhalwyd

## Rhagfyr 2 1919

## i ystyried Mesur Dwfr Lerpwl

Yn bresenol: Mri D Jones, John Edwards a'r Parch S Jenkin-Evans

Paswyd fod cais yn gael ei anfon at y Cynghor Dosbarth am wybodaeth beth oeddynt hwy yn wneud gyda golwg ar waith Corfforaeth Lerpwl yn dwyn Mesur Newydd i'r Senedd.

John Jones

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Ionawr 27 1920

Yn bresenol: Parch S Jenkin-Evans, Mri Ellis Rickett a Dd Jones Nantllachar.

1. Dewis Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan y Parch S Jenkin-Evans a chefnogwyd gan Mr Ellis Rickett a phaswyd i Mr D Jones cymeryd y Cadair.
2. Cydymdeimlad. Paswyd pleidlais o cydymdeimlad a teulu y diweddar Mr Dd Jones Bryn Vyrnwy.
3. Overseer am ysbaid. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan S Jenkin-Evans a phaswyd i Mr Richard Jones Glanrhyd fod yn Overseer i orphen tymor Mr Dd Jones.
4. Cynigwyd gan Dd Jones a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd fod yr Ysgrifenydd i hyspysu Corfforaeth Dinas Lerpwl fod y Cynghor yn wrthwynebol i'w "Mesur" sydd gerbron y Senedd.

John Jones

# Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Chwefror 24 1920

Yn bresenol: Parch S Jenkin-Evans, Mri John Edwards, John Jones a Thos J Jones.

1. Cadeirydd. Cynigwyd gan y Parch S Jenkins-Evans a chefnogwyd gan Mr John Edwards a phaswyd i Mr John Jones cymeryd y cadair am y noswaith.
2. Dewis Rhestr cwnstabliaid. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan John Jones a phaswyd i'r personau canlynol fod ar rhestr y cwnstabliaid:
    1. David Evans, Glyndu
    2. Thomas Evans, Sardis
    3. John Hill, Hotel Stables
    4. David Williams, Bethel
3. Cafwyd trafodaeth ar y County Rate Basis newydd. Ni phaswyd yr un penderfyniad.
4. Balance Sheet yr Overseers. Darllenodd yr Ysgrifenydd Balance Sheet yr Overseers am y flwyddyn yn diweddu Medi 30 1919. Paswyd yn foddhaol.
5. Cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
6. Aelod newydd. Cynigwyd gan y Parch S Jenkin-Evans a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd i Mr Richard Jones gael ei ethol yn aelod o'r Cynghor i lenwi sedd y diweddar Mr David Jones.
7. Arwyddo y Cheques. Cynigwyd gan y Parch S Jenkin-Evans a chefnogwyd gan John Edwards i Mr Ellis Rickett arwyddo cheques y Cynghor gyda Mr David Jones Nantllachar.
8. Biliau. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Thos. J. Jones a phaswyd y biliau canlynol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| a) | Corporation Lerpwl | £1 | 18 | 0 |
| b) | Corporation Lerpwl | | 15 | 0 |
| c) | Mrs Roberts | | 8 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| d) | Evan Williams | | 10 | 0 |
| e) | Mrs Boden | | 4 | 0 |
| f) | Mont War Agl Committee | £3 | 0 | 0 |

Arwyddwyd Ellis Rickett, Cadeirydd

## Datganiad Aelod newydd ar ymgymeriad o swydd o Cynghorwr Plwyfol i lanw sedd wag

## Declaration of a new member upon acceptance of office to fill a casual vacancy

Yr wyf fi, y mae fy enw isod, yn datgan ac yn llawnodi yn mhresenoldeb y Cynghor fy mod i yn ymgymeryd a gwahanol ddyledswyddau y Cynghor hwn i'w cyflawni yn cydwybodol a ffyddlawn hyd eithaf fy gallu.

Richard Jones.

## Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod a cynhalwyd

## Ebrill 16 1920

Yn bresenol: Parch S Jenkin-Evans a Mri John Edwards a Ellis Rickett.

1. Dewis Cadeirydd. Gohirwyd dewis Cadeirydd am y tymor a cynigwyd gan y Parch S Jenkin-Evans a chefnogwyd gan Mr John Edwards a phaswyd i Mr Ellis Rickett fod yn Cadeirydd am y noswaith.

2. Aelod Newydd. Gan na daeth Mr Richard Jones i'r Cyfarfod, paswyd i ohirio y mater o'i dderbyn yn aelod o'r cynghor.

3. Darllen cofnodion. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diweddaf a cynigwyd gan y Parch S Jenkin-Evans a chefnogwyd gan Mr John Edwards a phaswyd ei bod yn gael ei cadarnhau.

4. Cyfrifon y Cynghor. Darllenwyd cyfrifon y Cynghor am y flwyddyn diweddaf yn dangos diffyg mewn llaw ar y General Account o 8s/8s a gweddill o 14s/11d ar y lighting account. Mewn llaw ar y dau account gyda gilydd 6/4. Paswyd.

5. Biliau. Cynigwyd gan y Parch S Jenkin-Evans a chefnogwyd gan Mr John Edwards fod y biliau canlynol yn gael eu talu:

   Miss Davies  10/-

   Mr J Rickett  3/-

   Mri Shaw & Sons  19/7

6. Llwybrau. Paswyd i anfon cais at Mr R A Jones Llanfyllin i ofyn iddo adgyweirio y llwybrau ar Bryncowni ar ol bod yn cario coed.
7. Archeb. Cynigwyd gan Mr John Edwards a chefnogwyd gan y Parch S Jenkin-Evans a phaswyd fod archeb yn gael ei rhoi ar yr Overseers am £3 at dreuliau cyffredin y Cynghor.
8. Goleuni. Hefyd, cynigwyd gan y Parch S Jenkin-Evans a chefnogwyd gan Mr John Edwards a phaswyd fod archeb am £4.7.1 yn gael ei rhoi ar yr Overseers o dreth y goleuni, a paswyd.

John Jones

## Cofnodion Cynghor Plwyfol Llanwddyn

## Cyfarfod a cynhalwyd

## Tachwedd 23 1920

Yn bresenol: Mri John Edwards, Richard Jones, John Jones a Ellis Rickett

1. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd i Mr John Jones cadeirio.
2. Cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Gohebiaethau. [dim cofnod]
4. Biliau. Paswyd i dalu bil i Corporation Lerpwl o £1.5.4 am oleuni trydanol.
5. Amcan-cyfrif. Amcan-cyfrif yr Overseers am yr haner blwyddyn bresenol yn dangos lleihad yn y dreth o 2d yn y bunt sef 3.8 yn y bunt.
6. Manager ar Fwrdd yr Ysgol. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod y Parch Thos Aston yn gael ei ddewis yn cynnrychiolydd i'r Cynghor ar Fwrdd Managers yr ysgol.

7. Llwybrau Caeaubychain. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Jones a phaswyd i anfon llythyr at brynwr y coed ar fferm Caeaubychain yn gofyn iddynt adgyweirio y llwybrau ar ei hol.
8. Hefyd Pont Nant Bryndu a Pont Nant yr Hendre. Hefyd fod llythyr yn gael ei anfon at Mr Blakeley ynghlyn a cyflwr Pont Nant Bryndu a Mr Stiner yn galw ei sylw yntau at Bont Nant yr Hendre.
9. Treth goleuni. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Edwards fod treth goleuni yn gael ei galw fel arferol yn ol 1/8 o ceiniog yn y bunt i godi y swm o £4.10.0 a phaswyd.

Arwyddwyd David Jones, Cadeirydd

## Cynghor Plwyf Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a ohirwyd o Nos Fawrth, Chwefror 22

## i Nos Sadwrn, Chwefror 26ain.

Yn bresenol. Mri D Jones, Ellis Rickett, John Edwards a Richard Jones.

1. Cadeirydd am y noswaith. Cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd i D Jones fod yn Cadeirydd am y noswaith.
2. Cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Gohebiaethau. Darllenwyd y gohebiaethau, nid oedd yn cynnwys dim o bwys neillduol.
4. Rhestr y Cwnstabliaid. Cynigwyd gan Richard Jones a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd yr rhestr canlynol o bersonau i fod ar rhestr y cwnstabliaid:

   John Hill, Vyrnwy Stables

   Evan Lloyd, Bryndu

   David Williams, Bethel

   Richard Morris, Glanyrafon
5. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Ellis Rickett a phaswyd fod y pwnga o cyflog yr Assistant Overseer i’w ohirio.
6. Biliau. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Richard Jones a phaswyd fod y biliau canlynol yn gael ei talu.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Liverpool Corporation | £1 | 14s | 8d |
| Liverpool Corporation (Vyrnwy a/c) | | 8s | 6d |
| Mrs Lloyd | | 4s | 0d |

Ellis Rickett

## Cynghor Plwyf Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod a cynhalwyd

## Nos Fawrth, Ebrill 18 1921

Nid ond Mr Ellis Rickett a Mr John Edwards yn bresenol a gohirwyd y cyfarfod.

## Cofnodion y cyfarfod gohiredig

## Nos Wener, Ebrill 22 1921

Yn bresenol: Mri Ellis Rickett, Rd Jones, Thos J Jones a John Jones

1. Dewis Cadeirydd. Cynigwyd gan Mr John Jones a chefnogwyd gan Mr Richard Jones a phaswyd fod i Mr Ellis Rickett cymeryd y Cadair am y flwyddyn nesaf.
2. Cofnodion. Cynigwyd gan Mr Thos J Jones a chefnogwyd gan Mr John Jones a phaswyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
3. Overseers. Cynigwyd gan Mr John Jones a chefnogwyd gan Mr Richard Jones a phaswyd i Mr Thos Owen fod yn un o'r Overseers. Cynigwyd gan Mr Thos J Jones a chefnogwyd gan Mr John Jones a phaswyd i Mr Richard Jones barhau yn Overseer am flwyddyn arall.
4. [dim cofnod]
5. Balance Sheet. Darllenwyd Balance Sheets yr Overseers am y flwyddyn yn diweddu Medi 30 1920 a phaswyd yn dderbyniol.
6. Cyfrifon y Cynghor. Darllenwyd cyfrifon y Cynghor am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1921

| | |
|---|---|
| Balance ar y cyfrif cyffredin | 2.12.0 |
| Balance ar y cyfrif y goleu | <u>1.0.6</u> |
| Cyfanswm y gweddill | <u>3.12.6</u> |

A paswyd yn foddhaol.

7. Cyflog yr Assistant Overseer. Cynigwyd gan Mr John Jones a chefnogwyd gan Mr Rd Jones a phaswyd i ychwanegu £1.1.0 yn cyflog yr Assistant Overseer sef codiad o £42.10.0 i £43.11.0 y flwyddyn.
8. Amcan-cyfrif yr Overseers (estimates). Rhoddodd yr Ysgrifenydd bras-linelliad o'r dreth am yr haner-blwyddyn nesaf. Mae cyfanswm erfynion yr awdurdodau yn golygu treth o 4.7¾ yn y bunt.
9. Biliau. Cynigwyd gan Mr Thos J Jones a chefnogwyd gan Mr John Jones a phaswyd i dalu y biliau canlynol: Evan Williams 15/9, Mrs Lloyd 4/-, Miss Davies 10/-

Ellis Rickett

## Cynghor Plwyf Llanwddyn

## Cofnodion cyfarfod a cynhalwyd

## Hydref 17 1921

Yn bresenol: Mri Ellis Rickett, John Edwards a Parch S Jenkin-Evans

1. Cofnodion. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Cyfrifon yr Overseers. Darllenwyd Balance Sheets yr Overseers am yr haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 1921, cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan S Jenkin-Evans fod y cyfrifon yn gael ei derbyn.
3. Parish Documents. Ar ol ymdrafodaeth cynigwyd gan Ellis Rickett a chefnogwyd gan John Edwards a phaswyd fod y papurau a llyfrau plwyfol "Parish Documents" oedd arferol o gael ei cadw gan y Ficer yn cael ei gadael eto yn Festry yr Eglwys ac o dan ofal y Ficer.
4. Amcan-cyfrif Estimates. Darllenwyd amcan-cyfrif (estimate) o'r dreth am yr haner blwyddyn yn diweddu Mawrth 31 nesaf, yn dangos treth o 4/4 yn y bunt.

Ellis Rickett

## Cynghor Plwyf Llanwddyn

## Cofnodion Cyfarfod a cynhalwyd

## Chwefror 28 1922

Yn bresenol: Mri Ellis Rickett, John Edwards, Richard Jones a S Jenkin-Evans.

1. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diweddaf.
2. Rhestr cwnstabliaid. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Richard Jones fod y personau canlynol i fod ar rhestr y Cwnstabliaid a phaswyd. [dim rhestr]
3. Llwybr Grwnoer. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan Richard Jones fod dyn yn cael ei rhoi i agor y platiau a troi y dwfr oddi ar lwybr Grwnoer a bod yr Ysgrifenydd i ofyn i Mr Blakeley adgyweirio y bont.
4. Precept ar y Overseers. Cynigwyd gan John Edwards a chefnogwyd gan S Jenkin-Evans a phaswyd fod £5 yn gael ei archeb at y General Account a £4.15.6 at y lighting account.
5. Cynigwyd gan S Jenkin-Evans a chefnogwyd gan Richard Jones a phaswyd i rhoi plank wrth blaid Ellis Rickett.

Ellis Rickett

# [DIWEDD]